



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Llywio'r Gymraeg

Dyddiad: 29 Mehefin 2023

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democratic@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG, DYDD MERCHER, 5 GORFFENNAF 2023** am **10.00 am** yn **TRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 3 - 4)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn

3 PENODI CADEIRYDD

Penodi Cadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/24.

4 PENODI IS-GADEIRYDD

Penodi Is-Gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/24.

5 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

6 COFNODION (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2023 (copi ynghlwm).

7 ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL Y GYMRAEG (Tudalennau 11 - 54)

Derbyn adroddiad gan Swyddog yr Iaith Gymraeg i drafod a chytuno ar gynnwys yr adroddiad Monitro'r Iaith Gymraeg blynyddol ar gyfer 2022/23 (copi ynghlwm).

8 ADRODDIAD SICRWYDD STRATEGAETH IAITH 2017-2022 (Tudalennau 55 - 128)

Derbyn adroddiad gan Swyddog yr Iaith Gymraeg ar Adroddiad Sicrwydd Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022 (copi ynghlwm)

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL (Tudalennau 129 - 130)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (copi ynghlwm)

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Ellie Chard
Ann Davies
Gill German
Huw Hilditch-Roberts
Carol Holliday

Paul Keddie
Arwel Roberts
Cheryl Williams
Huw Williams
Emrys Wynne

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR LLYWIO'R IAITH GYMRAEG

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ddydd Mercher 15 Mawrth 2023 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard (Cadeirydd), Ann Davies, Gill German, Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW), Swyddog yr Iaith Gymraeg (MC), Swyddog Datblygu Staff (MW), Swyddog Datblygu'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (MJ), Gweinyddwr y Pwyllgor (RTJ).

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Merfyn Parry a Huw Williams.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

3 MATERION BRYN Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Dim.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2022.

Hysbysodd Swyddog yr Iaith Gymraeg y pwyllgor na chynhaliwyd Eisteddfod y staff y flwyddyn hon; cynhaliwyd yr ail Eisteddfod ar-lein a phrin oedd y bobl a gymerodd ran. Felly, penderfynwyd gohirio'r Eisteddfod nesaf nes 2024.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2022 fel cofnod cywir.

5 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF YNGHYLCH MWY NA GEIRIAU

Cyflwynodd y Swyddog Datblygu Staff yr adroddiad ynglŷn â'r Fframwaith 'Mwy na Geiriau' (a ddsbarthwyd o flaen llaw). Roedd yr adroddiad yn disgrifio datblygiad y fframwaith 'Mwy na Geiriau'.

Roedd y fframwaith 'Mwy na Geiriau' yn nodi sut ellid mynd ati ar y cyd i sicrhau cynnydd dan y themâu cyffredinol, diwylliant ac arweinyddiaeth. Roedd y camau y byddai'r Cyngor yn eu cymryd yn 2023-24 yn cynnwys:

- Darparu manylion ynglŷn â sut roedd y gwasanaethau'n bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg ynghyd â thargedau i sicrhau gwelliant
- Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol
- Rhannu arferion gorau wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg a sut i wneud 'Cynnig Gweithredol' gyda'r holl staff a gyflogir yn uniongyrchol neu'r rhai mewn gwasanaethau a gomisiynir.
- Darparu hyfforddiant ac adnoddau iaith i'r holl staff a chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg fagu hyder wrth ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae'n ofynnol i Sir Ddinbych gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ar gyflawni camau gweithredu penodol wrth weithredu'r fframwaith. Wrth ddal i fonitro ar weithredu'r fframwaith, canolbwyntid ar brofiad y defnyddwyr o'r gwasanaeth a'r systemau monitro presennol (er enghraifft, fel rhan o arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru).

Trafododd y pwyllgor y materion canlynol ymhellach –

- Holodd y pwyllgor ynglŷn â chostau'r fframwaith a chadarnhaodd y Swyddog Datblygu Staff nad oedd y fframwaith 'Mwy na Geiriau' yn creu costau ychwanegol i'r Cyngor.
- Soniodd y pwyllgor am gostau dysgu Cymraeg gan holi a fedrai hynny effeithio ar unrhyw wasanaethau a fyddai'n trefnu bod aelodau o'u tîm yn cael gwersi Cymraeg. Cadarnhawyd mai'r unig gost fyddai cyflenwi staff ar adegau'r gwersi.
- Hysbyswyd y pwyllgor bod canran y siaradwyr Cymraeg yn y sector gofal mewnol yn Sir Ddinbych yn 20%, o gymharu â 12% yn y sector preifat. Cytunodd y swyddogion a'r aelodau y byddai angen newid diwylliant er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

PENDERFYNWYD bod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r fframwaith 'Mwy na Geiriau'.

6 Y DIWEDDARAF AR Y CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Cyflwynodd Swyddog Datblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y wybodaeth ddiweddaraf.

Hysbysodd y swyddog datblygu'r pwyllgor o'r saith o dargedau yn y strategaeth, sef –

- (i) Cynyddu nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a lleoedd addysg yn yr iaith Gymraeg;

- (ii) Cynyddu nifer y plant a phobl ifanc sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg;
- (iii) Codi safonau addysg yn y Gymraeg a sicrhau bod dysgwyr yn dod yn rhugl yn y Gymraeg erbyn diwedd eu haddysg orfodol;
- (iv) Sicrhau bod y Gymraeg wedi'i hintegreiddio'n llawn yng nghwricwlwm pob ysgol, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Saesneg;
- (v) Darparu cymorth i athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol eraill er mwyn datblygu eu sgiliau Cymraeg a'u gallu i addysgu;
- (vi) Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu mewn ysgolion ac annog rhieni a'r gymuned ehangach i arfer y Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol;
- (vii) Sicrhau fod addysg Gymraeg yn hygyrch i bawb, beth bynnag eu cefndir neu'u hamgylchiadau.

Nod y targedau hyn oedd sicrhau fod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael ac yn hygyrch i bawb a ddymunai ei dderbyn, a chodi safonau addysg Gymraeg ledled Cymru.

Trafododd Aelodau'r materion canlynol yn fanylach –

- Wrth sôn am y targed cyntaf, bu'r aelodau'n trafod y lleoliadau niferus dan ddatblygiad a'r ffaith bod y datblygiad yn Ysgol Dewi Sant wedi'i oedi oherwydd pryderon Dŵr Cymru. Gobeithiai'r swyddogion, serch hynny, y datrysid y mater fel bod modd dal ati i ddatblygu'r cylch meithrin ar y safle. Roedd yno gais hefyd i ddod o hyd i leoliad addas yn Rhuthun. Dywedodd y swyddogion y gallai gymryd deuddeg mis neu fwy i gael y maen i'r wal yn Rhuthun, gan ei bod yn heriol dod o hyd i safle addas ar gyfer cylch meithrin yno.
- Trafodwyd yr heriau gydag addysg a'r Gymraeg. Dywedodd yr aelodau bod Llywodraeth Cymru'n deall yr heriau hynny, ond ei bod yn dal yn anodd recriwtio athrawon Cymraeg a bod dewis y rhieni'n creu rhwystr arall i'r Gymraeg mewn addysg.
- Cytunodd y pwyllgor y dylid rhoi mwy o bwyslais ar fuddion y Gymraeg ac y dylai pobl weld yr iaith fel sgil y dylid ei glodfori a'i annog.

Diolchodd y cadeirydd i'r swyddogion am ddod i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r pwyllgor ynghylch y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Cytunodd yr aelodau y dylai'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg fod yn eitem flynyddol ar y rhaglen.

PENDERFYNWYD bod *Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.*

Ar yr adeg hon hysbyswyd y cadeirydd nad oedd y pwyllgor â chworwm mwyach; torrodd y cyfarfod am egwyl o ddeg munud. Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.00 pm.

Rhoes Swyddog yr Iaith Gymraeg gyflwyniad i'r pwyllgor ynglŷn â'r canfyddiadau yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2021.

Roedd cwestiynau'r cyfrifiad yn gofyn i unigolion asesu eu hunain. Gofynnid i'r unigolion ddewis yr holl opsiynau a oedd yn wir iddynt hwy. Gallai nifer o ffactorau ddylanwadau ar y modd yr oedd pobl yn asesu eu sgiliau a'u cofnodi. Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19).

Roedd yr adroddiad yn amlygu bod nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg (tair oed a hŷn) wedi gostwng ers Cyfrifiad 2011 o 562,000 i 538,000, a oedd 1.2% yn llai. Y rhan o Gymru â'r ganran fwyaf o siaradwyr Cymraeg oedd y gogledd-orllewin, a'r de-ddwyrain oedd â'r ganran leiaf. Hysbysodd Swyddog yr Iaith Gymraeg y pwyllgor y bu gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ymhob awdurdod lleol heblaw am Gaerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Yn Sir Gâr y cafwyd y gostyngiad mwyaf a hynny am yr ail gyfrifiad yn olynol.

Roedd bron i dri chwarter o'r boblogaeth wedi nodi yn y cyfrifiad nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg. Rhoes Swyddog yr Iaith Gymraeg wybodaeth i'r aelodau ynglŷn â phoblogaeth Cymru a fedrai fod wedi effeithio ar y cyfrifiad.

- Roedd poblogaeth Cymru wedi cynyddu tua 1.4% ers 2011.
- Roedd mwy o bobl a aned y tu allan i Gymru'n byw yma yn 2021 nag yn 2011
- Roedd canran y plant a phobl ifanc dan bymtheg yng Nghymru wedi gostwng ers 2011.

Yna hysbysodd Swyddog yr Iaith Gymraeg y pwyllgor o'r canlyniadau yn Sir Ddinbych; yn 2011 gallai 22,236 o bob tair oed neu hŷn siarad Cymraeg, sef 24.5% o'r boblogaeth o 90,527. Yng Nghyfrifiad 2021, 20,942 o bobl a fedrai siarad Cymraeg, a oedd yn ostyngiad o 2.1%. Roedd cyfanswm y boblogaeth hefyd wedi cynyddu i 93,055.

Diolchodd yr aelodau i Swyddog yr Iaith Gymraeg am y wybodaeth; er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg, nid oedd cyn waethed â'r disgwyl i lawer o bobl. Soniodd yr aelodau, fodd bynnag, nad oedd effaith Covid 19 ar y Gymraeg wedi dod i'r amlwg yn llwyr eto.

PENDERFYNWYD bod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn nodi canlyniadau Cyfrifiad 2021.

8 STRATEGAETH DDRAFFT Y GYMRAEG 2023-28

Cyflwynodd Swyddog yr Iaith Gymraeg Strategaeth y Gymraeg 2023-28 (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gan rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r aelodau ynglŷn â'r amserlen arfaethedig ar gyfer datblygu'r strategaeth newydd.

Roedd yr adroddiad yn sôn am ddatblygu Strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg yn Sir Ddinbych ac yn cyflwyno'r amserlen arfaethedig ar gyfer datblygu'r strategaeth newydd.

Roedd Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 wedi galluogi'r Llywodraeth i bennu safonau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ac roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r holl awdurdodau lleol fabwysiadu Strategaeth y Gymraeg wrth iddynt ymateb i'r Safonau.

Mabwysiadodd Cabinet Sir Ddinbych y strategaeth bresennol ym mis Mawrth 2017, ac roedd hi'n ymdrin â'r dull o hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd ohoni yn y sir; roedd disgwyl y byddai'r Cyngor yn diwygio'r strategaeth bum mlynedd wedi'i chyhoeddi.

Roedd y Cyngor wedi ystyried sawl enghraifft o arfer orau gan gynghorau eraill, y wybodaeth ddemograffig oedd ar gael a llwyddiannau'r strategaeth flaenorol.

Roedd yr aelodau a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth eisoes wedi trafod y meysydd â blaenoriaeth ac wedi eu cymeradwyo mewn egwyddor.

Wrth ddrafftio'r strategaeth, roedd y Cyngor wedi ymgysylltu ac ymgynghori â'r gwasanaethau a phartneriaethau mewnol ac allanol perthnasol.

Roedd y Cyngor wedi comisiynu'r Ganolfan Cynllunio Iaith i ddadansoddi data, gwneud gwaith ymchwil a llunio adroddiad sicrwydd ar ein Strategaeth y Gymraeg 2017-2022. Roedd gwaith yn digwydd ar y cyd i drafod y canfyddiadau y byddai rhai o'r camau gweithredu yn y Strategaeth yn seiliedig arnynt.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes bod Swyddog yr Iaith Gymraeg yn anfon y Strategaeth at yr aelodau hynny o'r pwyllgor nad oeddent yn bresennol, fel y gallent hwythau ymateb i'r Strategaeth.

PENDERFYNWYD bod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn cymeradwyo dull gweithredu'r Strategaeth, yr amserlen a'r camau gweithredu.

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor i'w hystyried.

Trafododd y pwyllgor y materion canlynol ymhellach –

- Cytunodd y pwyllgor bennu eitem flynyddol ar y rhaglen ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg, ond y dylid dod â'r mater gerbron y pwyllgor yn gynt pe byddai mater o bwys yn codi yn y cyfamser.
- Cadarnhaodd y swyddogion y byddai eitem ynghylch Strategaeth y Gymraeg ar raglen y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, derbyn a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i:	Pwyllgor Llywio'r Gymraeg
Dyddiad y cyfarfod:	5 Gorffennaf 2023
Aelod Arweiniol/Swyddog	Cynghorydd Emrys Wynne/ Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Awdur yr adroddiad:	Manon Celyn Roberts, Swyddog Iaith Gymraeg
Teitl:	Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Adroddiad Montro Iaith Gymraeg blynyddol y Cyngor

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I drafod a chytuno ar gynnwys yr adroddiad Monitro Iaith Gymraeg blynyddol ar gyfer 2022/23, sydd yn ofyniad statudol.

3. Beth yw'r argymhellion?

3.1 I gytuno ar gynnwys yr adroddiad.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae disgwyl i'r Cyngor gynhyrchu adroddiad blynyddol ar ei wefan, a disgwylir i'r adroddiad fanylu ar y cynnydd a wnaed gyda'r Iaith Gymraeg.

4.2 Mae hi'n ddyletswydd statudol, yn unol â'r Safonau, i'r Cyngor gydymffurfio drwy gyhoeddi adroddiad.

4.3 Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i weithio tuag at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir ac er mwyn cyfrannu'n bositif tuag at yr ymgyrch genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

4.4 Mae'r adroddiad yn amlinellu cyrhaeddiadau a pherfformiad yn erbyn dangosyddion Iaith Gymraeg yr ydym wedi eu hadrodd yn eu herbyn; camau a gymerwyd gan y Cyngor i gydymffurfio â'r Safonau a gwybodaeth ar lefelau ieithyddol staff.

4.5 Mae'r Cyngor hefyd yn adrodd ar gynnydd gyda'r fframwaith 'Mwy Na Geiriau' a Chynllun Strategol y Gymreg mewn Addysg y Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu sy'n rhan o amcanion allweddol Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2022-27.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Does dim cyllid benodol ar gyfer yr Iaith Gymraeg. Daw unrhyw gostau yn syth o gyllidebau sydd eisoes yn bodoli.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Safonau Iaith Gymraeg.

7.2 Un o elfennau allweddol Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn celfyddydau, chwaraeon a hamdden."

7.3 Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Iaith Gymraeg.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Ymgynghorwyd ag Aelod Arweiniol y Cabinet dros yr Iaith Gymraeg a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

8.1 Y prif risg yw enw da'r awdurdod gan ein bod eisoes wedi gwneud ymrwymiad yn y Strategaeth Iaith Gymraeg a thrwy'r Safonau Iaith Gymraeg I hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y gweithle ac mewn cymunedau.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23 Cyngor Sir Ddinbych

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Cynnwys

Cynnwys	2
Rhagair	3
Cyflwyniad	4
Crynodeb Gweithredol	6
Cefndir yr adroddiad	8
Materion sy'n codi yn ystod y cyfnod adrodd	8
Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd	8
Gweithlu dwyieithog	10
Safonau Iaith Gymraeg	19
Cydymffurfiaeth â'r safonau Cyflenwi Gwasanaeth	19
Cydymffurfiaeth â'r Safonau Gweithredu.....	20
Cydymffurfiaeth â'r Safonau Llunio Polisi.....	22
Cwynion	22
Sgiliau Cymraeg Cyflogeion.....	26
Gwersi Cymraeg	31
Recriwtio – Swyddi gwag a newydd.....	32
Cynnydd gyda fframwaith 'Mwy na Geiriau'	32
Diweddariad Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg	34

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn i chi. Gan fod Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu'r cynllun gweithio'n hyblyg ble mae staff â'r hawl i weithio mewn nifer o ddulliau gwahanol megis gweithio o gartref mae'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth wedi'i fireinio'n ofalus er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Enghraifft yw'r drefn sydd ar gyfer sicrhau bod cyfarfodydd sy'n cael eu gwe-ddarlledu gydag opsiwn i dderbyn cyfieithu o'r Gymraeg pan fydd cyfrannwr yn defnyddio'r Gymraeg. Mae'r Cyngor yn creu cyfleoedd i staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, wyneb yn wyneb ac yn rhithiol.

Bydd Strategaeth 5 mlynedd newydd y Cyngor yn caniatáu i'r staff a chwsmeriaid y Cyngor i gyfathrebu boed hynny yn rhithiol, ar lein neu wyneb yn wyneb yn eu dewis iaith. Gobaith y Strategaeth fydd annog rhagor o staff a chwsmeriaid i ddefnyddio'u gwybodaeth o'r Gymraeg, boed hi'n iaith o'r crud neu yn iaith newydd.

Mae gweithredu'r Safonau Iaith yn bwysig ac mae'n deg dweud bod unrhyw enghraifft o'r Cyngor yn methu â gweithredu un neu ragor o'r Safonau yn achos cyfiawn dros sicrhau nad yw'r diffyg hwn yn cael ei ail-adrodd. Yn yr adroddiad hwn, fe welir enghreifftiau o'r camau gweithredu cadarnhaol a gymerwyd gan y Cyngor wrth ymdrin â dau achos allan o dri a ddygwyd i sylw'r Cyngor yn ystod y flwyddyn 2022-23.



Cynghorydd Emrys Wynne

Aelod arweiniol dros y Gymraeg, Treftadaeth a Diwylliant

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Cyflwyniad

Mae'n ofynnol ar y Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg, a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn amlinellu'r gwaith a wnaed i gydymffurfio â gofynion y Safonau rhwng Ebrill y 1af a Mawrth 31ain. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ein hwythfed flwyddyn o weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo'n llwyr i ymateb yn bositif i'r Safonau Iaith ac mae hyn wedi cael ei adlewyrchu ein Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-22 yn ogystal â'n Strategaeth Iaith ddiwygiedig am y 5 mlynedd nesaf fydd yn cael ei chyhoeddi o fewn y misoedd nesaf. Rydym yn hollol ymrwymedig at chwarae ein rhan tuag at yr ymdrechion cenedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. [Gweld rhestr lawn o'r Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy.](#)

Rydym bellach yn gweithredu'r cynllun gweithio'n hyblyg ble mae staff â'r hawl i weithio mewn nifer o ddulliau gwahanol megis: -

- **Wrth Ddesg:** ar gyfer y rheiny sydd yn bennaf yn gweithio yn y swyddfa ac wrth yr un ddesg;
- **Symudol/Hyblyg:** ar gyfer y rheiny sy'n gorfod treulio rhywfaint o amser y tu allan i'r swyddfa;
- **Ar y cyd:** gweithiwr hyblyg neu weithiwr swyddfa sy'n gorfod gweithio o swyddfa sefydliad arall
- **Cartref:** ar gyfer y rheiny sydd fwyaf tebygol o weithio gartref.

Cafodd y trosglwyddo o weithio mewn swyddfeydd i weithio o gartref dros y bedair mlynedd ddiwethaf ei lyfnhau'n sylweddol gan y defnydd o dechnoleg gwybodaeth ac rydym yn parhau i ddefnyddio'r cyfrwng hwn wrth weithredu'r cynllun gweithio'n hyblyg er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r mwyafrif o'n gweithgareddau wedi dychwelyd i fod wyneb yn wyneb ac mae ymdrechion mawr wedi'u gwneud yn ogystal i greu cyfleoedd i staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, wyneb yn wyneb ac yn rhithiol.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai'r Cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Gymraeg, gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

Pwrpas y Safonau yw:

- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr iaith Gymraeg
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y medrant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

o dan y penawdau:

- Cynllunio Gwasanaethau
- Llunio Polisiâu
- Hybu
- Cadw Cofnodion.

Rydym yn parhau i gefnogi'r gweithlu wrth weithredu'r Safonau Iaith yn fwy nag erioed ag ein targed yw dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Caiff hyn ei wneud trwy hyrwyddo cyrsiau Cymraeg iddynt ddechrau ar eu taith iaith, neu gyrsiau hyder a gweithgareddau mewnol iddynt ddatblygu a meithrin eu sgiliau.

Roedd prif sylw'r Cyngor yn 2022/23 ar adolygu'n Strategaeth bresenol i greu Strategaeth 5 mlynedd newydd ar gyfer Sir Ddinbych trwy gydweithio â gwasanaethau'r Cyngor a Fforwm Iaith Sir Ddinbych. Mae'r Strategaeth wedi ei datblygu o amgylch y weledigaeth o sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn iaith ffyniannus sy'n esblygu o fewn cymunedau Sir Ddinbych, yn ogystal ag o fewn ein sefydliad. Ei phwrpas yw esbonio sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, annog mwy o ddefnydd o'r iaith ac, yn y pen draw, gweld mwy o siaradwyr erbyn 2028.

Rydym wedi creu ein gweledigaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.

- Mae'r Cynllun Corfforaethol 2022-27 yn gwneud ymrwymiad cadarn i sicrhau fod y Gymraeg yn iaith ffynianus ac sy'n esblygu.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

- Sir ddwyieithog gan fwyaf yw Sir Ddinbych gyda threftadaeth a diwylliant cyfoethog. Rydym yn falch o hyn ac am i'r balchder hwnnw gael ei adlewyrchu yn ein gwaith dyddiol gyda chymunedau, gyda thrigolion a gyda'n staff.
- Rydym wedi ymrwmo i sicrhau fod egwyddorion y Safonau Iaith yn sail i'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd; rydym am i bobl allu cael mynediad at wasanaethau drwy eu dewis iaith naturiol, ar bob cam o'u bywydau.
- Rydym am ychwanegu at ddiwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad, gan ddarparu cyfleoedd hyfforddi a chymdeithasol i'n staff i weithio yn y Gymraeg ac i gynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.
- Rydym am weithio gyda phartneriaid a'r gymuned ehangach i sicrhau fod y Gymraeg yn iaith ffyniannus yn Sir Ddinbych.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Cyngor wedi parhau i ymateb yn gadarnhaol i'r Fframwaith 'Mwy Na Geiriau' a Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg (rhoddir diweddariad ar y gwaith hwn nes ymlaen yn y ddogfen hon).

Crynodeb Gweithredol

Mae'r Cyngor yn bartner gweithgar o'r Bartner iaith sy'n cael ei arwain gan Fenter Iaith Sir Ddinbych. Mae'r Fforwm yn cynnwys nifer o sefydliadau, lleol a chenedlaethol, sy'n gweithio tuag at hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn strategol yn Sir Ddinbych.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hyd at 2032 Sir Ddinbych yn cynnwys gwybodaeth am uniad y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol gyda Fforwm Iaith y Sir. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ymdrechion swyddogion y Fforwm Iaith wedi bod ar gyfuno'r Fforwm a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg gan ddilyn modelau llwyddiannus eraill.

Golyga hyn fod pob cyfarfod yn cael ei rannu'n ddwy ran gydag un rhan yn benodol i Addysg a'r llall yn benodol ar gyfer y Fforwm Iaith. Bydd isafswm o 3 cyfarfod yn ystod pob blwyddyn a bwriedir cael Cadeirydd annibynnol. Prif fanteision y strwythur hyn yw sicrhau

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

bod cyfeiriad strategol clir, lleihau dyblygiad gweithgareddau a chynyddu'r cyfle i randdeiliad gydweithio â'i gilydd.

Rydym wedi creu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Menter Iaith Sir Ddinbych gan eu bod yn derbyn cyllid grant blynyddol gennym. Am hynny, mae'r Fenter yn cefnogi'r Cyngor yn ei ymdrechion i hyrwyddo a gwella'r Gymraeg yn Sir Ddinbych trwy ddarparu cefnogaeth ewylllys da yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys:-

- Ymarfer siopwr cudd ac adroddiad canlyniadau blynyddol yn ogystal â chanlyniadau'r ffynhonnell data cynradd a fyddai o gymorth i'r Cyngor.
- Cynnal prosiectau penodol a nodwyd ac y cytunwyd arnynt i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau ac ysgolion Sir Ddinbych.
- Mynychu cyfarfodydd is-grwpiau'r Bartneriaeth Strategol Addysg ac yn cyfrannu at y blaenoriaethau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Strategaeth Iaith Gymraeg.

Mae gan bob Gwasanaeth yn y Cyngor Bencampwr y Gymraeg gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal bob tri mis i fonitro cynnydd gyda'r Safonau ynghyd â rhannu arferion da a gweithredu fel cyfaill beirniadol. Mae gennym 2 bencampwr ar gyfer pob gwasanaeth. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth trylwyr o anghenion y Safonau a'r strategaeth gysylltiedig yn ogystal â chynnal ymarferion siopwr cudd. Mae sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau iaith yn heriol iawn o ganlyniad i'r mwyafrif yn parhau i weithio gartref ac felly roedd sicrhau 2 aelod o staff ar gyfer pob gwasanaeth yn hanfodol i fonitro'r sefyllfa.

Gwnaed llawer iawn o waith cyfathrebu mewnol i'r Cyngor eto yn ystod 2022-23 gan barhau i atgyfnerthu'r safonau iaith trwy rannu rhestr wirio wrth ohebu, trefnu cyfarfodydd ac ateb y ffôn. Rydym hefyd wedi bod yn rhannu rhestrau geirfa â'r staff gyda seineg i gynorthwyo dysgwyr Cymaeg. Mae'r eirfa wedi bod ar ffurff dogfennau a fideos er mwyn i staff ddod i arfer â sain geiriau a sut i'w ynganu. Rydym wedi bod yn defnyddio diwrnodau cenedlaethol fel pwynt ffocws megis Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gwyl Dewi, Dydd Mawrth Crempog, Dydd Miwsig Cymru, Sul y Mamau, Shwmae Su'mae ac ati.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Cefndir yr adroddiad

Mae llunio adroddiad blynyddol yn rhan o waith sefydliad o hunanreoleiddio. [Gweld y dogfennau sydd gennym yn nodi trefniadau'r sefydliad ar gyfer cydymffurfio â'r safonau, datganiad yr iaith Gymraeg a Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022.](#)

Gorweddai cyfrifoldeb strategol am yr iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych gyda Thîm Gweithredol Corfforaethol y Cyngor. Y Cyfarwyddwr Arweiniol yw Gary Williams, a'r Aelod Arweiniol gwleidyddol yw'r Cynghorydd Emrys Wynne a oedd yn gyfrifol am yr iaith Gymraeg, Treftadaeth a Diwylliant dros gyfnod yr adroddiad hwn. Manon Celyn, Swyddog Iaith Gymraeg y cyngor oedd yn gyfrifol am y gwaith o ymdrin yn weithredol â materion y Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac os hoffech drafod yr adroddiad dylech gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog trwy anfon e-bost at manon.celyn@sirddinbych.gov.uk.

Materion sy'n codi yn ystod y cyfnod adrodd

Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd

Gwelir isod fanylion am nifer / canran y staff sydd wedi cael hyfforddiant yn Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol a nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ystod 2022-23.

Atodiad 1 - Ymwybyddiaeth iaith (yn cynnwys ysgolion)

Statws	%
wedi'i gwblhau	74
heb ei gwblhau	26

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Atodiad 2 - Amrywiol gyrsiau a gynhaliwyd/gwblhawyd yn y Gymraeg

Manylion	Nifer wnaeth fynychu/gwblhau'r cwrs
Diogelu Data	5
Troseddau Casineb	3
Ymwybyddiaeth o ofalwyr	2
Cyfarfodydd 1 i 1	3
Cyflwyniad i Newid Hinsawdd	3
Llunio Rhestr Fer	1
Presenoldeb yn y gwaith	1
Cydraddoldeb	1
Presenoldeb yn y gwaith	1
Sefydlu gweithiwr newydd	1
Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrair rhywiol	2

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Manylion	Nifer wnaeth fynychu/gwblhau'r cwrs
Cysgliad	20
Cyfanswm	45

Trefniadau goruchwyllo/gwirio

Mae llwyddo i sicrhau dau Bencampwr y Gymraeg o fewn pob gwasanaeth yn rhoi'r cyfle i'r gwasanaethau dderbyn cymorth i wirio dogfennau wrth hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, ac mae'r un gefnogaeth yn cael ei rhoi gan y Swyddog Iaith Gymraeg a siaradwyr Cymraeg rhugl o fewn y timau.

Gweithlu dwyieithog

Rydym wedi bod yn gwneud llawer o waith allweddol i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac allanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau bod y Safonau Iaith yn cael eu cyflwyno. Dyma rhai o'r prosiectau hynny:

Paned a Sgwrs

Mae'r sesiynau Paned a Sgwrs yn bodoli ers dros bum mlynedd bellach. Sesiynau wyneb yn wyneb odd rhain cyn covid, gan symud i fod ar-lein yn ystod y pandemig, ac yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol gan fod nifer o staff yn parhau i weithio o gartref yn unol â'r cynllun gweithio'n hyblyg. Mae cyfanswm o 22 aelod o staff yn mynychu'r sesiynau, ond mae'r nifer yn amrywio ym mhob sesiwn. Mae cael sgwrs sydyn dros baned o goffi yn helpu pobl wella eu sgiliau cymdeithasol, ffurfio perthynas a gwella eu lles meddyliol a chorfforol. Byddwn yn cyfarfod unwaith yr wythnos am 9yb i drafod pynciau gwahanol i annog staff i ddefnyddio a meithrin sgiliau eu Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Dydd Owain Glyndŵr

Rhannwyd fideo a wnaethom greu i ddangos cysylltiadau Glyndŵr â Sir Ddinbych a lleoedd arwyddocaol o fewn y Sir yn ymwneud â'i hanes. Mae'r lleoedd hyn yn cynnwys Glyndyfrdwy ble'r oedd un o ddau brif lys Glyndŵr yn ogystal â'r ffaith mai o amgylch yr ystadau yma y cymrodd Glyndŵr ei enw; Mwnt yn Llidiart-y-Parc ger Glyndyfrdwy ble cafodd ei gyhoeddi'n dywysog Cymru; Bryn Saith Marchog ble gafodd ffræe gyda Syr Reginald Grey (Arglwydd Dyffryn Clwyd yn Rhuthun) yn ymwneud â thir cyffredin a ddatblygodd i fod yn wrthryfel dros annibyniaeth i Gymru; Rhuthun ble cafodd y dref ei llosgi i'r llawr heblaw am y castell; ymosodwyd hefyd ar Ddinbych a Rhuddlan, ac mae plac ar hen adeilad Natwest yn Rhuthun a gafodd ei ddadorchuddio gan Dafydd Iwan yn 2000 er mwyn nodi 600 mlynedd Glyndŵr. Cawsom adborth gadarnhaol iawn gan staff a llawer yn nodi nad oeddent yn ymwybodol mor arwyddocaol oedd Sir Ddinbych yn hanes Glyndŵr. Mae'r fideo wedi'i gwyllo bron i 2,000 o weithiau. [Gwylwch fideo Owain Glyndŵr ar youtube yma.](#)

Ymgyrch 'Mae gen i hawl'

Ymgyrch genedlaethol yw hon i ddathlu'r gwasanaethau Cymraeg mae Awdurdodau Lleol yn eu cynnig, a'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â nhw. Roedd yn gyfle i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn Sir Ddinbych ac i geisio cynyddu'r nifer oedd yn dewis eu defnyddio. Mae'r ymgyrch farchnata yn sôn am rai o'r hawliau sydd gan y cyhoedd yn ogystal â staff y Cyngor.

Dydd Santes Dwynwen

Crëwyd cwis am hanes Santes Dwynwen fel rhan o dathliadau. Fe'i rhannwyd yn fewnol ac yn allanol ar ein cyfryngau cymdeithasol. Fe wnaethon hefyd greu dogfen o [eirfa Cymraeg perthnasol](#) a seineg i helpu dysgwyr Cymraeg.

Diwrnod Shwmae Sumae

Unwaith eto eleni roeddem yn rhan o dathliadau diwrnod Shwmae Sumae ar y 15fed o Hydref. Bwriad y diwrnod yw hyrwyddo'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda 'Shwmae' neu 'Su'mae' gyda'r nod i ddangos bod y Gymraeg yn perthyn i bawb – siaradwyr rhugl,

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

dysgwyr neu os ydych yn swil am eich Cymraeg. Fe wnaethom rannu ambell neges ar ein cyfrifon cymdeithasol yn ogystal â rhannu'r fideo gafodd ei chreu gennym o fascot y ddraig goch (Dewi Draig) yn cael ei ffilmio yn ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg y Cyngor. Pasiodd y ddraig bêl rygbi i aelodau eraill o staff ar ôl dweud "shwmae" neu "sumae", yna gwnaeth yr aelodau staff hynny yr un peth. Y syniad y tu ôl i hyn oedd mai'r Gymraeg oedd y bêl rygbi a'n bod yn pasio'r iaith ymlaen. [Gwylwch fideo diwrnod Shwmae Sumae 2020 ar youtube yma.](#)

Dydd Miwsig Cymru

Crëwyd rhestr chwarae o ganeuon Cymraeg i'w rhannu gyda staff a'u hannog i chwarae'r rhestr chwarae gartref, yn y gwaith neu wrth deithio yn y car.

Dydd Gŵyl Dewi

Fe wnaethom rannu gwybodaeth ar ein cyfryngau cymdeithasol am hanes Dewi Sant, [geirfa Cymraeg perthnasol](#) a seineg i helpu dysgwyr Cymraeg yn ogystal â chreu cwis am Dewi Sant gyda gwobr o gacennau cri a phot blodyn cennin pedr i'r enillydd.

Pwyllgor Llywio'r Gymraeg

Mae'r pwyllgor wedi bod yn parhau i gyfarfod ar-lein ac wedi bod yn gwahodd rhai o'n partneriaid i roi cyflwyniad yn y cyfarfodydd ar eu gwaith o fewn y sir. Rydym hefyd wedi bod yn gwahodd aelodau o staff sy'n dysgu Cymraeg i siarad am eu taith iaith a sut mae'r Gymraeg o fantais iddynt o fewn eu swydd a'u bywyd bob dydd.

Rhai o'r pethau eraill yr ydym wedi bod yn eu trafod yw Strategaeth Iaith Gymraeg, Polisi'r Gymraeg, Polisi Dyfarnu Grantiau, Safonau'r Iaith Gymraeg a gweithgareddau Cymraeg sirol a chenedlaethol. Mae'r aelodau wedi newid ar ol yr etholiad.

Logo Iaith Gwaith/Brawddeg ar waelod e-bost

Mae staff sy'n medru'r Gymraeg yn cynnwys logo ar waelod eu llofnod e-bost i adael i gwsmeriaid a chydweithwyr wybod eu bod yn medru'r Gymraeg. Yn yr un modd, rydym wedi datblygu logo ar gyfer dysgwyr sy'n nodi 'Dw i'n dysgu Cymraeg'. Mae nifer fawr o ddysgwyr wedi cynnwys y logo hwn ar waelod eu llofnod e-bost.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Hyrwyddo Safonau'r iaith Gymraeg

Rydym yn parhau i rannu'r dogfennau a grëwyd i hyrwyddo safonau'r iaith Gymraeg i'w rhannu ar dudalen facebook staff y cyngor, ein newyddlen ddyddiol, mewn rwyd a'n system visiontime. Rhestr wirio i staff ydyw i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau gan ddilyn y canllawiau a roddwyd. Mae'r templedi yn cynnwys ateb y ffôn yn ddwyieithog, trefnu cyfarfodydd a gohebu.

Fideos i hyrwyddo'r Gymraeg

Rydym wedi hyrwyddo llawer o fideos sydd wedi'u creu gennym dros y flwyddyn ddiwethaf megis fideo yn ynganu geirfa a [brawddegau Cymraeg defnyddiol ar gyfer cyfarfodydd](#) a [sut i ynganu enwau rhai o drefi a phentrefi Sir Ddinbych](#). Mae'r fideos i gyd yn cael eu rhannu'n fewnol ac allanol ar ein tudalen facebook corfforaethol ac wedi cael eu rhannu sawl gwaith gan y cyhoedd.

Polisi Iaith Gymraeg

Rydym wedi creu [Polisi'r Gymraeg](#) newydd (safon 98) sy'n egluro sut y byddwn yn gweithredu'n unol â gofynion y safonau. Mae'n dilyn yr egwyddor bod gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal yn ein gwaith a'n gweinyddiaeth. Mae hefyd yn cydnabod ein cyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu'r defnydd o'r iaith yn allanol ac o fewn y Cyngor gan egluro wrth staff sut i gydymffurfio'n llawn â phob safon.

Polisi Dyfarnu Grantiau

Rydym wedi datblygu [Polisi ar ddyfarnu grantiau](#) yn unol â Safon 94 er mwyn rhoi cymorth i swyddogion i gydymffurfio â'r safonau wrth gyhoeddi grantiau ar ran Cyngor Sir Ddinbych. Nod y polisi yma yw cynorthwyo swyddogion i sicrhau bod yr ystyriaethau uchod yn elfen integredig o'r broses grantiau yng Nghyngor Sir Ddinbych, yn ogystal â sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau (gan gynnwys y Cyngor Llawn / yr Adain Weithredol (Cabinet) / ac Uwch Swyddogion trwy benderfyniadau dirprwyedig) yn ymwybodol o'u dyletswyddau wrth ddod i benderfyniadau.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Newyddlen ddyddiol a negeseuon e-bost

Yn dilyn cyhoeddi ein Polisi gweithredu'r Gymraeg yn fewnol newydd, rydym wedi gwneud ein newyddlen ddyddiol i staff, 'Heddiw yn Sir Ddinych / Denbighshire Today', yn ddwyieithog yn ogystal ag unrhyw negeseuon e-bost/system sy'n mynd allan i bob un aelod o staff e.e negeseuon larymau tân, negesuon TGCh ayb. Mae hyn yn rhan o'n hymdrechion i geisio symud i fod yn gyngor sy'n gweinyddu'n ddwyieithog yn y dyfodol.

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych

Dychwelydd Eisteddfod yr Urdd i Sir Ddinbych Mai 2022 ar Fferm Kilford ar gyrion Dinbych. Dechreuwyd ar y paratoadau yn 2018, ond o ganlyniad i'r pandemig cafodd yr Eisteddfod ei gohurio 2 waith. Cyngor Sir Ddinbych oedd un o brif noddwyr Eisteddfod yr Urdd a gwnaethom hefyd noddi'r ddwy sioe – sioe gynradd 'Ni yw y byd' a'r sioe uwchradd 'Fi di Fi'. Roedd gennym babell fawr ar faes yr Eisteddfod o dan y thema 'Darganfod Sir Ddinbych'. Roedd sawl adran gwahanol o fewn y babell: -

Theatr - Ar gyfer ysgolion i ymarfer cyn mynd ar y llwyfan gan nad oedd rhagbrofion yn yr Eisteddfod eleni. Roedd yr Urdd hefyd yn cynnal eu derbyniadau yno bob prynhawn o ddydd Llun i ddydd Iau; sesiwn stori gan Fiona Collins ar ddydd Mawrth a Sadwrn; darlleniadau cerddi gan Hywel Griffith a Sian; disgo distaw gyda cwrdd a chyfarch ein masgot, Dewi Draig; adloniant gan Ensemble Dyffryn Clwyd a llawer mwy.

Busnes / Twristiaeth – Yma roedd cyfle i fusnesau'r sir hyrwyddo eu cynnyrch/busnes megis One Planet, Carchar Rhuthun a Nantclwyd y Dre, teithiau cerdded o fewn y sir, gwasanaethau ieuencid hefo gweithgaredd corfforol a llawer mwy.

Celf a chrefft – Roedd artist preswyl, Mari Gwent, yn cynnal gweithdy celf a chrefft trwy'r wythnos gan ddefnyddio deunyddiau naturiol o'r sir. Roedd darn o waith mawr yn cael ei adeiladu ar hyd yr wythnos yn ogystal â chyfle i'r plant greu brwsh paent naturiol i fynd adre gyda nhw.

Cefn gwlad – Roedd traciau beic y tu allan yng nghefn ein pabell, dŵl blodau gwyllt yn y blaen yn ogystal â phwll tywod i'r plant gael chwarae.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Roedd hi'n Eisteddfod hynod o lwyddiannus gyda chynnwrf a bwrlwm mawr ar y maes ac o fewn y sir ehangach trwy gydol yr wythnos.

Arolygon cydymffurfiaeth Gwasanaethau

Rydym wedi creu ffurflen Mesur Perfformiad Gwasanaethau a'i hanfon at yr uwch reolwyr i'w chwblhau ar ran eu hadran. Pwrpas y ffurflen yw i weld os ydym yn parhau i gydymffurfio'n llawn â'r safonau iaith, neu a oes angen mwy o gymorth ar rai gwasanaethau er mwyn bodloni gofynion y safonau.

Ystadegau defnydd gwefan

Gwefan	Nifer o ymweliadau	Nifer yr ymwelwyr
www.sirddinbych.gov.uk	15,836	6,196
www.denbighshire.gov.uk	889,757	329,020
Cyfanswm	905,593	335,216

Strategaeth Iaith Gymraeg

Dros y 2 flynedd ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio ar adolygu ein Strategaeth iaith bresenol ar gyfer y bum mlynedd nesaf (2023-28). Mae hi dros bum mlynedd ers i'r fersiwn gyfredol gael ei chymeradwyo, ac yn ystod y cyfnod yma mae nifer fawr o wellianau wedi'u cyflwyno i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yn fewnol ac o fewn y gymuned ehangach.

Rydym yn chwarae ein rhan i gyflawni miliwn o Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, drwy ddarparu'r Strategaeth Iaith Gymraeg gyda phartneriaid a chymunedau. Mae hyn yn cynnwys:

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

- Sicrhau fod pawb yn gallu cael mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn naturiol, ac ar bob cam o'u bywydau
- Cefnogi plant a theuluoedd yn ystod eu blynyddoedd cynnar i ddatblygu hyder o ran defnyddio'r Gymraeg
- Cefnogi'r defnydd ehangach o'r Gymraeg a dathlu'r diwylliant Cymreig yn y gymuned, gan gynnwys lleoliadau gwaith
- Datblygu diwylliant ac ethos sy'n annog defnydd dyddiol o'r Gymraeg gan aelodau etholedig a staff y cyngor, a darparu hyfforddiant a chyfleoedd cymdeithasol i wella eu hyder yn defnyddio'r Gymraeg
- Datblygu'r gwasanaethau sydd ar gael yn y Ganolfan Gymraeg yn Llanelwy er lles y gymuned ehangach.

Comisiynwyd y Ganolfan Cynllunio Iaith (iaith.cyf) i ysgrifennu adroddiad llwyddaint ar ein Strategaeth bresenol yn unol â Safon 146 a cafwyd adroddiad cyflawn gydag argymhellion defnyddiol ar gyfer y Strategaeth nesaf.

Rydym wedi bod yn cydweithio'n agos gydag adrannau gwahanol o fewn y Cyngor yn ogystal â'r Fforwm Iaith Sirol er mwyn sicrhau fod y Strategaeth yn uchelgeisiol yn unol ac argymhellion y Ganolfan Cynllunio Iaith. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad yr un amser â'n Strategaeth Iaith o fewn y misoedd nesaf.

Gweithgareddau Cymraeg Llyfrgelloedd Sir Ddinbych

Dechrau Da Sir Ddinbych

Ehangwyd darpariaeth Dechrau Da ymhellach eleni i gynnig rhagor o sesiynnau mewn llyfrgelloedd. Bu 12,185 presenoldeb mewn Amser Rhigwm dros y flwyddyn – mae pob sesiwn yn naturiol ddwyieithog ac yn cyflwyno caneuon a rhigymau Cymraeg i deuluoedd.

Mae'r ddarpariaeth yn greiddiol i strategaeth cyn-ysgol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor Sir, yn aml yn cynnig y cyswllt cyntaf un gyda'r Gymraeg i deuluoedd gyda babis ifanc. Mewn arolwg mynegodd 49% o'r rhieni eu bod yn teimlo yn fwy hyderus yn y Gymraeg o ganlyniad i fynychu Amser Rhigwm Dechrau Da gyda'u plant bach.

Grwpiau Darllen Cymraeg

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Mae grwpiau Sgwrs a Sangria (Llyfrgell Dinbych), Llyfr a Llymed (Llyfrgell Rhuthun), Cylch Darllen Rhuthun (Llyfrgell Rhuthun), a Cylch Darllen Glyndwr (Llyfrgell Corwen) wedi dychwelyd i gyfarfod yn y llyfrgelloedd, a sefydlwyd grwp darllen Cymraeg newydd yn Llyfrgell Llangollen.

Grwp Sgwrsio

Mae'r grwp sgwrsio anffurfiol yn Llyfrgell y Rhyl i annog pobl i ddefnyddio eu Cymraeg a chael sgwrs dros baned.

Sialens Ddarllen Haf 2022: Teclynwyr

Gwelwyd cynnydd yn y nifer o blant gymerodd ran yn y Sialens ddwyieithog, cyfanswm o 2077 o blant. Benthycwyd bron 5,000 o lyfrau Cymraeg yn ystod y Sialens. Roedd gwefan Gymraeg ar gael i gefnogi'r sialens unwaith eto eleni (ariannwyd gan Lywodraeth Cymru) er mwyn i blant hefyd gymryd rhan yn rhithiol. Fel atodiad i'r Sialens cynhaliwyd rhaglen o weithgareddau ar y thema technoleg creadigol trwy gyllido Haf o Hwyl Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gweithdai dwyieithog gyda Xplore ac Eleni.

Cylchoedd Ti a Fi / Clwb Cwtsh / Cymraeg i Blant

Eleni gwelwyd dau Gylch Ti a Fi (Mudiad Meithrin) yn cychwyn mewn llyfrgelloedd – yn Llyfrgell y Rhyl ac yn Llyfrgell Rhuddlan. Yn ogystal darparwyd cwrs Clwb Cwtsh yn Llyfrgell Rhuddlan a sesiynnau Cymraeg i Blant yn Llyfrgell Llanelwy i gefnogi rhieni a gofalwyr i ddechrau'r daith gyda'r Gymraeg.

Digwyddiadau awduron

Fis Tachwedd bu Gwyl Ffuglen gyda rhaglen o sgysiau gan awduron gan gynnwys Elen Wyn yn Llyfrgell Dinbych a John Alwyn Griffiths yn Llyfrgell Rhuthun i roi cyfle i ddarllenwyr gyfarfod â'r awduron a'u holi am eu llyfrau. Fel cyfraniad at raglen Gwyl Rhuthun trefnwyd noswaith yng nghwmni'r awdur Rebecca Roberts yn Llyfrgell Rhuthun.

Eisteddfod yr Urdd 2022

Crewyd arddangosfa o lyfrau, lluniau a deunydd archifol mewn sawl llyfrgell i hyrwyddo ymweliad Eisteddfod yr Urdd i'r Sir ym Mai 2022. Cynhaliwyd y seremoni i gyflwyno Cadair

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

y Choron yr Eisteddfod yn Llyfrgell Dinbych ddechrau Mai. Bu nifer o aelodau o staff y gwasanaeth hefyd yn gweithio ym mhabell y Cyngor ar y Maes, ac fe ddarparwyd bore o Amser Rhigwm hynod o boblogaidd gan ein Tîm Dechrau Da ddenodd dwsinau o deuluoedd i'r Eisteddfod na fyddent wedi meddwl mynychu oni bai am yr Amser Rhigwm.

Benthyciadau llyfrau Cymraeg

Benthycwyd 19,521 o eitemau Cymraeg (llyfrau, llyfrau llafar a DVDs) yn ystod 22-23, cynnydd o 29% ar y flwyddyn flaenorol wrth i fenthycwyr ddychwelyd wedi'r cyfnod clo. Roedd dros 71% o rhain yn lyfrau plant ac yn dangos fod llyfrgelloedd lleol yn cyfrannu'n sylweddol at nod y Cyngor i gynyddu'r nifer o blant sy'n defnyddio'r iaith ac yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Gyda dim ond dwy siop lyfrau Cymraeg yn y sir, mae'r llyfrgell leol yn ffynhonnell arwyddocaol o lyfrau Cymraeg yn y gymuned ar gyfer plant ac oedolion.

Llyfrgell Ddigidol Cymru

Mewn partneriaeth gyda phob gwasanaeth llyfrgell arall yng Nghymru, y Llyfrgell Genedlaethol, Cyngor Llyfrau Cymru a Llywodraeth Cymru, darperir ystod o adnoddau darllen digidol (elyfrau, elyfrau llafar, cylchgronnau) i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim gan aelodau llyfrgell.

Pori

Mae'r ap ddwyieithog PORI yn cynnig mynediad i aelodau i'w cyfrif benthycia i reoli eu benthyciadau a cheisiadau, ac i gatalog y llyfrgell i osod ceisiadau. Mae hefyd yn cynnwys moddi sganio côd bar unrhyw lyfr i weld os oes copi i'w fenthyg o'u llyfrgell leol.

Cyfrifiaduron ac argraffu cyhoeddus

Gosodwyd system reoli newydd ar gyfer cyfrifiaduron cyhoeddus mewn llyfrgelloedd gyda gwefan ddwyieithog am y tro cyntaf ar gyfer archebu ac ar gyfer danfon dogfennau i'w hargraffu dros y we.

Gwasanaeth Cymraeg

Mae 65% o staff y gwasanaeth yn siarad Cymraeg ac mae gwasanaeth Cymraeg ar gael ym mhob llyfrgell. Rhoddir cefnogaeth i staff ddysgu a datblygu eu sgiliau iaith.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Cynllunio'r Gweithlu

Mae disgwyl i bob gwasanaeth greu dogfen Cynllunio'r Gweithlu ac mae disgwyl i'r gwasanaethau gysidro os oes ganddynt ddigon o siaradwyr Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth gwbl ddwyieithog. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael eu herio gan yr Uwch Dim Rheoli a chynghorwyr parthed cydymffurfiaeth gyda'r Safonau Iaith.

Safonau Iaith Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg yn disgwyl i'r Cyngor adrodd, yn ei adroddiad monitro blynyddol, ar nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol. Rhoddir crynodeb o'r wybodaeth isod.

Cydymffurfiaeth â'r safonau Cyflenwi Gwasanaeth

- Rydym wedi cyfathrebu gyda staff ar ymateb i ohebiaeth, trefnu cyfarfodydd, cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost ac ateb y ffôn.
- Rydym wedi atgoffa staff i gyd yn rheolaidd iddynt roi cyfle i bobl gael eu trosglwyddo at siaradwr Cymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor.
- Rydym wedi darparu geiriad i staff i'w cynnwys mewn templedi llythyrau, gan roi cyfle i breswylwyr ofyn am ohebiaeth drwy'r Gymraeg yn y dyfodol.
- Rydym wedi cynnwys neges yn neges wedi'i recordio'r Ganolfan Gyswllt yn dweud bod llinell Iaith Gymraeg ar gael.
- Rydym yn cofnodi os yw unigolyn yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthym yn y Gymraeg yn unig, a byddwn yn gohebu â'r unigolyn hwnnw yn y Gymraeg yn unig yn y dyfodol.
- Rydym wedi rhoi gwybod i staff sy'n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus bod yn rhaid i gyhoeddusrwydd / gwahoddiadau fod yn Gymraeg bob tro, y dylid trefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer pob cyfarfod cyhoeddus ac y dylai trefnwyr cyfarfodydd cyhoeddus atgoffa pobl ar ddechrau cyfarfodydd y medrant gyfrannu yn Gymraeg pe dymunir.
- Mae'r holl ddogfennau ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys deunyddiau hyrwyddo a dogfennau arddangosfa.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

- Rydym wedi cynnwys y datganiad ar ein templedi ffurflenni a dogfennau Cymraeg/Saesneg fod y ffurflen/ddogfen ar gael yn Gymraeg/Saesneg hefyd.
- Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen o'n gwefan yn ddwyieithog.
- Ymatebwn yn Gymraeg i bob ffurflen grant a dderbyniwn yn Gymraeg.
- Rydym wedi gwneud ymgyrch hyrwyddo i farchnata cyfrifon cymdeithasol y Cyngor yn Gymraeg.
- Mae arwyddion wedi cael eu gosod mewn prif dderbynfeydd i ddatgan bod croeso i bobl gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae ein holl arwyddion yn Gymraeg ac yn cael eu gwirio.
- Rydym wedi ychwanegu canllawiau pellach a chliriach ar ein gwefan ar sut i wneud cwyn am y Gymraeg

Cydymffurfiaeth â'r Safonau Gweithredu

- Rydym wedi cyflwyno proses Adnoddau Dynol yn gofyn i'r holl staff a ydynt am dderbyn eu contract cyflogaeth yn Gymraeg.
- Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi bod yn anfon negeseuon rheolaidd i'w Gwasanaeth am gyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn ogystal â'r gofyniad i gwblhau'r modiwl e-ddysgu gorfodol ar Ymwybyddiaeth y Gymraeg.
- Rydym wedi cynnwys tabl yn ein ffurflenni cais am swyddi sy'n holi beth yw lefel sgiliau iaith Gymraeg yr ymgeisydd
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn gohebiaeth bapur am eu cyflogaeth, ac sy'n cyfeirio atynt yn bersonol, yn Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn gohebiaeth bapur am eu hanghenion neu ofynion hyfforddiant yn Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn dogfennau sy'n disgrifio eu hamcanion perfformiad yn Gymraeg, a darparwn ddogfennau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn dogfennau sy'n disgrifio eu cynllun gyrfa yn Gymraeg, a darparwn ddogfennau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn ffurflenni sy'n cofnodi ac awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldeb o'r gwaith ac oriau hyblyg yn Gymraeg.
- Gall staff gyflwyno cwynion yn Gymraeg drwy weithdrefn cwynion corfforaethol gyda hyn wedi'i hysbysu i'r holl staff.
- Mae Gweithdrefn Cwynion Corfforaethol y Cyngor eisoes yn nodi bod gan staff hawl i wneud cwyn yn Gymraeg ac i ymateb i gŵyn a wneir amdanynt yn Gymraeg. Mae staff wedi eu hysbysu o'r hawliau hyn.
- Rhoddir cyfle i'r holl staff ofyn am unrhyw gyfarfod yn ymwneud â chwynion yn eu herbyn yn Gymraeg (gyda neu heb ddefnyddio cyfieithydd).
- Bydd cofnod o bob penderfyniad am gŵyn yn erbyn aelod o staff yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg (a chynhelir unrhyw gyfarfod wedyn yn Gymraeg).
- Mae ein polisïau Adnoddau Dynol yn nodi y gall staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn eu herbyn.
- Mae meddalwedd cyfrifiadurol gwirio sillafu a gramadeg wedi'i roi i'r holl staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg ynghyd â rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (fel Microsoft Word ac Outlook) yn Gymraeg.
- Rydym wedi cyfieithu testun tudalen gartref ein mewnwyd i'r Gymraeg.
- Mae bob tudalen ar y fewnwyd sydd â thudalen gyfatebol yn Gymraeg yn cynnwys dolen i'r dudalen iaith Gymraeg honno.
- Crëwyd tudalennau ar y fewnwyd yn darparu gwasanaethau a deunyddiau cymorth er mwyn hybu'r Gymraeg a chynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar y fewnwyd yn Gymraeg.
- Mae'r Cyngor wedi cyflawni asesiad o sgiliau iaith Gymraeg ei staff drwy hunanasesiad yn dilyn y Fframwaith newydd.
- Mae'r Cyngor yn hyrwyddo pob cyfle yn ystod oriau gwaith i staff fynychu cyrsiau iaith Gymraeg sylfaenol.
- Mae'r Cyngor yn rhoi cyfle i staff sydd am barhau â'u hyfforddiant iaith Gymraeg sylfaenol i dderbyn hyfforddiant pellach.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu modiwl e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth staff o'r iaith Gymraeg.
- Mae gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael ei rhoi i bob aelod newydd o staff.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

- Rydym wedi darparu logo iaith gwaith a geiriad i staff eu defnyddio yn eu llofnodion e-bost i hysbysu pobl os ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr.
- Rydym wedi creu dogfen hunanasesu newydd i fesur perfformiad gwasanaethau o ran Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae pob un adran o fewn y cyngor wedi cwblhau'r holiadur sy'n holi beth yw lefel eu cydymffurfiaeth â'r Safonau fel ein bod yn cael darlun cyflawn o'n cydymffurfiaeth ar draws y cyngor, bod yn ymwybodol o'r gwendidau/cryfderau a ble sydd angen atgyfnerthu'r safonau.

Cydymffurfiaeth â'r Safonau Llunio Polisi

- Rydym wedi hysbysu rheolwyr i ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn ei gael ar y cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Pan fydd polisi newydd yn cael ei lunio neu'i ddiwygio, rydym yn sicrhau bod yr holl reolwyr yn gwybod am yr angen i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar yr iaith Gymraeg.
- Rydym wedi creu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r iaith ac mae'r ddogfen hon wedi'i chyhoeddi ar ein mewnwyd.
- Rydym wedi creu Polisi ar ddyfarnu grantiau er mwyn cynorthwyo swyddogion i sicrhau bod yr ystyriaethau uchod yn elfen integredig o'r broses grantiau yng Nghyngor Sir Ddinbych.

Cwynion

Dosbarth o Safonau	Cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol
Cyflenwi gwasanaethau	1
Llunio polisi	0

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Dosbarth o Safonau	Cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol
Gweithredu	0

Dyddiad	Cwyn	Manylion	Camau a gymerwyd
Ebrill 2022	1. Achwynydd wedi derbyn e-byst a galwadau ffôn yn Saesneg gan swyddog cynllunio'r Cyngor.	Achwynydd wedi derbyn e-byst a galwadau ffôn yn Saesneg gan swyddog cynllunio'r Cyngor, a hynny er bod y swyddog cynllunio gwreiddiol wedi bod yn siaradwr Cymraeg, ac wedi gohebu yn Gymraeg gyda'r achwynydd.	<p>Mae'r Adran Gynllunio (gan gynnwys yn benodol y Tîm Rheoli Datblygu sy'n ymdrin â Cheisiadau Cynllunio ac Achosion Cydymffurfiaeth Cynllunio) wedi adolygu'n llawn eu prosesau ar gyfer ymdrin â gohebiaeth a gyflwynir yn Gymraeg.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys pob cais cynllunio, sylwadau arnynt a chyflwyno ffurflenni "Rhoi gwybod am achos o dorri rheolau cynllunio".</p> <p>Roedd yr adolygiad yn cynnwys y canlynol:-</p> <p>14/9/22 - Cyfarfod rhwng Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaeth Cefn Gwlad; Rheolwr Datblygu; Swyddog Iaith Gymraeg; Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol - adolygu llythyr Comisiynydd y Gymraeg (CYG) a thrafod yr holl Safonau Iaith Gymraeg perthnasol a chymau gweithredu arfaethedig.</p>

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Dyddiad	Cwyn	Manylion	Camau a gymerwyd
			<p>Yn dilyn ymlaen o'r uchod, rhaeadrwyd llythyr CYG a champau gweithredu pellach i'r Tîm Arwain Gwasanaeth, y Tîm Rheoli Datblygu (Rheolwyr) a darparwyd nodiadau atgoffa ym mhob cyfarfod un i un gyda staff yn y Tîm Rheoli Datblygu.</p> <p>24/10/22 - Defnyddiwyd yr achos CYG penodol a amlygodd y mater lle'r oedd gohebiaeth yn rhanol Saesneg ond yn bennaf yn Gymraeg fel astudiaeth achos yn ystod y Gynhadledd Achos Rheoli Datblygu.</p> <p>24/10/22 – Aeth y Gynhadledd Achos Rheoli Datblygu sydd wedi cael ei grybwyll uchod hefyd drwy'r modd y mae angen i staff yn y tîm cynllunio ganfod dewis iaith ar alwadau ffôn ac o fewn unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig. Dylid rhoi nodiadau ar unrhyw gofnodion cynllunio electronig a gedwir ar gyfer yr achos penodol hwnnw er mwyn sicrhau bod staff eraill sy'n delio â'r achos yn ymwybodol. Gellir defnyddio'r tab perthnasol o fewn y System EDRM i nodi hyn ac atgoffwyd staff o hyn.</p> <p>Mae'r cyngor wedi creu rhestr wirio ar gyfer staff i'w ddefnyddio pan maen't yn ateb y ffôn yn ogystal â rhannu negeseuon yn egluro</p>

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Dyddiad	Cwyn	Manylion	Camau a gymerwyd
			bod angen ymdrech rhagweithiol i ganfod dewis iaith unrhyw gwsmer sy'n galw rhif ffôn llinell uniongyrchol adrannau ac aelodau staff Cyngor.
	2. Oedi yn ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth	Honiad bod swyddog y Cyngor wedi dweud wrth yr achwynydd bod oedi yn ei gais Rhyddid Gwybodaeth gan fod y cais wedi ei wneud yn Gymraeg.	Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw'r Cyngor wedi methu cydymffurfio â'r safon felly nid oedd ymchwiliad pellach i'r honiad.
	3. Achwynydd yn derbyn e-byst Saesneg yn unig gan y Cyngor	Derbyniodd yr achwynydd e-byst Saesneg yn unig gan y Cyngor mewn ymateb i ebost Cymraeg.	Dros y 12 i 18 mis nesaf, bydd y Cyngor yn adolygu'r ffordd y mae ei systemau ar gyfer y cyhoedd yn cynhyrchu e-byst/ymatebion awtomatig. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn rheoli ac yn gweithredu nifer o systemau sy'n darparu'r gallu i gynhyrchu gohebiaeth awtomatig gyda'r cyhoedd. Rydym yn cydnabod nad yw rhai o'r systemau hyn yn anfon e-byst/ymatebion awtomatig dwyieithog trwy ddyluniad, ond yn hytrach yn anfon ymatebion e-bost awtomatig yn yr iaith a bennir gan ddewis y cwsmer o ran mynediad at ein gwasanaethau. Er enghraifft, bydd cwsmeriaid sydd ar hyn o bryd yn dewis cwblhau

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Dyddiad	Cwyn	Manylion	Camau a gymerwyd
			<p>trafodion ar-lein Cymraeg drwy ein gwefan yn derbyn cydnabyddiaeth awtomatig yn Gymraeg.</p> <p>Yn yr un modd, bydd cwsmeriaid sy'n dewis cwblhau trafodiad ar-lein Saesneg yn cael cydnabyddiaeth awtomatig yn Saesneg. Mae'r Cyngor yn gweithredu dau barth gwefan corfforaethol i gefnogi hyn: www.sirddinbych.gov.uk a www.denbighshire.gov.uk.</p>

Sgiliau Cymraeg Cyflogeion

Cyflwynir isod y wybodaeth sydd gan y Cyngor yn bresennol. Bwydir y wybodaeth yma'n ôl i'r gwasanaethau fel bo'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gallu cynllunio eu gweithluoedd.

Canlyniadau Corfforaethol yn unig (ac eithrio ysgolion)

Lefel	Gwrando a siarad		Darllen a deall		Ysgrifennu	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Lefel 0	288	12.09	353	14.82	556	23.34
Lefel 1	758	31.82	737	30.94	594	24.94
Lefel 2	243	10.20	193	8.10	199	8.36

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Lefel	Gwrando a siarad		Darllen a deall		Ysgrifennu	
Lefel 3	121	5.08	121	5.08	117	4.91
Lefel 4	132	5.54	147	6.17	87	3.65
Lefel 5	134	5.63	124	5.21	106	4.45
Dim gwybodaeth	706	29.64	707	29.68	723	30.35
Cyfanswm	2382	100	2382	100	2382	100

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Sgiliau Gwrando a Siarad fesul Gwasanaeth (ac eithrio ysgolion)

Gwasanaeth	Lefel 0		Lefel 1		Lefel 2		Lefel 3		Lefel 4		Lefel 5		Dim gwybodaeth	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd	73	3.06	169	7.09	46	1.93	28	1.18	26	1.09	21	0.88	183	7.68
Cymorth Corfforaethol - Pobl	9	0.38	40	1.68	12	0.50	6	0.25	12	0.50	13	0.55	27	1.13
Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau	16	0.67	47	1.97	23	0.96	11	0.46	8	0.34	9	0.38	22	0.92
Addysg a Phlant	31	1.30	92	3.86	35	1.47	17	0.71	18	0.76	27	1.13	126	5.29
Cyllid ac Archwilio	3	0.13	28	1.18	6	0.25	5	0.21	5	0.21	6	0.25	45	1.89
Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol	103	4.32	226	9.49	54	2.27	29	1.22	23	0.97	20	0.84	192	8.06
Tai a Chymunedau	22	0.92	78	3.27	33	1.39	14	0.59	24	1.01	20	0.84	38	1.60
Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad	31	1.30	78	3.27	34	1.43	11	0.46	16	0.67	18	0.76	73	3.06
Cyfanswm	288	12.09	758	31.82	243	10.20	121	5.08	132	5.54	134	5.63	706	29.64

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Sgiliau Darllen a Deall

Gwasanaeth	Lefel 0		Lefel 1		Lefel 2		Lefel 3		Lefel 4		Lefel 5		Dim gwybodaeth	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd	99	4.16	156	6.55	35	1.47	24	1.01	27	1.13	22	0.92	183	7.68
Cymorth Corfforaethol - Pobl	11	0.46	37	1.55	13	0.55	6	0.25	11	0.46	14	0.59	27	1.13
Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau	15	0.63	54	2.27	16	0.67	9	0.38	10	0.42	9	0.38	23	0.97
Addysg a Phlant	36	1.51	93	3.90	26	1.09	18	0.76	25	1.05	22	0.92	126	5.29
Cyllid ac Archwilio	5	0.21	25	1.05	7	0.29	3	0.13	8	0.34	5	0.21	45	1.89
Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol	121	5.08	215	9.03	49	2.06	26	1.09	24	1.01	18	0.76	192	8.06
Tai a Chymunedau	26	1.09	83	3.48	21	0.88	22	0.92	23	0.97	19	0.80	38	1.60
Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad	40	1.68	74	3.11	26	1.09	13	0.55	19	0.80	15	0.63	73	3.06
Cyfanswm	353	14.82	737	30.94	183	8.10	121	5.08	147	6.17	124	5.21	707	29.68

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Sgiliau Ysgrifennu

Gwasanaeth	Lefel 0		Lefel 1		Lefel 2		Lefel 3		Lefel 4		Lefel 5		Dim gwybodaeth	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd	152	6.38	107	4.49	37	1.55	23	0.97	13	0.55	16	0.67	198	8.31
Cymorth Corfforaethol - Pobl	21	0.88	31	1.30	14	0.59	9	0.38	7	0.29	10	0.42	27	1.13
Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau	38	1.60	35	1.47	19	0.80	8	0.34	5	0.21	9	0.38	22	0.92
Addysg a Phlant	61	2.56	80	3.36	27	1.13	17	0.71	10	0.42	24	1.01	127	5.33
Cyllid ac Archwilio	16	0.67	17	0.71	8	0.34	4	0.17	6	0.25	2	0.08	45	1.89
Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol	145	6.09	202	8.48	50	3.0	24	1.01	18	0.76	16	0.67	192	8.06
Tai a Chymunedau	54	2.27	62	2.60	21	0.88	21	0.88	15	0.63	18	0.76	38	1.60
Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad	69	2.90	60	2.52	23	0.94	11	0.46	13	0.55	11	0.46	74	3.11
Cyfanswm	556	23.34	594	24.94	199	8.36	117	4.91	87	3.65	106	4.45	723	30.35

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Fframwaith Sgiliau Iaith Gymraeg

Rydym yn parhau i weithredu'r Fframwaith sydd yn ffordd syml i staff hunan asesu eu sgiliau iaith yn seiliedig ar y mathau o dasgau cyfathrebu (darllen, ysgrifennu, siarad a deall) y gallent eu cyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ffordd effeithiol o fedru monitro pa lefel o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swydd a pha gwrs y bydd gweithwyr ei angen er mwyn symud i'r lefel nesaf. Mae dilyn y fframwaith hwn yn ein galluogi i gefnogi gweithwyr ar eu taith iaith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

Gwersi Cymraeg

Dyma'r nifer o aelodau staff y Cyngor fynychodd wersi Cymraeg drwy gynllun 'Cymraeg Gwaith' gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol:-

Lefel	Nifer
Cwrs Blasu	6
Mynediad	13
Sylfaen	2
Canolradd	0
Uwch	1
Hunan Astudio	2
Cyfanswm	24

Mae cyrsiau blasu Cymraeg 10 awr ar-lein ar gael i'r rheiny sydd eisiau dechrau ar eu taith iaith. Mae'r cyrsiau hyn yn cyflwyno geirfa ac ymadroddion pob dydd ac maen nhw ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim. Mae rhai cyrsiau wedi eu teilwra ar gyfer gwahanol sectorau sef y sector iechyd, gofal, gwasanaethau cyhoeddus, athrawon, penaethiaid, twristiaeth, manwerthu, twristiaeth Cymru, sefydliad y marchfed a gwybodaeth am y Gymraeg sydd wedi'i deilwra ar gyfer Darparwyr Gofal Plant.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Recriwtio – Swyddi gwag a newydd

Dyma fanylion am nifer/canran y swyddi a hysbyswyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/2023. Roedd gennym y gofynion iaith Gymraeg canlynol ar ein swyddi gwag a hysbysebwyd ar gyfer swyddi dan gontract:

Dynodiad	Nifer y swyddi fesul categori iaith	% y swyddi fesul categori iaith
Hanfodol	128	11
Dymunol	1060	89
Ddim yn angenrheidiol	5	0
Cyfanswm	1193	100

Cynnydd gyda fframwaith ‘Mwy na Geiriau’

O fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych mae ymrwymiad clir i gyflawni newid a gwella gwasanaethau er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn elfen allweddol o ofal, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan y sector annibynnol. Mae'r gwaith wedi'i ategu gan Fframwaith Strategol 'Mwy na geiriau' (2022-27)

Mae'r camau y mae tîm Gwasanaethau Oedolion Sir Ddinbych wedi'u rhoi ar waith yn ystod 2022-23 yn cynnwys darparu manylion ar sut mae gwasanaethau ar hyn o bryd yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ochr yn ochr â gwaith i sicrhau gwelliant. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys cyfarfod â thimau gwasanaethau Oedolion yn unigol er mwyn trafod a rhannu arfer gorau wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg a sut i wneud y

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

“Cynnig Rhagweithiol”. Mae'r gwaith hefyd wedi cynnwys trafod a datrys unrhyw heriau sy'n bodoli o fewn yr adrannau wrth iddynt fynd ati i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg.

Yn ogystal ar draws yr Adrannau Oedolion a Plant, wrth wneud atgyfeiriad neu geisio cyngor dros y ffôn, mae'r Gwasanaeth Gateway a'r Pwynt Mynediad cyntaf (SPoA) yn cynnig y dewis i alwyr siarad â rhywun yn Gymraeg. Yn ogystal atgoffir staff yn rheolaidd o ofynion Safonau'r Gymraeg. Mae pob neges cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog ac mae ffurflenni adborth sy'n ceisio barn yn ddwyieithog.

Cefnogir a datblygir sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu presennol trwy ddarparu gwybodaeth am yr ystod o hyfforddiant iaith sydd ar gael (cyrsiau Cymraeg gwaith) a chynnig cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg gynyddu eu hyder wrth gyflwyno gwasanaethau'n Gymraeg. Yn ogystal comisiynwyd y cyrsiau canlynol yn benodol ar gyfer staff sector Gofal Cymdeithasol yn ystod 2022-23, sef: cwrs blasu'r Gymraeg, cwrs cyfarch y cyhoedd a chwrs canolradd.

O fewn y tîm Datblygu'r Gweithlu, rydym yn parhau yn ein cylchlythyr misol i rannu gwybodaeth sy'n hybu ac hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym maes Gofal. Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu ein gwefan hyfforddiant sy'n cynnwys manylion am sut y gall Darparwyr Gofal a phartneriaid ddatblygu eu gwasanaethau Cymraeg. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am adnoddau amrywiol i annog, cynorthwyo a chefnogi staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, gan gynnwys dolenni ac adnoddau i hybu'r Gymraeg o fewn gofal cymdeithasol a gwybodaeth am y cynnig rhagweithiol a Mwy na Geiriau.

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/datblygu-a-hyfforddir-gweithlu/cymraeg-mewn-gwaith-gofal-cymdeithasol.aspx>

Enillodd ein Rheolwr Gwasanaeth Cyngor Sir Ddinbych, sef Alaw Pierce, y wobwr 'Gofalu yn y Gymraeg' mewn seremoni gwobrwyo Cenedlaethol a drefnwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Drwy gydol ei gyrfa, mae Alaw wedi cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac wedi annog diwylliant lle gall staff ddefnyddio'r Gymraeg yn gyfforddus yn y gwaith

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

[. https://socialcare.wales/the-accolades/2022-accolades-awards-ceremony-winners-and-finalists](https://socialcare.wales/the-accolades/2022-accolades-awards-ceremony-winners-and-finalists)

Diweddariad Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Deiliant 1

Cam Gweithredu: - Mwy o blant meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynyddu argaeledd lleoedd cyfrwng Cymraeg

Cynlluniau cyfalaf gofal plant.

Canolfan y Dderwen – Mae'r gwaith adeiladu ar y safle wedi ail ddechrau yn dilyn yr oedi o ganlyniad i gwmni RL Davies fynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Bydd y gwaith mewnol yn cael ei gwblhau yn barod i dderbyn plant ym mis medi. Mae'r Ganolfan wedi penodi arweinydd i'r Cylch Meithrin newydd a mae 2 fws mini trydan eisoes yn cludo plant i Ysgol Dewi Sant.

Bydd budd-ddeiliad prosiectau Ysgol Dewi Sant ac Ysgol Twm o'r Nant yn derbyn diweddariad ar ôl hanner tymor. Mae'r ddau brosiect wedi cael eu dal yn ôl am resymau gwahanol a byddwn yn adrodd yn ôl i'r budd ddeiliad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf bryd hynny.

Cyflwynwyd cais am gyllid ar gyfer prosiectau Ysgol y Llys a Chylch Rhuthun ym mis Ionawr 2023. Rydym ar hyn o bryd yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen gyda'r cynlluniau hyn.

Hyrwyddo dwyieithrwydd ac addysg Gymraeg

Gwefan/marchnata addysg Gymraeg - angen hyrwyddo addysg Gymraeg. Angen cyfeirio rhieni at wefannau a digwyddiadau sy'n hyrwyddo dysgu Gymraeg.

Mae is-grwp o nifer o randdeiliaid / asiantaethau / sefydliadau wedi bod yn cyfarfod i fapio holl ddarpariaeth Cymraeg i rieni a phlant cyn oed ysgol. Bydd yr wybodaeth yma yn cael

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

ei goladu a'i gynnwys ar wefan y sir ynghyd â gwybodaeth am ysgolion cynradd, uwchradd ac ôl 16. Bydd cardiau post hefyd yn cael eu creu gyda chodau QR arnynt yn eu cyfeirio at safleoedd penodol.

Deilliant 2

Cam gweithredu: - Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Cynyddu capasiti mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg

Ysgol Gymraeg y Gwernant, Llangollen yn aflwyddiannus gyda'r cais ar gyfer yr Her Ysgolion Cynaliadwy. Bydd y Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg yn cyfarfod i drafod y prosiect fis nesaf.

Newid dynodiad ieithyddol ysgolion

- Heriau dal i fodoli gyda ysgolion T2. Diffiniad o addysgu 50%. Llwybr 'ail iaith' yw T2.
- Dwy ysgol arall wedi dangos diddordeb fod yn T2
- Ysgol Llanfair, dosbarth meithrin Cymraeg yn unig Medi 2023

Deilliant 3

Cam gweithredu: - Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall.

Hyfforddiant datblygu llafaredd plant gydag athrawon ysgolion Cymraeg y sir yn datblygu'n effeithiol.

Hwyrddyfodiaid - angen datblygu model i gefnogi hwyrddyfodiaid yn y ganolfan yn Llanelwy. Mae sawl model yn cael eu hystyried gan obeithio cael dosbarth o hwyrddyfodiaid flwyddyn nesaf.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Mae swyddogion y sir wrthi'n datblygu cynlluniau gweithredu i ddatbylgu llefaredd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Yn dilyn cyfarfod gyda swyddogion o'r llywodraethwyr, ni fydd Ysgol Brynhyfryd nac Ysgol Dinas Bran yn newid categori ieithyddol. Fodd bynnag, bydd angen trafodaethau pellach gyda'r ddwy ysgol i greu polisi a systemau mewnol yn yr ysgol i sicrhau nad yw plant yn newid o un ffrwd i'r llall nac ychwaith yn dewis astudio rhai pynciau trwy'r Gymraeg ac eraill trwy'r Saesneg.

Mae angen parhau i gryfhau'r cynnig uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddisgyblion yn Ne Sir Ddinbych. Mae'r un cynnig ieithyddol bellach ar gael i bob disgybl yn Bryn Hyfryd ac mewn 80% o bynciau yn Ninas Bran yn CA 3 a 4.

Bydd angen trafod y posibiladau o greu dosbarth trochi yn Bryn Hyfryd.

Deilliant 4

Cam gweithredu: - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

Cynyddu'r gyfradd trosglwyddo o ysgolion cynradd Cymraeg i addysg Uwchradd Cymraeg i 95% o fewn 5 mlynedd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i greu rhaglen pontio trawsirol cadarn a chodi'r cwestiwn gyda rhieni ym mlwyddyn 5 o ran pa ffrwd / ysgol uwchradd y mae'r disgyblion am ddewis.

Mae angen atgyfnerthu'r neges a'r disgwyliad bod plant yn derbyn addysg Gymraeg o'r meithrin tan 16 +.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Rydym yn datblygu gwefan Sir Ddinbych i gydlynnu holl wybodaeth am fanteision addysg Gymraeg a'u rhannu ar wefan y sir, ysgolion a chyfryngau cymdeithasol.

Cynyddu'r niferoedd sy'n mynd i'r dosbarth trochi yn Ysgol Glan Clwyd. Mae prosiect peilot ar hyn o bryd yn ysgolion Brynhedydd a Bodnant gydag athrawes o'r Tim Cefnogi'r Gymraeg, Yr Urdd a Menter Iaith yn ymweld â disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cynng gweithgareddau hwyliog yn y Gymraeg i annog mwy o blant i fynd i'r dosbarth trochi yn Glan Clwyd.

Deilliant 5

Cam gweithredu: - Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.

Mae llawer iawn o fwrlwm a gweithgareddau Cymraeg yn yr ysgolion fel rhan o weithgareddau'r Siarter Iaith / Cymraeg Campus.

Mae hyfforddiant datblygu llafaredd plant gydag athrawon ysgolion Cymraeg y sir yn datblygu'n effeithiol.

Mae pob ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi sicrhau'r wobr efydd Cymraeg Campus. Mae Ysgol Bodnant ac Ysgol Cefn Meiriadog wedi derbyn y wobr Arian. Rhagwelir y bydd pedair ysgol arall yn derbyn y wobr Arian cyn wyliau'r haf.

Mae pob clwstwr wedi gweithio gyda 'gwasanaethau allanol / trydydd sector' megis 'Cân Sing', 'Welsh Whisperer', Ed Holden (aka Mr. Phormula), Ameer Rana-Davies (1Miliwn L.t.d) ac arbenigwyr Celfyddydau Creadigol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'u Cymreictod ac ymarfer siarad Cymraeg

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Mae'r cyngor yn cydweithio'n agos iawn gyda'r partneriaid megis yr Urdd, a Menter Iaith, i gydgyllunio rhaglen waith a chydlynu gweithgareddau a fydd yn cefnogi blaenoriaethau yn y cynllun yma.

Targeddu mwy o gefnogaeth i llai o ysgolion – Ysgolion cynradd Saesneg all fwydo'r dosbarth trochi yn Glan Clwyd – Bodnant a Brynhedydd.

Ysgolion cynradd Cymraeg sydd wedi colli plant yn ddiweddar - Ysgol Y Llys a Dewi Sant

Ysgolion cynradd Cymraeg sydd a chanran uchel o blant yn mynd i ffrydiau Saesneg yn ne'r sir – dim prosiectau ar waith eto.

Deilliant 6

Cam gweithredu: - Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)

Mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg ac adnoddau Cymraeg yn bryder. Mae angen ail edrych ar systemau recriwtio a threialu systemau newydd i annog siaradwyr Cymraeg i'r Sir.

Rydym ar hyn o bryd yn adolygu'r ddarpariaeth gyfredol ac ehangu'r cymorth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar gyfer disgyblion mewn ysgolion yn Sir Ddinbych.

Bydd cyfarfod o arweinwyr gwasanaethau ADY Sir Ddinbych yn cyfarfod i drefnu awdit o'r ddarpariaeth Cymraeg ymhob adran.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Gyda'r wybodaeth o'r awdit yma, gallwn gynlluo i gynnyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.

Deilliant 7

Cam gweithredu: - Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Mae swyddogion y Tim Cefnogi'r Gymraeg wrthi'n creu rhaglen hyfforddiant a fydd ar gael i ysgolion cyn yr haf – Addysgeg ac addysgu Cymraeg i blant, yn ogystal â datblygu sgiliau siarad Cymraeg unigolion.

Hyfforddiant mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg 2022-2023

Mae 77 o staff ysgol (athrawon a chymorthyddion) wedi cwblhau'r cyrsiau HMS Cymraeg.

Mae 7 ysgol wedi cael derbyn cymorth cyn-arolwg Estyn.

Mae 15 o athrawon ysgol wedi derbyn HMS 'ar y safle' yn ymwneud â chyflwyno'r fframwaith 'ysgolion/ffrydiau/lleoliadau cyfrwng Saesneg'.

Hyfforddiant mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg – Mae rhwydwaith newydd cael ei greu i gefnogi cydlynwyr y Gymraeg mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, er mwyn adnabod anhenion hyfforddiant, manau i'w datblygu a rhannu arfer da.

Hyfforddiant mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg – mae rhwydwaith cryf wedi ei greu ble mae cydlynwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn derbyn hyfforddiant ar ddatblygu llafaredd plant.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Hyfforddiant mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg- mae cyfarfod wedi ei drefnu i ffurfio rhwydwaith i gefnogi cydlynwyr Cymreg mamiaith yn yr ysgolion Cymraeg/dwy ffrwd.

Adroddiad i:	Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg
Dyddiad y cyfarfod:	5 Gorffennaf 2023
Aelod Arweiniol/Swyddog	Cynghorydd Emrys Wynne/ Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Awdur yr adroddiad:	Manon Celyn Roberts, Swyddog Iaith Gymraeg
Teitl:	Adroddiad Sicrwydd Strategaeth Iaith 2017-2022

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Adroddiad sicrwydd Strategaeth Iaith 2017-2022. Comisiynwyd Cyngor Sir Ddinbych y Ganolfan Gynllunio Iaith er mwyn llunio'r adroddiad.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I drafod a chytuno ar gynnwys Adroddiad Sicrwydd Strategaeth Iaith 2017-2022, sydd yn ofyniad statudol.

3. Beth yw'r argymhellion?

3.1 I gytuno ar gynnwys yr adroddiad.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae disgwyl i'r Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi adroddiad asesu cyrhaeddiad ar ein Strategaeth Iaith 2017-2022 a llunio strategaeth ddiwygiedig ar gyfer yr ail gyfnod o 5-mlynedd (2023-28).

4.2 Mae hi'n ddyletswydd statudol, yn unol â'r Safonau (safon 145), i'r Cyngor gydymffurfio drwy gyhoeddi'r adroddiad yr un amser â'r Strategaeth 5-mlynedd ddiwygiedig.

4.3 Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor dros y 5-mlynedd (2017-22) i weithio tuag at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir ac er mwyn cyfrannu'n bositif tuag at yr ymgyrch genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

4.4 Yn ogystal â gwerthuso canlyniadau'r strategaeth iaith, bydd asesu i ba raddau yr ydym wedi dilyn ein strategaeth yn elwa o werthuso'r dulliau a fabwysiadwyd i weithredu a monitro'r strategaeth dros y pum mlynedd diwethaf.

4.5 Byddai adolygu'r agweddau amrywiol a ddefnyddiwyd i weithredu a monitro'r strategaeth yn cynnig cyfle i adnabod y llwyddiannau a'r rhwystrau y bydd angen ceisio eu datrys dros y pum mlynedd nesaf

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu sy'n un o amcanion allweddol Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2022-27.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Does dim cyllid benodol ar gyfer y gwaith hwn ond mae Gwasanaethau Cymunedau a Chwsmeriaid wedi talu £12,000 ar gyfer costau comisiynu'r Ganolfan Cynllunio Iaith i gynhyrchu'r adroddiad hwn. Nid dyma fydd yr achos bob tro y mae angen i ni adolygu'n Strategaeth, yr unig reswm am hyn yw gan mai dyma'n Strategaeth Iaith Gymraeg a'n hadroddiad llwyddiant cyntaf i ni orfod adrodd arnynt.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Safonau Iaith Gymraeg.

7.2 Un o elfennau allweddol Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn celfyddydau, chwaraeon a hamdden."

7.3 Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith Gymraeg.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Ymgynghorwyd ag Aelod Arweiniol y Cabinet dros yr Iaith Gymraeg a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Y prif risg yw enw da'r awdurdod gan ein bod eisoes wedi gwneud ymrwymiad yn y Strategaeth Iaith Gymraeg a thrwy'r Safonau Iaith Gymraeg i hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y gweithle ac o fewn ein cymunedau.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning



Adroddiad Sicrwydd Strategaeth 5 Mlynedd Hybu'r Gymraeg Cyngor Sir Ddinbych

Osian Elias, Iolo Jones a Kathryn Jones

Mawrth 2023



y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

IAITH Cyf.

Uned 3,
Parc Busnes Aberarad,
Castellnewydd Emlyn,
Sir Gâr, SA38 9DB

Ff 01239 711668

E post@iaith.cymru

www.iaith.cymru

Rhagair/crynodeb

Comisiynwyd Iaith Cyf i baratoi'r Adroddiad Sicrwydd hwn. Adrodda ar sut y bu i Gyngor Sir Ddinbych weithredu Safonau Hybu'r Gymraeg yn dilyn sefydlu Strategaeth Iaith Sir Ddinbych 2017-2022. Aseswyd i ba raddau y mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gweithredu yn unol â'r Strategaeth a chyrraedd y targed a osodwyd ganddi.

Yn yr adroddiad hwn cewch ddarlun cynhwysfawr o sefyllfa'r Gymraeg yn Sir Ddinbych a hynny'n seiliedig ar Gyfrifiadau 2011 a 2021. Mae'r ystadegau yn rhai sy'n peri siom ar yr olwg gyntaf ond hefyd mae mwy na llygedyn o obaith wrth drafod cefndir yr ystadegau hyn. Erfyniaf ar y darlennydd i edrych y tu hwnt i ffigyrau'r cyfrifiad ac mae'r adroddiad hwn yn eich arwain i wneud hynny.

Mae yma wybodaeth am y gweithgareddau a drefnwyd neu a arianwyd gan Gyngor Sir Ddinbych er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ystod y bum mlynedd rhwng 2017 ac 2022. Pery'r gwaith pwysig hwn tra ar yr un pryd yn cadw golwg ar argymhellion yr adroddiad hwn.

Wrth ddarllen yr adroddiad, byddwch yn gweld maint a natur y gwaith sydd wedi ei gyflawni yn ystod cyfnod y strategaeth. Pysuraf i ddweud bod y gwaith hwnnw yn parhau yn y cyfnod dilynol. Byddwch yn darllen am waith mewnol y Cyngor yn darparu cyfleodd i staff gael dysgu'r Gymraeg ac hefyd i fagu hyder wrth ddefnyddio'r iaith yn y gweithle. Byddwch hefyd yn darllen am yr hyn a wneir er mwyn sicrhau bod cyfle teg i bob disgybl ysgol yn Sir Ddinbych i ddysgu ac i feistrolï'r defnydd o'r Gymraeg. Yn wir, byddwch yn gweld bod y cyfleodd hyn ar gael i unrhyw rai sy'n dymuno datblygu eu gallu yn y Gymraeg cyn, yn ystod ac wedi iddynt dderbyn addysg ffurfol. Rhydd y strategaeth gyfleodd i siaradwyr cynhenid a siaradwyr newydd y Gymraeg i ddefnyddio'r iaith yn eu cymunedau.

Gan fod cyfnod y strategaeth iaith yn cynnwys cyfnodau clo hirfaith oherwydd Covid-19, fydd hi ddim syndod i'r darlennydd weld bod gweithredu'r strategaeth wedi bod yn heriol am gyfnod pur maith – yn arbennig wrth geisio cynnal sesiynau sgwrsio a rhai gweithgareddau torfol eraill megis yr Eisteddfod Staff. Er hynny, mae'n dëg i ddweud bod yr hyn a gyflawnwyd o fewn y sir yn rhyfeddol wrth gynnal sesiynau rhithiol pan nad oedd modd dod ynghyd.

Mae'n fy moddhau bod yr adroddiad sicrwydd hwn yn bodloni gofynion y Safonau Hybu. Mae'r deuddeg argymhelliad yn rhai adeiladol a fydd yn gosod seiliau ychwanegol yn y Strategaeth Iaith newydd ar gyfer 2022-2027. Does gennyf ddim amheuaeth mai pennaf

nôd y strategaeth nesaf fydd i sicrhau bod pob dim a wna Cyngor Sir Ddinbych wrth hybu'r defnydd o'r Gymraeg led-led y sir yn gwneud cyrraedd y nôd o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 yn fwy tebygol.

Mae fy niolch i bob aelod o staff sydd wedi sicrhau bod y Gymraeg ar gael i bawb sy'n dymuno ei chaffael. Diolch hefyd i Gyngorwyr Cyngor Sir Ddinbych am eu cefnogaeth i Strategaeth Iaith 2017-2022 ac edrychaf ymlaen at weld yr un gefnogaeth yn parhau yn ystod tymor presennol y Cyngor. Mae'n rhaid diolch yn arbennig i ein Swyddog Iaith Gymraeg, Manon Celyn, sydd wedi bod yn cadw golwg dros y Gymraeg yn ystod cyfnod y Strategaeth Iaith yr adroddir arni yma ac sydd eisoes yn gosod ar waith gynlluniau ar gyfer y strategaeth iaith newydd.



Cynghorydd Emrys Wynne

Aelod Arweiniol dros y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Cyd-destun polisi	3
3. Siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych	5
3.1 Dadansoddi targed nifer siaradwyr Cymraeg.....	5
3.2 Proffil oedran siaradwyr Cymraeg Sir Ddinbych	8
4. Gweithgareddau hybu	12
5. Gwerthusiad thematig o Strategaeth Iaith Sir Ddinbych 2017-2022	31
5.1 Thema 1: Cynllunio'r Iaith Gymraeg yn Strategol	35
5.2 Thema 2: Plant a Phobol Ifanc	38
5.3 Thema 3: Y gymuned	46
5.4 Thema 4: Busnes a'r economi.....	52
5.5 Thema 5: Gweinyddiaeth fewnol y Cyngor	56
6. Casgliad	62
6.1 Argymhellion	64

1. Cyflwyniad

Comisiynwyd IAITH: y ganolfan cynllunio iaith gan Gyngor Sir Ddinbych i baratoi'r adroddiad sicrwydd hwn. Daw yr adroddiad sicrwydd hwn mewn ymateb i ofyniad statudol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015¹. Mae'r Safonau Hybu (Safon 145 a Safon 146) yn nodi dyletswyddau penodol ar gyff sy'n hybu'r Gymraeg.

Yn sgil Safon 145, cyhoeddodd Cyngor Sir Ddinbych *Strategaeth Iaith Sir Ddinbych 2017-2022*². Trwy gyhoeddi'r strategaeth roedd Cyngor Sir Ddinbych yn bodloni gofynion Safon 145:

Safon 145

Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill)—

(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnwyl nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a

(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;

a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).

Yn dilyn hyn, mae'n rhaid i gorff sy'n hybu'r Gymraeg asesu'r strategaeth iaith oedd yn deillio o Safon 145, a hynny yn unol a Safon 146:

Safon 146

Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi—

¹ <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/schedule/4/made/welsh>

² [Strategaeth Iaith Gymraeg Sir Ddinbych 2017-2022](#)

(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a

(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;

(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

Diben yr adroddiad sicrwydd hwn yw i fodloni gofynion Safon 146 drwy asesu i ba raddau bod Cyngor Sir Ddinbych wedi dilyn *Strategaeth Iaith Sir Ddinbych 2017-2022*. Mewn ymateb i Safon 146, bydd yr adroddiad hwn hefyd yn nodi nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y sir (ac oedran y siaradwyr hynny) ac yn cynnwys rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gan Cyngor Sir Ddinbych er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

Yn ogystal a'r camau uchod, bydd yr adroddiad hwn yn tynnu ar:

- i) adroddiadau monitro blynyddol Cyngor Sir Ddinbych;
- ii) templedi adrodd ar gynnydd gan adrannau Cyngor Sir Ddinbych cafwyd eu cwblhau ar gyfer yr adroddiad hwn yn benodol;
- iii) cyfres o gyfweiliadau dilynol i ategu'r wybodaeth gasglwyd o ganlyniad i gam ii) uchod.

Noder bod data Cyfrifiad 2021 am y Gymraeg wedi'u gyhoeddi mewn pryd i allu cwblhau'r adroddiad sicrwydd hyn.

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol a gofynion Safon 145 a Safon 146, gan dynnu ar gyngor Comisiynydd y Gymraeg: *Safonau ynghylch hybu'r Gymraeg*³ a *Safonau hybu: asesu cyrhaeddiad y strategaethau 5-mlynedd*⁴.

³ [20181031-gc-safonau-ynghylch-hybur-gymraeg-cymraeg-terfynol.pdf \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#)

⁴ [20210407-dg-c-cyngor-ar-asesu-cyrhaeddiad-y-strategaethau-hybu.pdf \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#)

2. Cyd-destun polisi

Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ddinbych (a sefydliadau eraill) i weithredu safonau'r Gymraeg. Ymhlith y safonau sydd wedi'u gosod ar gynghorau sir y mae safonau 145 a 146 (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015), sef y safonau hybu⁵.

Er mwyn gweithredu Safon 145, mae'n ofynnol i gynghorau sir i baratoi strategaeth pum mlynedd sy'n esbonio sut fwriedir mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn yr ardal dan sylw. Mae'r ail safon hybu, sef Safon 146, yn ei gwneid yn ofynnol i gynghorau sir i gynnal a chyhoeddi asesiad o weithrediad a chyrhaeddiad eu strategaethau hybu wedi cyfnod o bum mlynedd. Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn ymateb i'r gofynion hyn ond, mae'r gwaith hwn hefyd yn bodoli o fewn cyd-destun polisi a deddfwriaethol ehangach – yn genedlaethol ac yn sirol.

Y ddogfen arweiniol yn y maes erbyn hyn yw *Cymraeg 2050*⁶, strategaeth y Gymraeg a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru yn 2017. Cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd dan sylw yw un o amcanion craidd y strategaethau hybu ac yn hynny o beth, ystyrir bod y strategaethau hybu yn gyfraniad pwysig tuag at sylweddoli uchelgais strategaeth *Cymraeg 2050* o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn ogystal, mae'r strategaeth hybu hefyd yn cyfrannu at yr uchelgais i ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yn erbyn 2050. Wrth lunio'r strategaethau hybu diwygiedig, mae *Cymraeg 2050*, a'r rhaglenni gwaith cysylltiedig⁷, yn cynnig gweledigaeth a chamau gweithredu clir wrth wireddu'r amcanion yng nghyd-destun amgylchiadau ieithyddol ar lefel sirol.

Gweithredir y strategaethau hybu yn gyfochrog â sawl ymrwymiad polisi arall ar draws ystod o sectorau, gan gynnwys addysg, gofal, a chynllunio.

Yng nghyd-destun y sector addysg, yr arf cynllunio ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yw Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (CSCA) sy'n cael eu gweithredu gan bob cyngor sir yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. O 2022 ymlaen mae disgwyl i gynghorau sir gyflwyno a gweithredu CSCA deng mlynedd sy'n seiliedig ar gyfer o dargedau a gytunir rhwng Llywodraeth Cymru a'r cynghorau sir a fydd yn amlygu'r cyfraniad at gerrig milltir addysg *Cymraeg 2050*. Cynigia'r CSCA arf cynllunio

⁵ <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/schedule/4/made/welsh>

⁶ [Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU](#)

⁷ [Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021 i 2026 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

allweddol ar gyfer cyfrannu'n uniongyrchol tuag at wireddu'r strategaethau hybu yn lleol ac mi fydd yn bwysig i ddatblygu gweledigaeth a gweithrediad glir ar gyfer y Gymraeg sy'n clymu'r strategaeth hybu a'r CSCA.

Prif ddogfen arweiniol gwasanaethau cymdeithasol o ran y Gymraeg yw *Mwy na Geiriau: Cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal Cymdeithasol*⁸. Elfen greiddiol i'r fframwaith *Mwy na Geiriau* yw'r cynnig rhagweithiol, gydag ymagwedd bartneriaethol yn hollbwysig i lwyddiant y cynnig rhagweithiol⁹. Ystyrir bod gweithredu *Mwy na Geiriau* a'r strategaethau hybu yn gyfrifoldeb partneriaethau ehangach ac yn caniatáu cyfleoedd am fwy o gydlynu ymdrechion a phrosiectau ar y cyd¹⁰.

Gosoda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015¹¹ gyd-destun polisi pwysig i'r Gymraeg. Sefydlodd y Ddeddf Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardal Conwy a Sir Ddinbych. Un o'r nodau llesiant yw i wireddu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu¹², sy'n golygu creu 'cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu i wneud Cymru yn genedl wrth-hiliol, trwy *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol*¹³. Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth ehangol a chynhwysol ar gyfer y Gymraeg, ar sail y daliad bod y Gymraeg yn iaith sy'n perthyn inni gyd ac yn ffordd o uno pobl o gefndiroedd gwahanol. Mewn perthynas a'r Gymraeg, canolbwyntia'r cynllun ar ymgysylltu â chymunedau ethnig lleiafrifol i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Gymraeg a defnyddio'r iaith bob dydd.

Hefyd, mae rôl bwysig i sefydliadau cyhoeddus eraill, gan gynnwys elusennau a busnesau sy'n gweithredu'n lleol; mudiadau a grwpiau lleol; a theuluoedd ac unigolion gweithgar o fewn cymunedau. Dylai gynghorau sir roi llais cryf i fudiadau cymunedol Cymraeg wrth gynllunio a gweithredu'r strategaethau hybu e.e. drwy'r Fforymau Iaith Sirol¹⁴.

⁸ [Mwy na geiriau: Cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal Cymdeithasol | LLYW.CYMRU](#)

⁹ [20181031-gc-safonau-yngghylch-hybur-gymraeg-cymraeg-terfynol.pdf \(comisiynyddygydraeg.cymru\)](#), t: 69.

¹⁰ [20181031-gc-safonau-yngghylch-hybur-gymraeg-cymraeg-terfynol.pdf \(comisiynyddygydraeg.cymru\)](#), t: 69.

¹¹ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 – The Future Generations Commissioner for Wales](#)

¹² [Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – The Future Generations Commissioner for Wales](#)

¹³ [Anti-Racist Wales Action Plan \(llyw.cymru\)](#), tt:39-43.

¹⁴ [20210407-dg-c-cyngor-ar-asesu-cyrhaeddiad-y-strategaethau-hybu.pdf \(comisiynyddygydraeg.cymru\)](#), t: 19.

3. Siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych

Mae Safon 146 yn nodi'r angen i asesu os bod cyrff sy'n hybu'r Gymraeg wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi o ran y nifer o siaradwyr, ac i'r adroddiad nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny. Dyma yw gwaith yr adran hwn.

3.1 Dadansoddi targed nifer siaradwyr Cymraeg

Mewn ymateb i Safon 145, cynigiodd *Strategaeth Iaith Sir Ddinbych 2017-2022* targed o gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych o 0.5% dros gyfnod pum mlynedd y strategaeth¹⁵. Bwriedir y byddai hyn yn arwain at ystyried targed tymor hwy i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg dros y 15 mlynedd nesaf.

Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2011 bod 22,236 o bobl Sir Ddinbych yn gallu siarad Cymraeg, sydd yn cyfateb i 24.6% o'r boblogaeth.

Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2021 bod 20,946 o bobl Sir Ddinbych yn gallu siarad Cymraeg, sydd yn cyfateb i 21.9% o'r boblogaeth.

Mae hyn yn gwmp o 2.7 pwynt canran. Esbonnir hyn gan y cwmp yn y nifer o bobl sydd yn gallu siarad Cymraeg (-1,290) a thwf ym mhoblogaeth y sir (+2,066).

Mae'r cyfrifiad yn rhoi cipolwg ar fywyd yng Nghymru ar adeg benodol, unwaith bob 10 mlynedd.

Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod y pandemig coronafeirws COVID-19. Nid yw eto yn hysbys sut y gallai'r pandemig fod wedi effeithio ar ddata'r Cyfrifiad mewn perthynas a sgiliau Cymraeg. Dylid nodi bod cyfnod y pandemig wedi'i nodweddu gan gyfnodau clo, plant yn dysgu o bell, a newid sylweddol ym mhatrymau gwaith a chymdeithasu.

Er hyn, ystyrir y cyfrifiad fel y brif ffynhonnell wybodaeth am sgiliau Cymraeg pobl yng Nghymru¹⁶. Dyma'r ffynhonnell mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i fesur cynnydd tuag at y darged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

¹⁵ [Strategaeth Iaith Gymraeg Sir Ddinbych](#), t: 5.

¹⁶ [Safonau hybu: asesu cyrhaeddiad y strategaethau 5 mlynedd](#), tt.: 4-5.

Er hyn, dylid ystyried bod y cwmp nodwyd uchod wedi'i fesur rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021, sydd y tu hwnt i gyfnod penodol y strategaeth iaith (2017-2022).

Mae'n bosib troi at ffynonellau eraill er mwyn cynyddu ein dealltwriaeth o'r cyd-destun ieithyddol a newidiadau dros amser¹⁷.

Er enghraifft, amlyga Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth bod 33,600 o siaradwyr Cymraeg, neu 36.7% o'r boblogaeth o 91,400, yn Sir Ddinbych yn y flwyddyn sy'n dod i ben ar Rhagfyr 2017. Yn Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar Fehefin 2022 nodwyd bod 35,300 o siaradwyr Cymraeg, neu 38.1% o'r boblogaeth o 92,900¹⁸.

Noder bod amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y Cyfrifiad. Fodd bynnag, fel arfer, wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol mae'n medru bod yn ffynhonnell data ddefnyddiol. Yn yr achos hwn, dylid nodi bod y pandemig coronafeirws COVID-19 wedi effeithio ar fethodoleg yr arolwg ac o ganol mis Mawrth 2020 cynhaliwyd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth dros y ffôn yn unig. Mae'n ymddangos bod ymatebwyr yn fwy tebygol o ddweud y gallent siarad Cymraeg wrth ateb yr arolwg dros y ffôn¹⁹.

[Argymhelliad 1: Sefydlu gwaelodlin pendant i osod targed i gynyddu'r nifer/canran o siaradwyr Cymraeg](#)

Sefydlu gwaelodlin pendant wrth osod targed yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal am gyfnod y strategaeth hybu nesaf. Gwaelodlin yw'r man cychwyn er mwyn gallu mesur perfformiad. Gan ddilyn o Strategaeth Iaith Sir Ddinbych 2017-22 os bydd targed tymor hwy i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn cael ei osod, gellir ddefnyddio data Cyfrifiad 2021 i osod gwaelodlin ac i fonitro ym mhen 10 mlynedd. Bydd modd pennu dull monitro yn y cyfamser ar gyfer y strategaeth hybu 5 mlynedd fydd yn dod yn nghanol y cyfnod hynny. Adnabuwyd ffynonellau amgen yn is-adran 3.1 yr adroddiad hwn gellid eu defnyddio at y ddiben hyn ac mae arweiniad ar gael gan Gomisiynydd y Gymraeg²⁰. Bydd gosod gwaelodlin pendant hefyd yn gymorth wrth benderfynu ar y targed newydd (gweler argymhelliad 3).

¹⁷ [Safonau hybu: asesu cyrhaeddiad y strategaethau 5 mlynedd](#), tt.: 5-11.

¹⁸ [Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Y Gymraeg \(llyw.cymru\)](#)

¹⁹ [Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Gorffennaf 2021 i Fehefin 2022 | LLYW.CYMRU](#)

²⁰ [20210407-dg-c-cyngor-ar-asesu-cyrhaeddiad-y-strategaethau-hybu.pdf \(comisiynyddygybraeg.cymru\)](#)

Wrth osod y targed, dylid nodi targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn Sir Ddinbych) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg i fodloni Safon 146. Ond, dylid nodi (gan ddefnyddio amcanestyniadau poblogaeth a'r nifer o siaradwyr Cymraeg²¹) targed o ran y nifer o siaradwyr Cymraeg yn ogystal. O safbwynt cynllunio ieithyddol, mae'n fwy ymarferol i weithredu tuag at gynyddu'r nifer o siaradwyr gan fod y ganran o siaradwyr yn dibynnu ar y boblogaeth ehangach ac felly ystod ehangach o ffactorau sydd naill ai yn anodd i'w dylanwadu neu y tu hwnt i orchwyl awdurdodau lleol. O osod targed i gynyddu nifer y siaradwyr, ni fydd llwyddiant gwaith y strategaeth iaith yn dibynnu ar niferoedd poblogaeth y sir sy'n ddeinamig ac yn newid o ganlyniad i ffactorau allanol yn aml. Byddai gosod targed o ran y nifer o siaradwyr hefyd yn gyson gyda strategaeth Cymraeg 2050.

Argymhelliad 2: Gosod targed hirdymor i gynyddu'r nifer /canran sy'n medru siarad Cymraeg

Gosod targed hirdymor o ran cynyddu'r nifer sy'n medru siarad Cymraeg, yn ddelfrydol dros ddeng mlynedd (2022-2032) i weddu gyda chyfnod y cyfrifiad. Byddai hyn hefyd yn ymateb i'r bwriad yn y strategaeth iaith flaenorol i osod targed hirdymor i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, bydd hyn yn golygu bod modd bod yn gyson gyda strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 3: Gosod targed i gynyddu'r nifer/canran sy'n medru siarad Cymraeg sy'n gyson ag amcanion strategaeth Cymraeg 2050

Trwy fabwysiadu argymhelliad 1 a 2 bydd modd defnyddio amcanestyniad a thafllwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd ar gyfer y cyfnod 2011-2050 i osod targed sy'n gyson ag amcanion Cymraeg 2050²².

Argymhelliad 4: Cynnwys datganiad sy'n esbonio sut fwriedir cyrraedd y darged o ran cynyddu nifer/canran sy'n medru siarad Cymraeg


Dylid esbonio'n fanwl sut bwriedir i gyrraedd y targed trwy gynllunio iaith, gan gynnwys ar ddata o'r gyfundrefn addysg ac o amcangyfrifon am y nifer o siaradwyr. Bydd hyn yn sicrhau bod y strategaeth yn bodloni disgwyliadau Safon 145.

²¹ [amcangyfrifon-siaradwyr-cymraeg-2011-i-2050-adroddiad-technegol.pdf \(llyw.cymru\)](#)

²² [amcangyfrifon-siaradwyr-cymraeg-2011-i-2050-adroddiad-technegol.pdf \(llyw.cymru\)](#)


3.2 Proffil oedran siaradwyr Cymraeg Sir Ddinbych

Tudalen 71




*noder bod y pwynt 85 yn cynnwys pobl sy'n 85 mlwydd oed a throsodd, felly nid yw wedi'i gynnwys yn y siart hwn. Mae 701 o siaradwyr yn y categori hyn.

Nifer sy'n siarad/nad ydynt yn siarad Cymraeg yn Sir Ddinbych yn ôl oedran, Cyfrifiad 2021



*noder bod y pwynt 85 yn cynnwys pobl sy'n 85 mlwydd oed a throsodd, felly nid yw wedi'i gynnwys yn y siart hwn.

Canran sy'n medru/nad ydynt yn medru siarad Cymraeg yn Sir Ddinbych yn ôl oedran, Cyfrifiad 2021



Tabl yn dangos y canran sy'n medru siarad Cymraeg yn Sir Ddinbych yn ôl oedran, Cyfrifiad 2021	
Oedran	Canran sy'n medru siarad Cymraeg
3	18.8
4	27.2
5	28.2
6	35.8
7	36.5
8	36.4
9	36.6
10	39.9
11	38.0
12	38.8
13	39.4
14	40.8
15	39.0
16	35.8
17	32.5
18	30.2
19	24.4
20	23.3
21	29.1
22	23.8
23	27.5
24	26.3
25	23.1
26	25.6
27	20.1
28	17.0
29	21.2
30	20.8
31	20.6
32	21.9
33	23.7
34	21.3
35	22.7
36	21.6
37	21.2
38	21.5
39	21.1
40	21.2
41	22.5
42	22.0
43	22.4
44	21.2
45	20.3
46	21.7
47	20.6
48	22.2

49	19.9
50	17.3
51	19.0
52	19.5
53	17.6
54	17.1
55	17.7
56	18.8
57	17.0
58	17.2
59	16.3
60	16.9
61	16.3
62	15.3
63	19.4
64	14.8
65	15.6
66	15.5
67	15.4
68	16.9
69	16.2
70	16.4
71	17.8
72	16.9
73	16.5
74	17.5
75	19.8
76	18.2
77	19.9
78	17.8
79	20.5
80	17.5
81	17.8
82	19.9
83	21.7
84	24.1
85 a throsodd	23.4

4. Gweithgareddau hybu

Er mwyn bodloni gofynion Safon 146, mae'n rhaid cynnwys, fel rhan o'r adroddiad hwn, rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd yn ystod 5 mlynedd y strategaeth er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg. Bydd yr adran hwn yn nodi'r gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd gan Gyngor Sir Ddinbych dros gyfnod y strategaeth. Gweler adroddiadau monitro blynyddol Cyngor Sir Ddinbych am mwy o fanylion.

Gweithgareddau hybu 2017-2018

- Mae bob partner ar Fforwm Iaith y Sir yn marchnata bod cyrsiau iaith Gymraeg ar gael yn y gymuned.
- Mae'r Fforwm Iaith yn sicrhau presenoldeb mewn digwyddiadau allweddol ar draws y Sir er mwyn hybu'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys Sioe Dinbych a Fflint, sioeau carnifal tref a'r Sioe Awyr.
- Mae'r holl bartneriaid yn traws-hyrwyddo digwyddiadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'u gwefannau.
- Mae'r cyrsiau iaith Gymraeg gan ddarparwyr lleol a'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol yn cael eu hyrwyddo i staff.
- Trefnwyd sesiynau Gloywi Iaith ar gyfer staff.
- Cynhaliwyd sesiynau i fusnesau ar sut i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol.

Gweithgareddau hybu 2018-2019

- Eisteddfod y Cyngor
 - Cynhaliodd y Cyngor ei Eisteddfod gyntaf erioed ar Fawrth y 1af eleni. Roedd y digwyddiad yn rhan o ymdrechion y Cyngor i godi proffil a chael gwell dealltwriaeth o'r iaith, ac i ddathlu diwylliant Cymru i gyd fynd â'n Strategaeth Iaith Gymraeg. Daw ar adeg pan fo llawer o sylw ar y Gymraeg a'r ffaith fod Eisteddfod yr Urdd yn dychwelyd i'r sir ym Mai 2020. Roeddem wedi gwirioni gyda'r ymateb a'r gefnogaeth a dderbyniwyd yn arwain tuag at y digwyddiad, gyda thros 70 o staff wedi cofrestru i gystadlu. Thema'r Eisteddfod oedd 'Cymru' ac roedd y cystadlaethau'n cynnwys Ysgrifennu limrig, addurno cacen, rysâit y beirniad (cacen gri), coginio pryd bwyd yn defnyddio cennin, gwan neu wnïo, ffotograffiaeth, creu brawddeg allan o'r gair DEWI SANT, garglo'r anthem Genedlaethol yn ogystal â Chôr y gwasanaeth. Mae trafodaethau eisoes wedi cychwyn ar gyfer Eisteddfod 2020!
- Hyfforddiant Gloywi Iaith
 - Darparwyd dau gwrs Gloywi Iaith er mwyn rhoi canllawiau i staff ar sut i ysgrifennu Cymraeg yn fwy hyderus, clir a chywir. Mynychwyd 13 aelod staff i'r sesiwn cyntaf a 10 i'r ail. Mae galw am fwy o sesiynau Gloywi Iaith felly mae trefniadau mewn lle ar gyfer hynny dros y flwyddyn nesaf.

- Cefnogi dysgwyr Cymraeg
 - Rydym yn annog gweithwyr i ymarfer, ac rydym yn trefnu cefnogaeth anffurfiol amrywiol a chyfleoedd trwy gydol o flwyddyn. Mae'r gweithgareddau yma'n cynnwys:-
 - Clwb Cerdded Cymraeg - Dros dymor yr haf mae gennym Glwb Cerdded Cymraeg ar gyfer staff y cyngor ble byddwn yn mynd am dro unwaith yr wythnos yn ystod amser cinio. Bwriad y clwb yw rhoi'r hyder i siarad Cymraeg, cyfarfod pobl newydd sy'n rhoi budd cymdeithasol a dod i adnabod ein cefn gwlad hardd. Mae'r clwb yn un poblogaidd iawn ymysg staff gan ei fod yn weithgaredd anffurfiol sydd ddim yn rhoi gormod o bwysau arnynt o ran y Gymraeg.
 - Sesiwn Paned a Sgwrs - Rydym wedi sefydlu sesiwn Paned a Sgwrs yn Neuadd y Sir, Rhuthun a Thŷ Russell, Y Rhyl ar gyfer staff sy'n dymuno ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol. Mae cael sgwrs sydyn dros baned o goffi yn helpu pobl wella eu sgiliau cymdeithasol, ffurfio perthynas a gwella eu lles meddyliol a chorfforol. Byddwn yn cyfarfod unwaith yr wythnos yn ystod amser cinio i wneud amryw o weithgareddau i annog staff i ddefnyddio a meithrin sgiliau eu Cymraeg. Mae gennym glwb darllen yn digwydd unwaith y mis o fewn sesiwn Paned a Sgwrs ble byddwn yn darllen llyfrau o'r gyfres 'Amdani' sef llyfrau ar gyfer dysgwyr Cymraeg, ac yn rhoi'r cyfle iddynt drafod y llyfr a lleisio eu barn yn Gymraeg.
 - Côt y Cyngor - Roedd côr o staff y cyngor yn bodoli rhai blynyddoedd yn ôl ac yn dilyn ymgynghoriad ag aelodau o staff, penderfynwyd ei ailsefydlu. Mae'r côr wedi bod yn boblogaidd iawn dros y flwyddyn ddiwethaf gyda dros 20 o aelodau yn mynychu yn wythnosol. Cawsom bleidlais ar enw i'r côr a'r enillydd oedd 'Côt Sain y Sir'. Mae'r côr yn benodol ar gyfer dysgwyr Cymraeg er mwyn rhoi'r cyfle iddynt ymarfer eu Cymraeg trwy ddysgu caneuon traddodiadol Cymreig, ond mae siaradwyr Cymraeg hefyd yn aelodau i gynorthwyo â'r dysgu. Maen nhw wedi perfformio mewn dau ddigwyddiad dros y flwyddyn ddiwethaf sef Gwasanaeth Carolau'r Cyngor yn y Gadeirlan yn Llanelwy, a hefyd yn Noson Wobrwyo Tai Cymdeithasol ym mwyty 1891 Y Rhyl.
 - Safonau'r Iaith Gymraeg – Rydym wedi dylunio sticeri ffôn newydd i bob aelod o staff i'w hatgoffa bod angen ateb y ffôn yn ddwyieithog bob amser, gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Mae'r sticeri yn nodi'r geiriad yn ddwyieithog gyda'r seineg i gyd-fynd â'r Gymraeg i gynorthwyo'r dysgwyr.
- Cynnydd gyda fframwaith Mwy na Geiriau
 - Mae'r tîm datblygu'r gweithlu yn parhau i gynnal Pencampwyr y Gymraeg, sydd hefyd yn eistedd ar y grŵp ' mwy na geiriau ' rhanbarthol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r fframwaith yn strategol yn yr awdurdod lleol.
 - Yn 2018 – 2019 Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar barhad o weithgaredd codi ymwybyddiaeth o amgylch y ' cynnig rhagweithiol ' a chreu amodau ffafriol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn Sir

Ddinbych. Cyflawnwyd hyn drwy hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol penodol fel ' Dydd Santes Dwynwen ', ' dydd miwsig Cymraeg ' a Dydd Gŵyl Dewi.

- Mae pencampwyr Cymru wedi mynychu cyfarfodydd a grwpiau allweddol o fewn yr awdurdod lleol i hyrwyddo'r ' cynnig rhagweithiol ', megis y digwyddiad i ddarparwyr,
 - y cyfarfod rheolwyr darparwyr a grŵp gorchwyl a gorffen Rhisga lle gwnaed mynychwyr yn ymwybodol o egwyddorion sylfaenol a cymorth sydd ar gael i weithredu'r dull gweithredu drwy'r gwasanaeth, i gynnwys mynediad i gyrsiau Cymraeg am ddim a gyllidir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae Hyrwyddwr Cymru hefyd wedi cyfarfod â darparwyr ar sail un-i-un fel y gofynnwyd iddynt amlinellu dyletswyddau ac egwyddorion allweddol a thynnu sylw at yr adnoddau sydd ar gael i helpu i roi'r ' cynnig rhagweithiol ' ar waith yn eu priod ddarpariaethau.
 - Yn ystod 2018-19 o sesiynau hyfforddi a oedd yn hyrwyddo'r ' cynnig rhagweithiol ', i gynnwys 2 hanner sesiwn o ' cyfarfod a chyfarch y cyhoedd yn Gymraeg ' ar gyfer staff rheng flaen gwasanaethau darparwyr mewnol ac ehangach. Roedd cyfranogwyr yn amrywio o wasanaethau gofal preswyl ac yn cynnwys gweithwyr rheng flaen o wasanaethau pwynt mynediad a Phorth sengl.
 - Yn ogystal, hwyluswyd sesiwn bellach o'r ' cwrs Blasu'r iaith Cymraeg ' (cwrs blasu'r Gymraeg) gan Bencampwr Cymru. Roedd hwn yn gwrs poblogaidd gyda 94% yn cael ei ddefnyddio ar gyfer lleoedd ac fe'i hagogwyd i'r sector cyfan unwaith eto. Yn ogystal â hynny er mwyn galluogi'r rhai oedd yn dymuno datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg presennol Comisiynwyd sesiwn deuddydd o ' Rho Gynnig ar dy Gymraeg ' (Rhowch gyfle i'ch Cymraeg) drwy Goleg Cambria.
 - Mae grŵp Cymraeg anffurfiol wythnosol yn cael ei gynnal yn awr yn Russell House (' paned a sgwrs '). Mae hyn yn cael ei hwyluso gan swyddog iaith Gymraeg y Cyngor. Yn ogystal, mae staff wedi cael gwybod am y cyfleoedd i fynychu cwrs Cymraeg preswyl am ddim yn Nant Gwrtheyrn i'r rhai sydd am wella eu sgiliau Cymraeg. Mae gwaith wedi'i wneud hefyd gyda'r adran adnoddau dynol corfforaethol i nodi cyrsiau Cymraeg sydd ar gael er mwyn creu cronfa ddata gynhwysfawr o'r adnoddau sydd ar gael i staff sy'n dysgu'r iaith ar bob lefel. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo pecyn e-ddysgu 10 awr gofal cymdeithasol Cymru (sy'n cyflwyno'r iaith Gymraeg yng nghyd-destun y lleoliad gofal) a hefyd pecyn ymwybyddiaeth e-ddysgu Cymraeg.
 - Yn olaf, bu ffocws cryf ar ofal dementia yn y cynllun hyfforddi 2018/19 a bu'n bosibl gwreiddio iaith a diwylliant Cymru o fewn y ddarpariaeth hon. Mewn cydweithrediad â Catrin Hedd o Ganolfan Datblygu gwasanaethau dementia Prifysgol Cymru Bangor, cyflwynwyd 4 cwrs ar ' gyfathrebu mewn dementia ' a oedd yn cynnwys cyflwyniad ar gyd-destun dwyieithog Cymru a phwysigrwydd y ' Cynnig rhagweithiol ' o fewn gofal dementia.
- Dechrau Da Sir Ddinbych

- Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Sir Ddinbych yn rhedeg sesiynau yn y llyfrgelloedd o ddydd llun i ddydd iau drwy'r flwyddyn. Mae'r sesiynau yn cael eu cynnal yn Llanelwy, Rhuddlan, Y Rhyl, Dinbych a Prestatyn.
- Darparu cyfleon cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg
 - Urdd
 - 7 clwb ysgol Uwchradd yn cael eu cynnal gan staff yr Urdd – 3 cyfrwng Cymraeg, 2 dwyieithog a 2 cyfrwng Saesneg – i hybu defnydd o'r Gymraeg.
 - 10 clwb Cymunedol yn digwydd unai yn wythnosol neu pob pythefnos ar draws y Sir.
 - X5 Adran Gynradd, X3 Uwch Adran, X2 Clwb Dawns.
 - Uwch Adran Llandrillo newydd ers Hydref 2018 yn ogystal ag adran ail iaith yn Ninbych.
 - Wedi ymweld ag amryw o ysgolion cynradd i'w cefnogi yn eu clybiau Urdd ar ôl ysgol. Nifer wedi eu trefnu ar gyfer y flwyddyn newydd. Ysgol Babanod y Parc, Dinbych yn glwb newydd ar gyfer Ionawr 2019.
 - Teithiau – 113 wedi bod yn Alton Towers yn 2018. 74 ar daith blynyddol Disneyland. 4 o Sir Ddinbych wedi bod ar daith yr Urdd i Batagonia nol ym mis Hydref. 2 arall wedi bod yn llwyddiannus ar gyfer taith 2019.
 - Menter iaith
 - Gweithgareddau Gwyliau'r Haf Gweithdai Lego, Animeiddio a Minecraft yn Rhuthun a Dinbych.
 - Clybiau Cymraeg Uwchradd (15 disgybl bl 7) yn Ysgol Brynhyfryd bob dydd Mawrth a Dinas Brân bob dydd Iau (10 disgybl bl 7). Bwriadu mynd yn ôl i gynnal gweithgareddau amser cinio yn Glan Clwyd yn y flwyddyn newydd.
 - Wedi cynnal sesiynau gyda chriw 6ed Lefel A Cymraeg ail-iaith i ddatblygu syniadau a chyfleoedd iddynt fagu hyder ac ymarfer eu sgiliau Cymraeg.
- Datblygu sgiliau ieithyddol staff arbenigol i ymateb i newidiadau yn y galw
 - Cydweithio a Prifysgol Caerdydd i hyrwyddo cyfleon.
 - Cynhaliwyd digwyddiad ar y cyd a Prifysgol Caerdydd yn Rhuthun i hyrwyddo gyrfafel Seicolegwyr Addysg.
- Creu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau staff
 - Sicrhau argaeledd hyfforddiant priodol hyd at flwyddyn 6, gyda phecyn o ôl ofalaeth. (Ysgolion Cat. 4 & 5).
 - Cyfres o gyrsiau hyfforddiant tymhorol gogyfer cymorthyddion y blynyddoedd cynnar hyd at flwyddyn 6. (Ysgolion Cat 4 & 5).
 - Cyfres o sesiynau hyfforddiant i ddatblygu gweithgareddau megis 'Gemau Buarth, Darllen Dan Arweiniad/Cilyddol a Dysgu'n Draws Gwricwlaidd Trwy Gyfrwng Y Gymraeg' yn y C/S a CA 2. (Ysgolion Cat 4 & 5).
 - Mae'r cynnig hyfforddiant cyfredol yn cynnwys:

- Cyfres o gyrsiau hyfforddiant tymhorol er mwyn hyrwyddo methodoleg briodol a chefnogaeth gyda chynlluniau gwaith cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar hyd at flwyddyn 6, gyda phecyn o ôl ofalaeth (Athrawon Ysgolion Cat 4 & 5).
- Cyfres o wersi enghreifftiol cyfrwng Cymraeg (dosbarth cyfan) gogyfer athrawon y blynyddoedd cynnar

Gweithgareddau hybu 2019-2020

- Eisteddfod Staff
 - Cynhaliodd y Cyngor ei ail Eisteddfod ar Fawrth y 6ed fel rhan o ddatliadau Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r digwyddiad yn rhan o ymdrechion y Cyngor i godi proffil a chael gwell dealltwriaeth o'r iaith, ac i ddathlu diwylliant Cymru i gyd fynd â'n Strategaeth Iaith Gymraeg. Daw ar adeg pan fo llawer o sylw ar y Gymraeg a'r ffaith fod Eisteddfod yr Urdd yn dychwelyd i'r sir mis Mai 2021 bellach, gan fod Eisteddfod 2020 wedi'i gohirio. Unwaith eto eleni mae'r ymateb a'r gefnogaeth a dderbyniwyd wedi bod yn wych, gyda 62 aelod o staff wedi cofrestru i gystadlu. Roedd y cystadlaethau'n cynnwys Ysgrifennu limrig, addurno cacen, rysâit y beirniad (Bara Brith), coginio pryd bwyd yn defnyddio cennin, tapas yn defnyddio cynhwysyn Cymreig, gwau neu wnïo, ffotograffiaeth, creu brawddeg allan o'r gair CENNIN PEDR, Gosod Blodau yn ogystal â dwy gystadleuaeth byw eleni sef Stori a Sain a'r Chôr.
- Côr staff y Cyngor – Côr Sain y Sir
 - Mae'r côr yn parhau i fod yn hynod boblogaidd ac mae 8 aelod newydd sy'n ddysgwyr Cymraeg wedi ymuno dros y flwyddyn ddiwethaf sy'n dod â'r cyfanswm i 22 aelod. Mae'r côr ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn bennaf er mwyn hybu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, ond yn benodol er mwyn rhoi'r cyfle iddynt ymarfer eu Cymraeg trwy ddysgu caneuon traddodiadol Cymreig, ond mae siaradwyr Cymraeg hefyd yn aelodau i gynorthwyo â'r dysgu. Maen nhw wedi perfformio mewn dau ddigwyddiad dros y flwyddyn ddiwethaf sef Gwasanaeth Carolau'r Cyngor yn Eglwys Santes Fair, Dinbych, ac hefyd wedi agor yr Eisteddfod Staff.
- Paned a Sgwrs
 - Rydym wedi sefydlu sesiwn Paned a Sgwrs yn Neuadd y Sir, Rhuthun a Thŷ Russell, Y Rhyl ar gyfer staff sy'n dymuno ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol. Mae cael sgwrs sydyn dros baned o goffi yn helpu pobl wella eu sgiliau cymdeithasol, ffurfio perthynas a gwella eu lles meddyliol a chorfforol. Byddwn yn cyfarfod unwaith yr wythnos yn ystod amser cinio i wneud amryw o weithgareddau i annog staff i ddefnyddio a meithrin sgiliau eu Cymraeg. Mae gennym glwb darllen yn digwydd unwaith y mis o fewn sesiwn Paned a Sgwrs ble byddwn yn darllen llyfrau o'r gyfres 'Amdani' sef llyfrau ar gyfer dysgwyr Cymraeg, ac yn rhoi'r cyfle iddynt drafod y llyfr a lleisio eu barn yn Gymraeg.
- Dydd Owain Glyndŵr

- Eleni er mwyn dathlu dydd Owain Glyndwr, gwnaethom fideo i ddangos cysylltiadau Glyndŵr â Sir Ddinbych a lleoedd arwyddocaol o fewn y Sir yn ymwneud â'i hanes. Mae'r lleoedd hyn yn cynnwys Glyndyfrdwy ble'r oedd un o ddau brif lys Glyndŵr yn ogystal â'r ffaith mai o amgylch yr ystadau yma y cymrodd Glyndŵr ei enw; Mwnt yn Llidiart-y-Parc ger Glyndyfrdwy ble cafodd ei gyhoeddi'n dywysog Cymru; Bryn Saith Marchog ble gafodd ffræe gyda Syr Reginald Grey (Arglwydd Dyffryn Clwyd yn Rhuthun) yn ymwneud â thir cyffredin a ddatblygodd i fod yn wrthryfel dros annibyniaeth i Gymru; Rhuthun ble cafodd y dref ei llosgi i'r llawr heblaw am y castell; ymosodwyd hefyd ar Ddinbych a Rhuddlan, ac mae plac ar hen adeilad Natwest yn Rhuthun a gafodd ei ddadorchuddio gan Dafydd Iwan yn 2000 er mwyn nodi 600 mlynedd Glyndŵr. Cawsom adborth gadarnhaol iawn gan staff a llawer yn nodi nad oeddynt yn ymwybodol pa mor arwyddocaol oedd Sir Ddinbych yn hanes Glyndŵr. Byddwn yn rhannu'r fideo yma i'n staff ar ddydd Owain Glyndŵr yn flynyddol yn ogystal â'i rannu ar ein gwefannau cymdeithasol. [Gwylwch fideo Owain Glyndŵr ar youtube yma.](#)
- Anturiaethau Cled y Corrach
 - Daeth Cled y Corrach Cymraeg heibio'r Cyngor eleni er mwyn cael pawb mewn i ysbryd y Nadolig. Fersiwn Gymraeg tebyg i Elf on the Shelf oedd Cled ble'r oedd yn mynd o amgylch gwahanol leoliadau yn Sir Ddinbych i hyrwyddo'r Gymraeg. Dechreuodd yn Neuadd y Sir, Rhuthun a phwy bynnag oedd yn dod o hyd iddo oedd yn cael mynd â fo am y dydd i wneud gweithgareddau Cymraeg. Roedd yr aelod o staff yno wedyn yn gorfod gadael Cled yn rhywle i aelod o staff arall ei ddarganfod gan adael cliwiau o'i leoliad ar ein newyddlen ddyddiol. Cafodd Cled anturiaethau o bob math megis mynd ar wyliau i Aberdaron a Phortmeirion, darllen llyfr Cymraeg gyda plant aelod o staff, ymweld â chartrefi gofal y Sir, delio â ymholiadau Cymraeg mewn canolfan hamdden, cynorthwyo i ateb galwadau ffôn yn y Gymraeg yn y Ganolfan alwadau a llawer mwy. Buan iawn daeth Cled yn boblogaidd iawn o fewn y Cyngor ac roedd llawer o staff yn cysylltu i holi os y cawn nhw Cled am y dydd! Gweithgaredd fach syml ond effeithiol dros ben. Mae'n bwysig dangos i staff fod hwyl i gael trwy'r Gymraeg hefyd ac nad ydynt yn ei weld fel iaith gorfforaethol yn unig.
- Ymgyrch 'Mae gen i hawl'
 - Am y tro cyntaf eleni ar 6 Rhagfyr 2019, bu sefydliadau cyhoeddus ar draws Cymru yn cynnal 'Diwrnod Hawliau'r Gymraeg'. Diwrnod yw hwn i ddathlu'r gwasanaethau Cymraeg mae sefydliadau'n eu cynnig, a'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio gyda nhw. Roedd yn gyfle i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ac i geisio cynyddu'r nifer sy'n dewis eu defnyddio. Hon oedd y flwyddyn gyntaf i'r ymgyrch genedlaethol gael ei chynnal. Dewiswyd y dyddiad er mwyn nodi'r dyddiad y cafodd y ddeddfwriaeth iaith ei phasio gan y Cynulliad yn 2010. Y nod yw gwneud hon yn ymgyrch flynyddol. Mae'r ymgyrch farchnata yn sôn am rai o'r hawliau sydd gan y cyhoedd yn ogystal â staff y Cyngor. Yn hytrach nag ymgyrch undydd fe wnaethom benderfynu ei gwneud yn un dros wythnos fel nad oeddym yn rhoi gormod o wybodaeth allan ar yr un pryd gan fod peryg colli rhai o'r negeseuon.

- Roedd gennym oddeutu 3 neges allanol yn cael eu postio ar ein cyfryngau cymdeithasol yn ddyddiol a negeseuon mewnol yn cael eu rhannu â'n staff gan nodi'r gwahanol hawliau sydd ganddynt. Un o'r negeseuon allanol oedd yn profi'n effeithiol oedd llun o aelod o staff o fewn gwahanol wasanaethau oedd yn medru'r Gymraeg. Roedd hi'n braf darllen negeseuon caredig gan aelodau o'r cyhoedd am ein staff o fewn y Cyngor, a sut mae'r aelod yno o staff wedi gwneud eu profiad nhw o ddefnyddio'r Gymraeg yn un cadarnhaol.
- Dydd Santes Dwynwen
 - Trefnwyd cystadleuaeth eleni fel rhan o ddatliadau dydd Santes Dwynwen. Fe wnaethom guddio 6 chalon gyda llythyren arnynt o amgylch tri prif leoliad y Cyngor -Neuadd y Sir, Caledfryn a Thŷ Russell - ac roedd y llythrennau'n anagram o'r gair CARIAD (yr un gair ym mhob lleoliad). Pwy bynnag oedd yn cael y gair yn gywir oedd fewn am siawns i ennill gwobr. Cawsom ymateb dda iawn gyda dros 30 aelod o staff yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth. Yn ogystal â hyn, roeddym wedi creu posteri yn nodi termau Cymraeg sy'n berthnasol ar gyfer dydd Santes Dwynwen gyda seinek i gyd-fynd â'r gair.
- Dysgwr Cymraeg y mis
 - Rydym wedi bod yn dewis un Dysgwr Cymraeg y mis o fewn y Cyngor i siarad am eu taith iaith ar fideo. Maent yn siarad am beth/pwy wnaeth eu hysgogi i ddysgu Cymraeg yn ogystal â sut mae siarad Cymraeg yn fantais iddynt o fewn eu swydd. I gyd-fynd â'r fideo rydym yn cynnwys bywgraffiad y dysgwr sy'n nodi eu taith iaith yn fanylach. Bwriad Dysgwr Cymraeg y mis yw i ysbrydoli ac annog staff i ddysgu Cymraeg ac mae wedi gweithio'n dda hyd yn hyn gyda chanmoliaeth i'r dysgwr Cymraeg gan aelodau eraill o staff. Mae'n braf gweld staff yn canmol a chefnogi ei gilydd.
- Diwrnod Shwmae Su'mae
 - Unwaith eto eleni buom yn rhan o ddatliadau diwrnod Shwmae Su'mae ar y 15fed o Hydref. Bwriad y diwrnod yw i hybu'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda shwmae neu su'mae. Nôd y diwrnod yw dangos bod y Gymraeg yn perthyn i bawb – yn siaradwyr rhugl, dysgwyr neu os ydych yn swil am eich Cymraeg. Eleni fe wnaethom greu fideo i fynd law yn llaw â chystadleuaeth cwpan rygbi'r byd. Roedd gennym wisg masgot draig goch o'r enw Dewi Draig a oedd yn cael ei ffilmio yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg y Cyngor. Roedd hefyd yn pasio pêl rygbi i aelodau eraill o staff wrth ddweud "shwmae" neu "su'mae" wrthynt, a rheiny wedyn yn gwneud yr un peth wrth basio'r bêl ymlaen. Y syniad tu ôl i hyn oedd mai'r iaith Gymraeg oedd y bêl rygbi ac ein bod yn pasio'r iaith Gymraeg ymlaen. [Gwyliwch fideo diwrnod Shwmae Sumae 2019 ar youtube yma.](#)
- Dydd Miwsig Cymru
 - Buom yn dathlu dydd Miwsig Cymru eto eleni hefyd gan greu rhestr chwarae arbennig o ganeuon Cymraeg ac annog staff i'w chwarae yn ystod y dydd yn y swyddfa, car, ac mewn derbynfeydd. Mae cerddoriaeth anhygoel yn cael ei greu yn y Gymraeg ac mae'r diwrnod yn dathlu'r gerddoriaeth hynny.
 - Gweithio mewn partneriaeth

- Mae'r Cyngor yn bartner gweithgar o'r Bartnerlaith. Mae'r Fforwm yn cynnwys nifer o sefydliadau, lleol a chenedlaethol, sy'n gweithio tuag at hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn strategol yn Sir Ddinbych.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bartnerlaith wedi canolbwyntio ei ymdrechion ar fapio gweithgareddau Cymraeg ar draws y sir. Arweiniwyd y gwaith hwn gan y Cyngor ac er iddo roi darlun clir bod nifer o ddigwyddiadau wedi'u lleoli o amgylch y prif drefi, roedd angen gwaith ymchwilio pellach i nodi gweithgareddau mewn cymunedau mwy gwledig. Byddai hyn yn rhoi darlun clir o ble y dylai'r Bartnerlaith ganolbwyntio ei ymdrechion. Rydym yn y broses o greu cynllun peilot ar Langollen fel ein bod yn medru gweithredu'r un cynllun yma o fewn lleoedd eraill.
- Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu cymorth ariannol i Fenter Iaith Sir Ddinbych drwy grant blyneddol a'r Urdd yn lleol. Defnyddir cyllid yr Urdd i gyflogi swyddog sy'n helpu'r awdurdod i drefnu gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc ar draws y sir.
- Gwersi Cymraeg
 - Bellach mae cyrsiau blasu Cymraeg 10 awr ar-lein ar gael i'r rheiny sydd eisiau dechrau ar eu taith iaith. Mae'r cyrsiau hyn yn cyflwyno geirfa ac ymadroddion pob dydd ac maen nhw ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim. Mae rhai cyrsiau wedi eu teilwra ar gyfer gwahanol sectorau sef y sector iechyd, gofal, gwasanaethau cyhoeddus, athrawon, penaethiaid, twristiaeth, manwerthu, twristiaeth Cymru, sefydliad y marchod a gwybodaeth am y Gymraeg sydd wedi'i deilwra ar gyfer Darparwyr Gofal Plant.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws gweithfannau Gofal Cymdeithasol
 - Mae cwrs blasu'r Gymraeg byr wedi ei gynnig i weithwyr Gofal, yn ogystal â chwrs 'Rho gynnig ar dy Gymraeg' sydd wedi ei deilwra ar gyfer staff Gofal sydd wedi derbyn addysg ddwyieithog ond sydd angen magu'r hyder i ddefnyddio eu Cymraeg.
 - Mae 4 aelod o staff wedi mynychu cwrs Preswyl yn Nant Gwrtheyrn. Yn ogystal mae sesiynau 'paned a sgwrs' yn cael eu cynnal er mwyn rhoi cyfleoedd i staff mewnlol ymarfer eu Cymraeg.
- Amrywiol gwersiau a gynhaliwyd yn Gymraeg:
 - Cwrs blasu'r Gymraeg
 - Cwrs cyfarch y cyhoedd yn Gymraeg
 - Rho gynnig ar dy Gymraeg (cwrs 2 ddiwrnod)
 - Trydar yn Gymraeg
 - Mwy na geiriau – gweithdy ar gyfer Rheolwyr CSS a'r Adran blant

- Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu cymorth ariannol i Fenter Iaith Sir Ddinbych drwy grant blynyddol a'r Urdd yn lleol. Defnyddir cyllid yr Urdd i gyflogi swyddog sy'n helpu'r awdurdod i drefnu gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc ar draws y sir.
- Rydym wedi bod yn defnyddio diwrnodau cenedlaethol fel pwynt ffocws megis Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gwyl Dewi, Dydd Mawrth Crempog, Sul y Mamau ac ati.
- Amrywiol gyrsiau a gynhaliwyd/gwblhawyd yn y Gymraeg
 - Blasu'r Gymraeg
 - Cyfarch y cyhoedd yn Gymraeg
 - Rho gynnig ar dy Gymraeg (cwrs 2 ddiwrnod)
 - Ymsefydlu Corfforaethol
 - Cydraddoldeb
 - Cod Ymddygiad
 - Chwythu'r Chwiban
 - Ymwybyddiaeth i ddiogelu
 - Diogelu Data
 - Caethwasiaeth Fodern
 - Presenoldeb yn y gwaith
- Rhestr gweithgareddau
 - Eisteddfod Staff
 - Cynhaliodd y Cyngor ei drydedd Eisteddfod rhwng Chwefror 15fed a Mawrth 1af fel rhan o ddatliadau Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r digwyddiad yn rhan o ymdrechion y Cyngor i godi proffil a chael gwell dealltwriaeth o'r iaith, ac i ddatlu diwylliant Cymru. Daw ar adeg pan mae sylw sylweddol ar y Gymraeg a'r ffaith bod Eisteddfod yr Urdd yn dychwelyd i'r sir ym mis Mai 2022. Eleni, o ganlyniad i covid-19 a'r mwyafrif o staff yn gweithio gartref, bu'n rhaid i ni fod ychydig yn fwy creadigol ac fe aeth yr Eisteddfod yn ddigidol. Defnyddiwyd ein tudalen Facebook staff preifat fel plattform i gynnal yr Eisteddfod a hyrwyddo categorïau amrywiol i staff gystadlu ynddynt drwy uwch lwytho llun i gyd-fynd â phob categori. Roedd y categorïau'n cynnwys Prosiect Cyfnod Clo, Gwallt Cyfnod Clo, Coctels Cyfnod Clo, creu brawddeg o'r gair PANDEIG, lluniau cyn ac ar ôl/hen neu newydd, coginio pryd bwyd sy'n dechrau gyda llythren cyntaf eich enw, anifail anwes mwyaf talentog a llawer mwy. Er mwyn annog mwy o bobl i gymryd rhan yn yr Eisteddfod eleni, penderfynwyd benodi holl staff y cyngor fel beirniaid. Roeddynt yn dewis yr enillwyr trwy 'hoffi' y lluniau/fideos ar y dudalen Facebook, a'r rheiny oedd â'r mwyaf o bleidleisiau oedd yn ennill. Roedd yr ymateb a'r gefnogaeth a dderbyniwyd yn llawer gwell na'r disgwyl ac roedd llawer o ymgysylltiad gan staff. Roedd yr Eisteddfod ddigidol yn llwyddiannus iawn gyda 163 o geisiadau a dros 700 o bleidleisiau.
 - Paned a Sgwrs

- Gan fod y mwyafrif o staff bellach yn gweithio gartref mae'r sesiynau'n cael eu cynnal yn rhithiol. Cawsom ddechrau da iawn i'r sesiynau rhithiol gyda nifer o aelodau'n bresennol, ond mae'r niferoedd wedi gostwng yn y misoedd diwethaf. Y rheswm am hyn oedd bod staff angen toriad o fod o flaen y sgrin dros amser cinio felly roedd amser y sesiwn yn anghyfleus o'i gymharu â sesiynau wyneb yn wyneb. Mae'r niferoedd wedi codi eto yn ddiweddar gan ein bod wedi newid amser y sesiynau ac mae'r adborth gan staff wedi bod yn gadarnhaol. Er dweud hyn, nid yw sesiynau Paned a Sgwrs rhithiol yn cael yr un effaith â sesiynau wyneb yn wyneb ac rydym yn gobeithio dychwelyd at sesiynau wyneb yn wyneb pan mae'n ddiogel gwneud hynny. Paratowyd tasgau ysgrifenedig wythnosol ar gyfer staff hefyd er mwyn datblygu eu sgiliau ysgrifenedig.
 - Dydd Owain Glyndŵr
 - Eleni er mwyn dathlu dydd Owain Glyndŵr, rhannwyd fideo a wnaethom i ddangos cysylltiadau Glyndŵr â Sir Ddinbych a lleoedd arwyddocaol o fewn y Sir yn ymwneud â'i hanes. Mae'r lleoedd hyn yn cynnwys Glyndyfrdwy ble'r oedd un o ddau brif lys Glyndŵr yn ogystal â'r ffaith mai o amgylch yr ystadau yma y cymrodd Glyndŵr ei enw; Mwnt yn Llidiart-y-Parc ger Glyndyfrdwy ble cafodd ei gyhoeddi'n dywysog Cymru; Bryn Saith Marchog ble gafodd ffrae gyda Syr Reginald Grey (Arglwydd Dyffryn Clwyd yn Rhuthun) yn ymwneud â thir cyffredin a ddatblygodd i fod yn wrthryfel dros annibyniaeth i Gymru; Rhuthun ble cafodd y dref ei llosgi i'r llawr heblaw am y castell; ymosodwyd hefyd ar Ddinbych a Rhuddlan, ac mae plac ar hen adeilad Natwest yn Rhuthun a gafodd ei ddadorchuddio gan Dafydd Iwan yn 2000 er mwyn nodi 600 mlynedd Glyndŵr. Cawsom adborth gadarnhaol iawn gan staff a llawer yn nodi nad oeddent yn ymwybodol mor arwyddocaol oedd Sir Ddinbych yn hanes Glyndŵr. Mae'r fideo wedi'i gwyllo dros 1,000 o weithiau. [Gwylwch fideo Owain Glyndŵr ar youtube yma.](#)
 - Ymgyrch 'Mae gen i hawl'
 - Ymgyrch genedlaethol yw hon i ddathlu'r gwasanaethau Cymraeg mae Awdurdodau Lleol yn eu cynnig, a'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â nhw. Roedd yn gyfle i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn Sir Ddinbych ac i geisio cynyddu'r nifer oedd yn dewis eu defnyddio. Mae'r ymgyrch farchnata yn sôn am rai o'r hawliau sydd gan y cyhoedd yn ogystal â staff y Cyngor.
 - Ym mis Medi, roedd negeseuon allanol a bostiwyd ar ein cyfryngau cymdeithasol yn wythnosol yn cynnwys lluniau o staff sy'n siarad/dysgu Cymraeg yn nodi eu cyfrifoldebau a sut mae'r Gymraeg o fudd iddynt yn y swydd. Mae'r negeseuon wedi creu llawer iawn o sylw cadarnhaol ar ein cyfrifon gyda phobl yn canmol ein staff. Cafwyd un o'n postiau ar ein tudalen Facebook corfforaethol Cymraeg y nifer fwyaf o gyrhaeddiad nag erioed o'r blaen gyda'r post yn cyrraedd dros 5,000 o bobl.
 - Dydd Santes Dwynwen

- Crëwyd cwis am hanes Santes Dwynwen fel rhan o ddatliadau'r dydd eleni. Fe'i rhannwyd yn fewnol ac yn allanol ar ein cyfryngau cymdeithasol gyda dros 30 o bobl yn cymryd rhan. Fe wnaethon hefyd greu dogfen o eirfa Cymraeg perthnasol a seineg i helpu dysgwyr Cymraeg.
 - Diwrnod Shwmae Su'mae
 - Unwaith eto eleni roeddem yn rhan o ddatliadau diwrnod Shwmae Su'mae ar y 15fed o Hydref. Bwriad y diwrnod yw hyrwyddo'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda 'Shwmae' neu 'Su'mae' gyda'r nod i ddangos bod y Gymraeg yn perthyn i bawb – siaradwyr rhugl, dysgwyr neu os ydych yn swil am eich Cymraeg. Roedd hi'n anodd creu rhywbeth newydd oherwydd y sefyllfa sydd ohoni hefo'r pandemig felly fe wnaethom rannu ambell neges ar ein cyfrifon cymdeithasol yn ogystal â rhannu'r fideo gafodd ei chreu gennym llynedd o fascot y ddraig goch (Dewi Draig) yn cael ei ffilmio yn ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg y Cyngor. Pasiodd y ddraig bêl rygbi i aelodau eraill o staff ar ôl dweud "shwmae" neu "su'mae", yna gwnaeth yr aelodau staff hynny yr un peth. Y syniad y tu ôl i hyn oedd mai'r Gymraeg oedd y bêl rygbi a'n bod yn pasio'r iaith ymlaen. [Gwylwch fideo diwrnod Shwmae Sumae 2020 ar youtube yma.](#)
 - Dydd Miwsig Cymru
 - Crëwyd rhestr chwarae o ganeuon Cymraeg i'w rhannu gyda staff a'u hannog i chwarae'r rhestr chwarae gartref, yn y gwaith neu wrth deithio yn y car. Gwnaethom hefyd hyrwyddo'r gân newydd ar gyfer ymgyrch Nerth dy ben, "Byw i'r dydd" sy'n ymgyrch i atgoffa ein gilydd o'n cryfderau a'n dewrder, yn enwedig yn ystod y cyfnod heriol ac anodd hwn. Mae hefyd yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae cerddoriaeth yn ei gael ar eich iechyd meddwl sy'n neges bwysig gan bod llawer o staff yn gweithio gartref ar hyn o bryd. Mae mwyafrif o'r artistiaid a ddangosir yn y fideo cerddoriaeth yn gyn-ddisgyblion yn Ysgol Glan Clwyd.
 - Dydd Gŵyl Dewi
 - Eisteddfod y staff oedd y prif ddigwyddiad i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eto eleni, ond fe wnaethom hefyd rannu gwybodaeth ar ein cyfryngau cymdeithasol am hanes Dewi Sant, geirfa Cymraeg perthnasol a seineg i helpu dysgwyr Cymraeg a'r ffeithiau diddorol am y rheswm pam mai'r Cennin a'r Cennin Pedr yw symbolau cenedlaethol Cymru yn ogystal â'r rheswm y tu ôl i'w gwisgo ar Ddydd Gŵyl Dewi.
 - Hyrwyddo Safonau'r iaith Gymraeg
 - Rydym wedi creu dogfennau i hyrwyddo safonau'r iaith Gymraeg i'w rhannu ar dudalen Facebook staff y cyngor, ein newyddlen ddyddiol, mewnwyd a'n system visiontime. Rhestr wirio i staff ydyw i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau gan ddilyn y canllawiau a roddwyd. Mae'r templedi yn cynnwys ateb y ffôn yn ddwyieithog, trefnu cyfarfodydd a gohebu.
- Gweithgareddau Cymraeg Llyfrgelloedd Sir Ddinbych

- Dechrau Sir Ddinbych:
 - Mae Amser Rhigwm yn fyw ar Facebook yn wythnosol ers diwedd Mawrth 2020. Gweithgaredd ddwyieithog ydyw yn cyflwyno'r Gymraeg i deuluoedd. Mae 37 sesiwn i gyd ac mae wedi ei wyllo cyfanswm o 24,581 o weithiau gyda 13003 o ymatebion/sylwadau, a chyrraedd o 54,812 dros y flwyddyn.
 - Mae ein fideos amser rhigwm bellach ar YouTube gyda 32 fideo o rigymau a straeon. Mae'r mwyafrif yn ddwyieithog a rhai yn Gymraeg yn unig. Maent wedi eu gwyllo cyfanswm o 34,541 o weithiau dros y flwyddyn.
 - Fideos Siarad Babi (Cymraeg) - Cyfres o 9 o fideos yn rhoi cyngor i rieni ar sut i gefnogi datblygiad siarad, darllen a chwarae eu babis. Wedi eu gwyllo cyfanswm o 1985 o weithiau dros y flwyddyn (dwbl y raddfa i'r fideos cyfatebol Saesneg)
- Grwpiau darllen Cymraeg
 - Mae grwpiau Sgwrs a Sangria (Llyfrgell Dinbych) a Llyfr a Llymed (Llyfrgell Rhuthun) wedi bod yn cyfarfod yn rhithiol ers Hydref 2020. Mae Sgwrs a Sangria wedi cyfarfod 4 gwaith yn rhithiol gyda 25 yn mynychu. Cawsom ymweliad i Ganolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio ym Mangor cyn y cyfnod clo 2020 i weld y ddrama Llyfr Glas Nebo. Mae Llyfr a Llymed wedi cynnal 4 cyfarfod rhithiol gyda 33 yn mynychu. Cynhaliwyd noson hefo'r awdur Rebecca Roberts Ebrill 13 (rhithiol) 23 o aelodau o amryw Grŵpiau darllen ar draws y Sir wedi mynychu gan gynnwys rhai dysgwyr.
- Cynyddu'r defnydd o Gymraeg gan y gweithlu gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych a hyrwyddo'r defnydd o adnoddau digidol a chysiau Cymraeg ar-lein a ddatblygwyd gan 'Cymraeg Gwaith'
 - Disgwylir i holl staff mewnol y Cyngor gwblhau modiwl e-ddysgu ar 'Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg' ac mae staff sy'n newydd i'r adran yn derbyn cyflwyniad am 'Mwy na Geiriau' fel rhan o'u cyflwyniad sefydlu.
 - Rydym hefyd wedi rhannu gwybodaeth am y cwrs 10 awr ar-lein am ddim sydd ar gael i'r sector gofal, ynghyd â'r adnoddau a gynhyrchir gan Gymunedau Digidol Cymru. Yn ogystal, yn ein cylchlythyr gofal cymdeithasol misol rydym wedi rhannu manylion amrywiaeth o adnoddau Cymraeg gyda darparwyr sy'n hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn wedi cynnwys amrywiaeth o Apiau iaith a manylion yr adnodd hyfforddi newydd Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n 'Cefnogi Gweithio'n Ddwyieithog' i bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.
 - Yn ogystal, mae cwrs ar-lein penodol wedi'i gomisiynu ar gyfer staff gofal Sir Ddinbych ar draws y gwasanaethau i Oedolion a Phlant. Mae'r rhain wedi cynnwys cwrs blasu a llyfr gwaith Cymraeg byr ar-lein a hefyd cwrs ar-lein sy'n addas ar gyfer staff sy'n deall Cymraeg llafar yn rhwydd ond sydd heb hyder wrth siarad Cymraeg.
- Diweddariad Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg
 - Mae covid 19 wedi cael effaith sylweddol ar weithgareddau cyfoethogi cwricwlwm a cafodd Eisteddfod yr Urdd, a oedd yn bwynt ffocws gweithgareddau ac i fod i'w chynnal yn Ninbych,

ei gohirio. Hefyd bu rhaid addasu gyda nifer o weithgareddau Cymraeg i Blant a hyfforddiant, gan gynnwys y cwrs sabothol i athrawon, i weithredu'n rhithiol.

Gweithgareddau hybu 2021-2022

- Rydym wedi bod yn defnyddio diwrnodau cenedlaethol fel pwynt ffocws megis Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gwyl Dewi, Dydd Mawrth Crempog, Dydd Miwsig Cymru, Sul y Mamau, Shwmae Su'mae ac ati.
- Amrywiol gyrsiau a gynhaliwyd/gwblhawyd yn y Gymraeg (data ond ar gael ers Rhagfyr 2021)
 - Diogelu Data
 - Caethwasiaeth Fodern
 - Ymddygiad
 - Cydraddoldeb
 - Presenoldeb yn y gwaith
 - Ymsefydlu Corfforaethol
 - Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
 - Ymwybyddiaeth o ddiogelu
- Rhestr gweithgareddau
 - Eisteddfod Staff
 - Cynhaliodd y Cyngor ei phedwaredd Eisteddfod rhwng Chwefror 18fed a Mawrth 1af fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r digwyddiad yn rhan o ymdrechion y Cyngor i godi proffil a chael gwell dealltwriaeth o'r iaith, ac i ddathlu diwylliant Cymru. Daw ar adeg pan mae sylw sylweddol ar y Gymraeg a'r ffaith bod Eisteddfod yr Urdd yn dychwelyd i'r sir ym mis Mai 2022. Unwaith eto eleni, o ganlyniad i covid-19, cynhaliwyd Eisteddfod ddigidol. Defnyddiwyd ein tudalen Facebook staff preifat fel platfform i gynnal yr Eisteddfod a hyrwyddo categorïau amrywiol i staff gystadlu ynddynt drwy uwch lwytho llun i gyd-fynd â phob categori. Roedd y categorïau'n cynnwys Anifail anwes yn y cyflwr gorau, Anifail Mwyaf Talentog, Cyn ac ar ôl/Hen a newydd, brawddeg o'r gair DEWI SANT, a llawer mwy. Er mwyn annog mwy o bobl i gymryd rhan yn yr Eisteddfod eleni, penderfynwyd benodi holl staff y cyngor fel beirniaid. Roeddynt yn dewis yr enillwyr trwy 'hoffi' y lluniau/fideos ar y dudalen Facebook, a'r rheiny oedd â'r mwyaf o bleidleisiau oedd yn ennill. Roedd yr ymateb a'r gefnogaeth a dderbyniwyd yn galonogol iawn eto eleni ac roedd llawer o ymgysylltiad gan staff.
 - Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych
 - Mae Eisteddfod yr Urdd yn dychwelyd i Sir Ddinbych eleni ar Fferm Kilford ar gyrion Dinbych. Dechreuwyd ar y paratodau yn 2018, ond o ganlyniad i'r pandemig cafodd yr Eisteddfod ei gohirio 2 waith. Fe wnaethom ail-gydio yn y trefnu yn 2021 ac rydym wedi cael misoedd prysur iawn yn arwain at yr Eisteddfod.

- Cyngor Sir Ddinbych yw un i brif noddwyr Eisteddfod yr Urdd eleni ac rydym hefyd yn noddi'r ddwy sioe – sioe gynradd 'Ni yw y byd' a'r sioe uwchradd 'Fi di Fi'.
 - Bydd gennym babell fawr ar faes yr Eisteddfod o dan y thema 'Darganfod Sir Ddinbych'. Bydd gennym sawl adran gwahanol o fewn y babell:-
 - Theatr - Ar gyfer ysgolion i ymarfer cyn mynd ar y llwyfan gan nad oes rhagbrofion yn yr Eisteddfod eleni. Bydd yr Urdd hefyd yn cynnal eu derbyniadau yno bob prynhawn o ddydd Llun i ddydd Iau; sesiwn stori gan Fiona Collins ar ddydd Mawrth a Sadwrn; darlenniadau cerddi gan Hywel Griffith a Sian ; disgo distaw gyda cwrdd a chyfarch ein masgot Dewi Draig; adloniant gan Ensemble Dyffryn Clwyd a llawer mwy.
 - Busnes / Twristiaeth – Yma bydd cyfle i fusnesau'r sir hyrwyddo eu cynnyrch/busnes megis One Planet, Carchar Rhuthun a Nantclwyd y Dre, teithiau cerdded o fewn y sir, gwasanaethau ieuencid hefo gweithgaredd corfforol a llawer mwy.
 - Celf a chrefft – Bydd yr artist preswyl Mari Gwent yn cynnal gweithdy celf a chrefft trwy'r wythnos gan ddefnyddio deunyddiau naturiol o'r sir. Bydd gwaith sy'n cael ei adeiladu ar hyd yr wythnos yn ogystal â chyfle i'r plant greu brwsch paent naturiol i fynd adre gyda nhw.
 - Cefn gwlad – Bydd traciau beic y tu allan yng nghefn ein pabell, dôl blodau gwyllt yn y blaen yn ogystal â pwll tywod i'r plant gael chwarae.
 - Mae cynnwrf a bwrlwm mawr yn y sir ar gyfer yr Eisteddfod ac edrychwn ymlaen yn fawr i groesawu Cymru gyfan i'n sir godidog.
- Paned a Sgwrs
 - Mae'r sesiynau'n parhau i gael eu cynnal yn rhithiol. Gan fod y niferoedd wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i'r sesiynau symud i fod yn rhithiol, rydym wedi dechrau clwb darllen unwaith y mis sy'n digwydd wyneb yn wyneb yn ein Llyfrgell yn Ninbych a Rhuthun. Mae staff yn cael cyfle i ddewis llyfr o'r gyfres 'Amdani' sy'n addas ar gyfer dysgwyr a'i ddarllen erbyn y sesiwn nesaf. Yma, byddwn yn trafod y llyfr ac yn rhoi cyfle iddyn fynegi eu barn trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r sesiynau yma wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yn hyn gyda'r staff yn ffafrio sesiynau wyneb yn wyneb gan nad yw sesiynau Paned a Sgwrs rhithiol yn cael yr un effaith â sesiynau wyneb yn wyneb. Paratowyd tasgau ysgrifenedig wythnosol ar gyfer staff hefyd er mwyn datblygu eu sgiliau ysgrifenedig.
 - Dydd Owain Glyndŵr
 - Rhannwyd fideo a wnaethom greu i ddangos cysylltiadau Glyndŵr â Sir Ddinbych a lleoedd arwyddocaol o fewn y Sir yn ymwneud â'i hanes. Mae'r lleoedd hyn yn cynnwys Glyndyfrdwy ble'r oedd un o ddau brif lys Glyndŵr yn ogystal â'r ffaith mai o amgylch yr ystadau yma y cymrodd Glyndŵr ei enw; Mwnt yn Llidiart-y-Parc ger Glyndyfrdwy ble cafodd ei gyhoeddi'n dywysog Cymru; Bryn Saith Marchog ble gafodd ffræe gyda Syr Reginald Grey (Arglwydd Dyffryn Clwyd yn Rhuthun) yn ymwneud â thir cyffredin a datblygodd i fod yn wrthryfel dros annibyniaeth i Gymru;

Rhuthun ble cafodd y dref ei llosgi i'r llawr heblaw am y castell; ymosodwyd hefyd ar Ddinbych a Rhuddlan, ac mae plac ar hen adeilad Natwest yn Rhuthun a gafodd ei ddadorchuddio gan Dafydd Iwan yn 2000 er mwyn nodi 600 mlynedd Glyndŵr. Cawsom adborth gadarnhaol iawn gan staff a llawer yn nodi nad oeddent yn ymwybodol mor arwyddocaol oedd Sir Ddinbych yn hanes Glyndŵr. Mae'r fideo wedi'i gwyllo bron i 2,000 o weithiau. Gwyliwch fideo Owain Glyndŵr ar youtube yma.

- Ymgyrch 'Mae gen i hawl'
 - Ymgyrch genedlaethol yw hon i ddathlu'r gwasanaethau Cymraeg mae Awdurdodau Lleol yn eu cynnig, a'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â nhw. Roedd yn gyfle i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn Sir Ddinbych ac i geisio cynyddu'r nifer oedd yn dewis eu defnyddio. Mae'r ymgyrch farchnata yn sôn am rai o'r hawliau sydd gan y cyhoedd yn ogystal â staff y Cyngor.
 - Ym mis Medi, roedd negeseuon allanol a bostiwyd ar ein cyfryngau cymdeithasol yn wythnosol yn cynnwys lluniau o staff sy'n siarad/dysgu Cymraeg yn nodi eu cyfrifoldebau a sut mae'r Gymraeg o fudd iddynt yn y swydd. Mae'r negeseuon wedi creu llawer iawn o sylw cadarnhaol ar ein cyfrifon gyda phobl yn canmol ein staff.
- Dydd Santes Dwynwen
 - Crëwyd cwis am hanes Santes Dwynwen fel rhan o ddathliadau'r dydd eleni. Fe'i rhannwyd yn fewnol ac yn allanol ar ein cyfryngau cymdeithasol. Fe wnaethon hefyd greu dogfen o eirfa Cymraeg perthnasol a seineg i helpu dysgwyr Cymraeg.
- Diwrnod Shwmae Sumae
 - Unwaith eto eleni roeddem yn rhan o ddathliadau diwrnod Shwmae Sumae ar y 15fed o Hydref. Bwriad y diwrnod yw hyrwyddo'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda 'Shwmae' neu 'Su'mae' gyda'r nod i ddangos bod y Gymraeg yn perthyn i bawb – siaradwyr rhugl, dysgwyr neu os ydych yn swil am eich Cymraeg. Roedd hi'n anodd creu rhywbeth newydd oherwydd y sefyllfa sydd ohoni hefo'r pandemig felly fe wnaethom rannu ambell neges ar ein cyfrifon cymdeithasol yn ogystal â rhannu'r fideo gafodd ei chreu gennym llynedd o fascot y ddraig goch (Dewi Draig) yn cael ei ffilmio yn ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg y Cyngor. Pasiodd y ddraig bêl rygbi i aelodau eraill o staff ar ôl dweud "shwmae" neu "sumae", yna gwnaeth yr aelodau staff hynny yr un peth. Y syniad y tu ôl i hyn oedd mai'r Gymraeg oedd y bêl rygbi a'n bod yn pasio'r iaith ymlaen. Gwyliwch fideo diwrnod Shwmae Sumae 2020 ar youtube yma.
- Dydd Miwsig Cymru
 - Crëwyd rhestr chwarae o ganeuon Cymraeg i'w rhannu gyda staff a'u hannog i chwarae'r rhestr chwarae gartref, yn y gwaith neu wrth deithio yn y car. Crewyd hefyd cwis 'emoji' i ddyfalu enwau caneuon Cymraeg. Roedd hwn yn boblogaidd iawn ar ein tudalen facebook staff gyda llawer o ymgysylltu.
- Dydd Gŵyl Dewi

- Eisteddfod y staff oedd y prif ddigwyddiad i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eto eleni, ond fe wnaethom hefyd rannu gwybodaeth ar ein cyfryngau cymdeithasol am hanes Dewi Sant, geirfa Cymraeg perthnasol a seineg i helpu dysgwyr Cymraeg a'r ffeithiau diddorol am y rheswm pam mai'r Cennin a'r Cennin Pedr yw symbolau cenedlaethol Cymru yn ogystal â'r rheswm y tu ôl i'w gwisgo ar Ddydd Gŵyl Dewi.
- Gweithgareddau Cymraeg Llyfrgelloedd Sir Ddinbych
 - Dechrau Da Sir Ddinbych:
 - Amser Rhigwm yn Fyw ar Facebook – yn wythnosol o ddiwedd Mawrth. Gweithgaredd ddwyieithog, yn cyflwyno'r Gymraeg i deuluoedd. 33 sesiwn, wedi eu gwyllo cyfanswm o 12,763 o weithiau gyda 5936 o ymatebion/sylwadau, a chyrraedd o 29,344 dros y flwyddyn
 - Fideos Siarad Babi (Cymraeg) ar YouTube – cyfres o 9 o fideos yn rhoi cyngor i rieni ar sut i gefnogi datblygiad siarad, darllen a chwarae eu babis. Wedi eu creu yn 2020, mae'r defnydd yn parhau i gynyddu, ac wedi eu gwyllo cyfanswm o 7191 o weithiau hyd at ddiwedd Mawrth 2022
 - Grwpiau Darllen Cymraeg
 - Mae grwpiau Sgwrs a Sangria (Llyfrgell Dinbych) a Llyfr a Llymed (Llyfrgell Rhuthun) wedi parhau eu cyfarfodydd rhithiol ac erbyn hyn yn ailgychwyn cyfarfod yn y Llyfrgelloedd yn 2022 bob yn ail fis.
 - Cafodd Cylch Darllen Glyndwr yng Nghorwen seibiant dros gyfnod y pandemig, ers dechrau 2022 maent wedi dechrau cyfarfod yn fisol yn Llyfrgell Corwen gyda llawer o hwyl a chwerthin yn ystod eu sesiynau!
 - Sialens Ddarllen Haf 2021: Arwyr y Byd Gwyllt
 - Daeth y Sialens lawn yn ei ôl a gwelwyd 1710 o blant yn cymryd rhan yn y sialens ddwyieithog. Roedd gwefan Gymraeg ar gael i gefnogi'r sialens unwaith eto eleni. (ariannwyd gan Lywodraeth Cymru) er mwyn i blant hefyd gymryd rhan yn rhithiol.
 - Ymgyrch Gaeaf Llawn Lles
 - Cynhaliwyd ymgyrch llwyddiannus yn Llyfrgelloedd Sir Ddinbych Ionawr – Mawrth 2022
 - 450 o blant Ysgolion y Sir wedi ymweld a'u llyfrgelloedd lleol i weld y sioe Mewn Cymeriad wedi ei seilio ar y llyfr '10 o Storiâu Hanes Cymru' gan Ifan Morgan Jones. Cynhaliwyd 13 sesiwn Gymraeg neu ddwyieithog mewn pum llyfrgell gyda 11 o ysgolion yn cymryd rhan mewn gweithdai bywiog gyda'r cymeriad Hari Hanes. Trefnwyd y rhaglen gan Lyfrgelloedd Sir Ddinbych mewn Partneriaeth â Menter Iaith Sir Ddinbych.
 - Trefnwyd 24 o weithdai celf ar gyfer teuluoedd mewn saith o Lyfrgelloedd Sir Ddinbych yn cael eu harwain gan saith o grefftwyr ac arlunwyr lleol y rhan fwyaf ohonynt yn Gymry. Darparodd y Gwasanaeth Llyfrgell y rhaglen greadigol ar y cyd gydag Adran Cymunedau Bywiog Sir Ddinbych.

- Cynhaliwyd gweithdai Lego ddwyieithog dan ofal Menter Iaith Sir Ddinbych mewn pedair llyfrgell gyda'r plant yn cael cyfle i ail-greu a dysgu am adeiladau hanesyddol yn eu hardaloedd - Corwen, Llangollen, Prestatyn a'r Rhyl. Yn ogystal â hyn roedd arlwy o ddiwyddiadau rhithiol yn Gymraeg a Saesneg wedi eu trefnu yn genedlaethol gydag awduron poblogaidd fel Manon Steffan Ros a Connor Allen.
 - Empathi Lab
 - Mae'r llyfrgelloedd wedi bod yn rhan o gynllun ar y cyd gyda nifer o ysgolion lleol i ddatblygu sgiliau empathi plant trwy gyfrwng cymeriadau mewn llyfrau. Derbyniodd pob aelod o staff hyfforddiant sylfaenol ac mae nifer o ymweliadau ysgolion wedi deillio o'r prosiect hefyd. Roedd y Prif Lyfrgellydd Bethan Hughes yn un o'r panel fu'n dethol llyfrau Cymraeg ar gyfer rhestr genedlaethol newydd ar gyfer y cynllun.
 - Cymry Newydd
 - Ymsefydlwyd Grŵp trafod newydd yn Llyfrgell y Rhyl ar gyfer dysgwyr Cymraeg i sgwrsio ac ymarfer yr iaith. Mae grŵp Paned a Sgwrs wedi ailgychwyn cyfarfod yn Llyfrgelloedd Dinbych a Rhuthun yn dilyn cyfnod hir o gyfarfodydd rhithiol, ar gyfer staff y Cyngor.
- Cyrsiâu i staff
 - Mae cyrsiau blasu Cymraeg 10 awr ar-lein ar gael i'r rheiny sydd eisiau dechrau ar eu taith iaith. Mae'r cyrsiau hyn yn cyflwyno geirfa ac ymadroddion pob dydd ac maen nhw ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim. Mae rhai cyrsiau wedi eu teilwra ar gyfer gwahanol sectorau sef y sector iechyd, gofal, gwasanaethau cyhoeddus, athrawon, penaethiaid, twristiaeth, manwerthu, twristiaeth Cymru, sefydliad y marchod a gwybodaeth am y Gymraeg sydd wedi'i deilwra ar gyfer Darparwyr Gofal Plant.
 - Y cyrsiau:
 - Croeso
 - Croeso nôl
 - Gwella Cymraeg gwaith
 - Manwerthu
 - Sector Gofal
 - Twristiaeth
 - Gwasanaethau Cyhoeddus
 - Penaethiaid
 - Sector Iechyd
 - Athrawon

Argymhelliad 5: Addasu fformat yr adroddiadau monitro er mwyn hwyluso ateb gofynion Safon 146

Noda Safon 146 ei fod yn ofyniad i'r adroddiad hwn gynnwys 'rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg'. Dylid wneud yn glir yn yr adroddiadau blynyddol pa weithgareddau drefnwyd a pha weithgareddau drefnwyd er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

Argymhelliad 6: Ystyried pa weithgareddau sy'n berthnasol i Safon 146 er mwyn symleiddio'r broses monitro

Noda Safon 146 ei fod yn ofyniad i'r adroddiad hwn gynnwys 'rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg'. Gall hyn gynnwys bod yn fwy eglur o ran gweithgareddau mewnol y Cyngor neu weithgaredd partneriaid perthnasol/gweithgaredd ariannwyd gan y Cyngor. Mae dogfen gyngor arferion effeithiol i asesu cyrhaeddiad y strategaethau iaith Comisiynydd y Gymraeg yn cynnig arweiniad ar hyn²³. Dylid cydnabod bod ein dealltwriaeth o weithgaredd o bosib wedi ehangu o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 ac ei fod bellach yn cynnwys gweithgaredd rhithwir neu sy'n eistedd ar-lein (e.e. fideos). Er hyn, prif ystyriaeth yr argymhelliad hwn yw y dylid edrych i symleiddio'r cofnod o weithgareddau at ddiben yr adroddiad hwn.

5. Gwerthusiad thematig o Strategaeth Iaith Sir Ddinbych 2017-2022

Strwythurwyd *Strategaeth Iaith Sir Ddinbych 2017-2022* ar sail pum thema cyd-gysylltiedig:

- Thema 1: Cynllunio'r Gymraeg yn Strategol yn Sir Ddinbych
- Thema 2: Addysg, Gwasanaeth Ieuencid a Hamdden
- Thema 3: Y Gymuned
- Thema 4: Busnes a'r economi
- Thema 5: Gweinyddu mewnol y Cyngor

Mae Thema 1 yn edrych ar sut mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio gyda'i phartneriaid allweddol o safbwynt darparu'r iaith Gymraeg ar draws y sir a sut y gallent weithio'n fwy strategol a chynllunio'u gweithgareddau mewn dull mwy cydlynol.

Mae Thema 2 yn edrych ar gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n dod yn rhugl yn yr iaith Gymraeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac annog mwy o ddefnydd o'r iaith wedi iddynt adael yr ysgol. Yn ogystal, mae'n edrych ar wella cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau cymdeithasol drwy weithio gyda gwasanaethau leuencid a Hamdden y sir.

Mae Thema 3 yn edrych ar faterion sy'n effeithio cymunedau o safbwynt yr iaith Gymraeg, gyda ffocws penodol ar effaith penderfyniadau polisi. Rhoddir ffocws allweddol ar faterion cynllunio lleol a'r Fframwaith Mwy Na Geiriau er mwyn cyfoethogi gwasanaethau dwyieithog mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Thema 4 yn edrych ar sut y dylai Cyngor Sir Ddinbych a'i phartneriaid o ran datblygu economi gydnabod pwysigrwydd economi ffyniannus i ddyfodol yr iaith Gymraeg a sicrhau fod strategaethau yn eu lle er mwyn sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc i aros yn y gymuned leol.

Mae Thema 5 yn edrych ar sut gall Cyngor Sir Ddinbych hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant i staff a hybu ethos dwyieithog yr awdurdod drwy hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Mae'r themâu cyd-gysylltiedig hyn yn croes-dorri ar draws adrannau amrywiol Cyngor Sir Ddinbych. Ar gyfer yr adroddiad sicrwydd hwn, paratowyd templedi adrodd thematig i adrannau a phartneriaid gweithredu perthnasol Cyngor Sir Ddinbych. Cyflwynir y themâu fesul un, gan nodi'r weledigaeth, y canlyniadau a ddymunir, a'r camau gweithredu o'r strategaeth iaith. Ar gyfer pob thema, mae ymateb am unrhyw lwyddiannau neu heriau penodol ac, os yn berthnasol, mae'r dangosyddion perfformiad perthnasol a'u statws wedi'u cynnwys. Mae'r wybodaeth hyn yn dod o'r templedi adrodd thematig paratowyd i adrannau a phartneriaid gweithredu Cyngor Sir Ddinbych fel rhan o waith yr adroddiad sicrwydd hwn. Ategir i'r wybodaeth hyn gan gyfres o gyfweiliadau gyda staff allweddol o fewn y gwasanaethau perthnasol oedd yn gyfrifol am weithredu elfennau perthnasol o'r strategaeth iaith. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda 11 o staff allweddol y Cyngor a phartneriaid y Cyngor fel rhan o baratoi'r adroddiad hwn.

Er hyn, mae angen ystyried effeithiolrwydd y gweithdrefnau adrodd a monitro ar gyfer y strategaeth iaith. Gwelir yn y themâu bod nifer o bylchau adrodd data yn ei wneud yn anodd i adrodd ar y dangosyddion perfformiad. Yn ogystal, ni chofnodwyd cynnydd yn erbyn y pwyntiau gweithredu. Dylid ystyried ddogfen gyngor arferion effeithiol i asesu cyrhaeddiad y strategaethau iaith Comisiynydd y Gymraeg²⁴ wrth lunio'r strategaeth iaith newydd ac osod mewn lle y gweithdrefnau a phrosesau sy'n hanfodol i fesur perfformiad a thraweffaith y strategaeth.

²⁴ [20210407-dg-c-cyngor-ar-asesu-cyrhaeddiad-y-strategaethau-hybu.pdf \(comisiynyddygybraeg.cymru\)](#)

Argymhelliad 7: Sicrhau bod y pwyntiau gweithredu yn cyd-fynd gyda'r weledigaeth a'r canlyniadau a ddymunir

*Noda ddogfen gyngor arferion effeithiol i asesu cyrhaeddiad y strategaethau iaith Comisiynydd y Gymraeg y byddai 'datblygu fframwaith Damcaniaeth Newid a gwerthuso cadarn yn gaffaeliad o bwys wrth ddechrau paratoi strategaethau hybu newydd'*²⁵. Dylai hyn hefyd arwain at osod dangosyddion a mesuriadau ystyrlon (gweler argymhelliad 9).

Argymhelliad 8: Sicrhau bod modd monitro cynnydd y pwyntiau gweithredu

Sefydlu gweithdrefn i gofnodi cynnydd yn erbyn y pwyntiau gweithredu yn rheolaidd yn ystod cyfnod y strategaeth iaith.

Argymhelliad 9: Sicrhau bod y dangosyddion perfformiad a'r broses o fonitro ac adrodd ar y dangosyddion perfformiad yn galluogi mesur perfformiad yn erbyn amcanion y strategaeth

*Hanfod unrhyw gamau i fesur perfformiad yw i ystyried y dystiolaeth sydd gennym o'r gwahaniaeth bod y gweithgaredd dan sylw yn ei wneud i gynna neu gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y sir neu i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal. Dylid gymryd arweiniad o ddogfen gyngor arferion effeithiol i asesu cyrhaeddiad y strategaethau iaith Comisiynydd y Gymraeg wrth osod y dangosyddion perfformiad a'r gweithdrefnau a phroses monitro perthnasol*²⁶. Mae dogfen gyngor y Comisiynydd yn cynnwys templedi enghreifftiol gall gynnig arweiniad ar hyn (atodiad 2). Mae adran 7 o ddogfen gyngor y Comisiynydd yn cynnwys arweiniad ar lunio dangosyddion a mesuriadau effeithiol ac ystyrlon.

²⁵ [20210407-dg-c-cyngor-ar-asesu-cyrhaeddiad-y-strategaethau-hybu.pdf \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#), t: 23.

²⁶ [20210407-dg-c-cyngor-ar-asesu-cyrhaeddiad-y-strategaethau-hybu.pdf \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#)

Argymhelliad 10: Sicrhau bod llwyddiannau neu heriau penodol yn cael eu cofnodi yn rheolaidd trwy gyfnod y strategaeth

Bydd hyn yn cryfhau proses fonitro gweithgaredd y Cyngor ac ymateb i Safon 146 yn fwy effeithiol gan gynnig cyfle i gofnodi gweithgaredd nad oedd wedi'i gynllunio o fewn y strategaeth iaith, ond sy'n berthnasol. Byddai hyn yn adeiladu ar yr hyn welir yn yr adroddiad hwn, ymhle bod tystiolaeth o allu'r Cyngor i newid y ffordd o weithio mewn perthynas a'r strategaeth iaith o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

Argymhelliad 11: Ystyried penodi swyddog penodol sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth iaith o fewn bob gwasanaeth

Prif ddiben yr argymhelliad hwn yw i sicrhau cysondeb ar draws y gwasanaethau, hwyluso gweithrediad a monitro'r strategaeth, a sicrhau cysondeb lle bod trosiant staff. Daeth i'r amlwg yn ystod y cyfweiliadau bod trosiant staff yn golygu nad oedd bob amser cysondeb wrth gyfrannu at a gweithredu'r strategaeth iaith. Byddai gosod hyn fel dyletswydd penodol i swyddog penodol a chyffredin o fewn yr amryw wasanaethau yn sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor a thros amser yn ogystal.

Argymhelliad 12: Bod yn fwy uchelgeisiol wrth fesur traweffaith y strategaeth

Dylid gymryd arweiniad o ddogfen gyngor arferion effeithiol i asesu cyrhaeddiad y strategaethau iaith Comisiynydd y Gymraeg wrth ystyried sut i fesur perfformiad y strategaeth iaith newydd. Goblygiad i hyn yw'r angen i ystyried traweffaith y strategaeth ynghyd a gweithrediad y strategaeth. Noda ddogfen gyngor y Comisiynydd bod disgwyl, wrth fesur perfformiad y strategaeth, i'r asesiad gynnwys dangosyddion meintiol ynghyd â thystiolaeth ansoddol²⁷. Fel rhan o hyn dylid ystyried y dangosyddion perfformiad sydd yn cael eu gosod ar gyfer y strategaeth iaith newydd, gan gymryd arweiniad o adran 8 ac atodiadau 2 a 3 o ddogfen gyngor y Comisiynydd²⁸.

²⁷ [20210407-dg-c-cyngor-ar-asesu-cyrhaeddiad-y-strategaethau-hybu.pdf \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#), tt: 16-18.

²⁸ [20210407-dg-c-cyngor-ar-asesu-cyrhaeddiad-y-strategaethau-hybu.pdf \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#)

5.1 Thema 1: Cynllunio'r Iaith Gymraeg yn Strategol

Y weledigaeth:

- *Agwedd fwy cydlynol tuag at gynllunio ieithyddol strategol yn y sir.*

Canlyniad a ddymunir:

- *Mwy o ffocws ar gydweithio er lles y Gymraeg;*
- *Llai o ffocws ar weithgareddau gweithredol a mwy o ffocws ar osod targedau, gydag arweinwyr dirprwyedig ar ffrydiau gwaith*

Llwyddiannau Thema 1: Cynllunio'r Iaith Gymraeg yn Strategol

Dros gyfnod y strategaeth iaith, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi sicrhau nifer o lwyddiannau penodol mewn perthynas a chynllunio'r Gymraeg yn strategol:

- Sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yng Ngholeg Llysfasi.
- Cynllunio a pharatoi rhaglen hyfforddiant sirol cyflawn a manwl gogyfer sylw'r ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i ddarparu, dysgu ac addysgu'r Gymraeg fel sgil o fewn fframwaith eu Cwricwlwm lleol. Gosod disgwyliad i'r ysgolion Categori 1 (Trefniant Iaith 2022) i ddysgu 15% o'u Cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda phedair ysgol gynradd yn cychwyn ar eu taith 'trosiannol' er mwyn dysgu ac addysgu'n ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod y CSGA – 2031. Mae'r ysgolion yn gweithredu fel rhwydwaith ieithyddol cyson a chyfatebol o fewn eu clwstwr penodol.
- Trafod a chytuno cylch gorchwyl i'r Fforwm Iaith (Partnerlaith) cyfredol yn ystod 2020-2022, gyda datblygiadau pellach ar y gweill yn dilyn sgysiau gyda'r Grŵp Strategol Cymraeg Mewn Addysg, gyda'r bwriad o greu haen arall, mwy strategol a rhesymoli model clir ar gyfer y gwahanol fforymau yn ystod 2023.
- Cynnal cytundeb blynyddol gydag Menter Iaith Sir Ddinbych i gyfrannu at ariannu gweithgareddau'r fenter ac i sicrhau cyflawni'r gwaith a osodir a'r targedau perthnasol. Hyn wedi bod yn sail cadarn i gydweithio rhwng y fenter iaith a'r Cyngor, gyda sawl adran o'r Cyngor

yn manteisio e.e. prosiectau a gweithgareddau ar y cyd rhwng y fenter iaith ac adrannau Llyfrgelloedd, Cefn Gwlad, Economi a Busnes, ac adran Cyfathrebu Corfforaethol y Cyngor. Mae deilydd portffolio dros y Gymraeg (Y Cyngor) yn eistedd ar Fwrdd Rheoli y fenter iaith sy'n cyfarfod bob chwarter.

- Sicrhau cyllid gan Adran Addysg y Cyngor i ariannu cyfran tuag at gynllun Croesi'r Bont (Mudiad Meithrin) i sicrhau cynllun Trochi iaith i'r plant a chadarnhau iaith Cylchoedd Meithrin yr ardal.
- Comisiynu Popeth Cymraeg i gynnal dadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad 2011 a 2021 o safbwynt y Gymraeg.

Heriau Thema 1: Cynllunio'r iaith Gymraeg yn Strategol

Dros gyfnod y strategaeth iaith, adnabuwyd nifer o heriau mewn perthynas a chynllunio'r Gymraeg yn strategol:

- Lleihad yn y nifer o blant sydd yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg, gyda'r goblygiad bod y nifer o ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Saesneg yn cynyddu. Mewn perthynas a hyn, nid oes cyfleoedd ffurfiol i fesur llwyddiant y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
- Colli rhwydwaith 'Athrawon Bro' i gynorthwyo, cefnogi, arfogi, ac hyfforddi'r gweithlu gyda threfniadau iaith, addysgeg, methodoleg, a dulliau dysgu ac addysgu.
- Gostyngiad yng nghyllid cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn y gymuned ers cyn y cyfnod clo. Ynghyd a hyn, gwelwyd cynnydd yn y costau i gynnal cyrsiau sy'n creu her economaidd i gynnal y cyrsiau. Canlyniad hyn yw bod cyrsiau ar-lein yn fwy hyfyw os yw'r dosbarthiadau yn cynnwys nifer cymharol fechan o ddysgwyr (fel sy'n medru digwydd yn ardaloedd gwledig y sir). Er ei fod yn wasanaeth gwerthfawr i unigolion sy'n dymuno dysgu Cymraeg nid yw Cymraeg i Oedolion wedi'i gynllunio na'i ariannu i fedru creu cynnydd sylweddol yn nifer siaradwyr Cymraeg y sir.

Camau Gweithredu Thema 1: Cynllunio'r Iaith Gymraeg yn Strategol

Bydd Cyngor Sir Ddinbych, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn ail ystyried cylch gorchwyl ac aelodaeth Fforwm Iaith Gymraeg y Sir er mwyn sicrhau ffocws mwy strategol a chydweithio gwell rhwng partneriaid.

Bydd Cyngor Sir Ddinbych, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn gosod methodoleg glir er mwyn monitro cynnydd ieithyddol a mesur deilliannau ieithyddol o safbwynt cynlluniau gweithredu lleol a sirol. Cynyddu'r nifer a'r ganran o fyfyrwyr 16-19 oed sy'n derbyn cyfran o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog.

Dylai cyrff cyhoeddus ymateb yn gadarnhaol i'r Safonau Iaith Gymraeg a rhoi statws a gwerth economaidd uchel i'r iaith drwy gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithlu.

Bydd Cyngor Sir Ddinbych, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn gweithio gyda'r Fforwm Iaith Gymraeg i gyrraedd cytundeb ynglŷn â pha sefydliad ddylai arwain ar ddatblygu cynlluniau strategol ym mhob maes gweithredu.

5.2 Thema 2: Plant a Phobol Ifanc

Y weledigaeth:

- *Cynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc drwy gael mynediad at addysg a gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol yn Gymraeg.*

Canlyniad a ddymunir:

- *Cyrhaeddiad gwell yn y Gymraeg ac mewn pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg ar bob cyfnod allweddol ym mhob ysgol;*
- *Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg;*
- *Mwy o weithgareddau hamdden ac ieuenctid yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.*

Llwyddiannau Thema 2: Plant a Phobol Ifanc

- Cychwyn gwaith ar safle Canolfan y Dderwen yn Rhyl bydd hefyd yn darparu safle newydd i gylch meithrin yn yr adeilad.
- Cyflwyno cais grant i Lywodraeth Cymru am gyllid i ddarparu cyfleusterau gofal plant yn y Rhyl, Prestatyn, a Rhuthun.
- Cynnydd yn narpariaeth cyfrwng Cymraeg y Gwasanaeth Ieuenctid drwy recriwtio siaradwyr Cymraeg rhugl i'r gwasanaeth yn ogystal a chefnogi a darbwyllo staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol.
- Cydweithio gyda'r Urdd a'r Fenter Iaith i greu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ychwanegol a chynyddu'r nifer o weithgareddau dwyieithog drwy Grant Gwasanaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru.
- Cynnal cyfarfod o Grŵp Strategol Gwasanaeth Ieuenctid Cyfrwng Cymraeg yn 2017/18 i fapio'r ddarpariaeth bryd hynny ac i adnabod unrhyw bylchau yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. O'r gwaith hwn, datblygwyd cytundebau gyda phartneriaid allanol i ddarparu a chefnogi gallu'r Gwasanaeth Ieuenctid i weithio'n ddwyieithog ar draws y sir.

Heriau Thema 2: Plant a Phobol Ifanc

- Gweithredu cynlluniau gofal plant yn Ninbych ac y Rhyl wedi profi nifer o rwystrau allanol y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Yn benodol, mae rhwystrau technegol o safbwynt diffyg capasiti draenio dŵr arwyneb yn y Rhyl a chynnydd aruthrol yng nghostau adeiladu wedi golygu oedi i brosiectau perthnasol.
- Ym mis Chwefror 2023 aeth Cwmni RL Davies i ddwylo'r gweinyddwyr a drwy hyn mae cwblhau estyniad i Ganolfan y Dderwen yn y Rhyl wedi ei oedi.
- Mae corff llywodraethwyr un ysgol Categori 4 wedi datgan eu gwrthwynebiad i gynyddu eu darpariaeth Cymraeg.
- Recriwtio staff yn her, yn enwedig wrth geisio recriwtio staff sydd wedi'i hyfforddi ar gyfer gwasanaeth ieuencid ac sy'n medru'r Gymraeg.

Camau Gweithredu Thema 2: Plant a Phobol Ifanc

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin a darparwyr gofal plant preifat i sicrhau fod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael ym mhob rhan o'r sir a bod dilyniant cadarn i addysg cynradd cyfrwng Cymraeg.

Bydd y Cyngor Sir a'r Mudiad Meithrin yn gweithio'n agos gyda chynlluniau fel Dechrau'n Deg, sy'n cefnogi rhieni mewn cymunedau sydd dan anfantais, i sicrhau fod y Gymraeg yn cael lle addas yn y gweithgareddau a ddarperir ganddynt ar draws y sir.

Bydd y Cyngor Sir yn gweithio gyda staff a chyrrff llywodraethol ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n gwneud defnydd sylweddol o'r Gymraeg i sicrhau bod y cwricwlwm Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddarparu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg a chynllunio ar gyfer dilyniant ieithyddol addas yn yr ysgolion hyn yng Nghyfnod Allweddol 2.

Bydd y Cyngor Sir yn cychwyn y broses o glustnodi ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n barod i ddarparu canran uwch o'r cwricwlwm Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r bwriad yn y pen draw o ehangu'r ddarpariaeth a sicrhau dilyniant ieithyddol addas yng Nghyfnod Allweddol 2.

Bydd Adran Addysg y Cyngor Sir yn datblygu'r cynllun Siarter Iaith ymhellach, er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith ymysg dysgwyr a siaradwyr Cymraeg.

Bydd y Cyngor Sir, ar y cyd â Menter Iaith Sir Ddinbych a Rhieni Dros Addysg Gymraeg, yn rhedeg ymgyrch farchnata barhaol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a manteision dwyieithrwydd i rieni a disgyblion.

Bydd y Cyngor Sir yn darparu hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr cynradd ac uwchradd ar fanteision addysg cyfrwng Cymraeg a'r rhesymau addysgiadol, economaidd a chymunedol pam y dylid ehangu'r ddarpariaeth ar draws y sir.

Bydd y Cyngor Sir yn cynnal archwiliad o sgiliau ieithyddol y staff o fewn yr Adran Hamdden er mwyn cynllunio ar gyfer y nifer o staff a all gynnig gwasanaethau hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y Cyngor Sir yn archwilio i'r angen am wersi (nofio a ffitrwydd) drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn rhoi cynlluniau mewn lle i ddarparu'r gwersi hynny lle mae galw.

Bydd Adran Hamdden y Cyngor Sir yn cefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau iaith er mwyn cynnig sesiynau dwyieithog lle mae galw am hynny.



Bydd y Cyngor Sir yn mabwysiadu 'Cefnogwr Iaith' ym mhob Canolfan Hamdden i fod yn gyfrifol am hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg a datblygu ethos Gymraeg.


Bydd y Cyngor Sir yn cefnogi staff gweinyddol a rheng flaen o fewn y gwasanaeth hamdden sy'n gallu siarad Cymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg er mwyn datblygu eu sgiliau ieithyddol.




Bydd y Cyngor Sir yn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn ei wasanaeth ieuencid drwy recriwtio mwy o staff dwyieithog yn y dyfodol a chefnogi staff o fewn y gwasanaeth i ddatblygu eu sgiliau i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y Cyngor Sir yn parhau i ddatblygu'r bartneriaeth gyda'r Urdd a darparwyr gwaith ieuencid eraill er mwyn sicrhau yn y tymor byr fod gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gael i bobl ifanc Sir Ddinbych.

Bydd y Cyngor Sir yn sefydlu ac yn hwyluso grŵp strategol sirol o'r prif ddarparwyr i ddatblygu a chydlynu gweithgareddau hamdden ieuencid ar gyfer pobl ifanc a phlant drwy gyfrwng y Gymraeg.

<i>Dangosyddion perfformiad Thema 2: Plant a Phobol Ifanc</i>		
Dangosyddion Perfformiad	Testun/Data	Statws
Mwy o blant saith oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg	<p>Mae cynllun wedi ei chynnwys ym Mand B Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i adeiladu estyniad ar Ysgol Gwernant.</p> <p>Mae Ysgol Llanfair wedi cynyddu nifer derbyn plant i'r ysgol. Nid oes prinder lle yn ysgolion Gymraeg y sir ar hyn o bryd.</p> <p>Mae ysgolion wedi eu hysbysu o fwriad yr awdurdod i newid eu categori ieithyddol. Mae sawl cyfarfod wedi bod rhwng swyddogion y sir a rhanddeiliaid yr ysgolion i drafod yr heriau a cheisio mapio llwybr ymarferol i'r ysgolion newid categori ieithyddol.</p>	
Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella'u sgiliau Cymraeg yn y cam trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd	Mae gwaith yn cymryd lle i sefydlu cynllun pontio cryf rhwng yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd yr ysgolion uwchradd yn trefnu gweithgareddau pontio diddorol ac yn	

	<p>ymgysylltu mwy gyda plant a rhieni Blwyddyn 5.</p> <p>Bydd swyddogion y sir yn dal i fonitro ddarpariaeth Gymraeg yn ysgolion Brynhyfryd a Dinas Bran.</p>	
<p>Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg</p>	<p>Mae gwaith yn cael ei gynllunio i adnabod ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg eraill i gryfhau'r berthynas pontio a chynnig gweithgareddau a sesiynau blasu gyda'r plant i'w denu i'r dosbarth trochi.</p> <p>Mae swyddog wedi ei phenodi i'r awdurdod sydd yn cydweithio a cefnogi Ysgol Glan Clwyd.</p> <p>Darparu unedau modiwl trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg.</p>	<p style="text-align: center;"></p>

<p>Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau, a dysgu seiliedig ar waith</p>	<p>Mae gwaith a y gweill yn gwanwyn / haf 2023 i greu rhaglen pontio traws-sirol cadarn gyda rhieni ym mlwyddyn 5 o ran pa ffrwd mae disgyblion yn ei ddewis ac i hyrwyddo'r cyfleoedd.</p> <p>Darparu rhaglen addysg amgen mewn ysgolion uwchradd trwy'r Cynnig Addysg Gwaith Ieuenctid.</p>	
<p>Mwy o fyfyrwyr gyda sgiliau lefel uwch yn y Gymraeg</p>	<p>Bydd swyddogion o'r Cyngor yn gweithio gyda ysgolion i sicrhau eu bod yn deall gofynion y cymwysterau TGAU newydd o ganlyniad i Cwricwlwm Cymru.</p>	
<p>Cynnydd yn y nifer o sesiynau gwaith ieuenctid dwyieithog</p>	<p>Cyflogwyd dau siaradwr Cymraeg i swyddi Gwaith Ieuenctid newydd mewn ysgolion.</p> <p>Trefniadau partneriaeth ychwanegol ar gyfer y Gymraeg trwy Chwaraeon wedi'u comisiynu.</p>	

<p>Cynydd yn nifer y staff y gwasanaeth ieuenctid sy'n siarad/dysgu Cymraeg</p>	<p>Cynyddodd y canran o oriau staff cyfrwng Cymraeg o 35% yn 2021-22 i 40% yn 2022-2023.</p> <p>Annog staff i gofrestru ar gyrsiau Cymraeg i gynyddu eu sgiliau.</p> <p>Pob aelod o staff y Gwasanaeth Ieuenctid yn defnyddio Cymraeg bob dydd lle'n bosib tra'n cyfarch neu o fewn sesiynau gyda phobol ifanc.</p>	<p style="text-align: center;">↑</p>
<p style="text-align: center;"> ↑ DP wedi gwella ↓ DP wedi llithro'n ôl ↔ DP yr un fath neu heb newid lawer • Dim cymhariaeth ar gael </p>		

5.3 Thema 3: Y gymuned

Y weledigaeth:

- *Cynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc drwy gael mynediad at addysg a gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol yn Gymraeg.*

Canlyniad a ddymunir:

- *Cyrhaeddiad gwell yn y Gymraeg ac mewn pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg ar bob cyfnod allweddol ym mhob ysgol;*
- *Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg;*
- *Mwy o weithgareddau hamdden ac ieuencid yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.*

Llwyddiannau Thema 3: Y gymuned

- Cyrsiau staff Cymraeg Gwaith.
- Cyrsiau Cymraeg i Oedolion, gyda digwyddiadau a gweithgareddau i'n dysgwyr.
- Hwb cymunedol Llysfasi yn cynnal gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer y gymuned.
- Cydweithio gyda Popeth Cymraeg a gwirfoddolwyr cymunedol i gynnal gweithgareddau i bontio siaradwyr Cymraeg hen a newydd.
- Pecynnau gwybodaeth i drigolion newydd i'r Sir ynglŷn a phwysigrwydd dwyieithrwydd ar y gweill diolch i brosiect ar y cyd rhwng y Cyngor, Menter Iaith, ac asiantaethau tai lleol.
- Stondin yn Sioe Dinbych a Fflint yn flynyddol i hyrwyddo gwasanaethau, prosiectau, a digwyddiadau Cymraeg a dwyieithog.
- Cynnal Eisteddfod yr Urdd 2022 yn Sir Ddinbych, gyda'r Cyngor yn un o'r prif noddwyr. Roedd gan y Cyngor babell fawr ar faes yr eisteddfod o dan y thema 'Darganfod Sir Ddinbych'. Roedd partneriaid y Fforwm Iaith Gymraeg oll yn bresennol mewn un ffordd neu'r llall.

- Presenoldeb y Cyngor mewn digwyddiadau cymunedol (megis gwyliau, carnifalau) a rhain weithiau ar y cyd gyda phartneriaid perthnasol e.e. Cymraeg i Blant, Popeth Cymraeg, a'r Fenter Iaith wedi cydweithio yng Ngharnifal Dinbych i hyrwyddo'r Gymraeg i deuluoedd ifanc.
- Partneriaid y Fforwm Iaith yn rhagweithiol yn cyd-weithio lle bod angen. Hyn yn cynnwys manteisio ar ddigwyddiadau cenedlaethol a marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol e.e. Dydd Owain Glyndwr, Shwmae Su'mae, ac ati.
- Cydweithio gyda Popeth Cymraeg a Menter Iaith Sir Ddinbych mewn nifer o ddigwyddiadau i farchnata cyrsiau Cymraeg i Oedolion neu i drefnu gweithgareddau cymdeithasol i ddysgwyr neu i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg rhugl ar y cyd.
- Gwaith yn mynd rhagddi i adolygu yr ymagwedd polisi ar yr iaith Gymraeg a diwylliant gyda gwahanol opsiynau ar gyfer y cynllun datblygu lleol yn cael eu trafod gan y Grŵp Cynllunio Strategol a Grŵp Llywio'r Gymraeg.
- Sefydlu grŵp gweithredu lleol sy'n cynnwys rheolwyr, cynghorwyr, a staff o'r adran Cymorth Cymunedol a'r Gwasanaeth Plant i weithredu'r fframwaith Mwy na Geiriau. Hefyd yn aelodau o'r Fforwm Mwy na Geiriau Rhanbarthol.
- Dosbarthu cylchlythyr i'r gweithle gofal annibynnol i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Hyn yn cynnwys hyrwyddo'r ymgyrch Gofalwn Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal.
- Trefnu ymweliadau unigol gyda bob tîm er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol. Cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd wrth gyfleu'r negeseuon Mwy na Geiriau a'r cynnig rhagweithiol o fewn y tîmoedd integredig.
- Un o'r cartrefi preswyl yn y sir yn cymryd rhan yn y cynllun peilot ARFer gyda Prifysgol Bangor.
- Penodi Swyddog Iaith Gymraeg yn 2018. Mae hyn wedi arwain at ethos gadarnhaol o fewn y Cyngor gyda'r Gymraeg yn mynd o nerth i nerth gan ennyn diddordeb staff i ddysgu'r iaith neud i fod yn rhan o'r dathliadau cenedlaethol Cymraeg. O flwyddyn i flwyddyn, mae'r Cyngor wedi dathlu digwyddiadau megis Dydd Santes Dwynwen, Owain Glyndwr, Dydd Gŵyl Dewi, Twrnament Rygbi y 6 Gwlad, Eisteddfod Staff y Cyngor, Diwrnod Shwmae Su'mae, Dydd Miwsig Cymru, a llawer iawn mwy.

- Symudwyd yr holl ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion ar-lein o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Oherwydd rhwyddineb mynediad dros y we golygodd hyn fod llawer o ddysgwyr o'r tu allan i'r sir (a thu allan i'r DG) wedi'u hychwanegu at y dysgwyr lleol yn y dosbarthiadau. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer ein cofrestriadau yn ystod y cyfnod clo, y cynnydd uchaf yng Nghymru o ran canran o unrhyw ddarparwr. Symudodd yr holl gyrsiau atodol (Sadwrn Siarad, Calan, Pasg, Haf) a'r sesiynau sgwrsio ar-lein hefyd. Oherwydd ehangder daearyddol ein dysgwyr bellach mae gennym ddarpariaeth ddwy ffrwd – cynhelir rhai dosbarthiadau yn y cnawd ond mae'r mwyafrif dal ar-lein ar hyn o bryd. Rhagwelwn y bydd y ddarpariaeth yn y cnawd yn lleol yn ailgodi ond mae'r ddarpariaeth ar-lein bellach yn rhan hanfodol o'n darpariaeth gan fod dysgwyr o bob rhan o'r DG a thu hwnt yn medru ymuno â dysgwyr lleol mewn dosbarthiadau rhithiol.
- Mae trefniadau gweithio o adref yn ystod y pandemig COVID-19 wedi ei wneud yn anodd i fesur gweithredu'r safonau iaith. Rydym yn anfon negeseuon staff i'w hatgoffa o'r gofynion yn rheolaidd. Rydym yn ail-ystyried y pecyn sefydlu ar gyfer staff newydd mewn ymateb i'r her hyn.
- Recriwtio a chadw staff ar draws y sector gofal yn her, gan gynnwys staff gweinyddol, staff gofal, gweithwyr cymdeithasol, a rheolwyr tîm sydd efo sgiliau iaith dwyieithog.
- Mae'r defnydd o'r Saesneg fel iaith weinyddol yn her tra'n defnyddio'r system PARIS i gofnodi. Mae achosion o staff yn rhyngweithio yn y Gymraeg gyda preswylwyr gofal ond yn mewnbynnu'r wybodaeth ar PARIS yn Saesneg.
- Mae newid ym mhatrymau gwaith yn ystod ac oherwydd y pandemig COVID-19 wedi peri her wrth gynnal momentwm staff sy'n dysgu'r Gymraeg. Roedd ymdrech fawr i greu cyfleoedd i staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn rhithiol yn ystod cyfnod y pandemig ond roedd y lleihad yn y cyswllt wyneb yn wyneb yn golygu bod llawer o staff yn colli momentwm wrth ddysgu'r iaith gan nad oeddent yn clywed nac yn gweld gymaint o'r Gymraeg a fyddent petaent yn gweithio mewn swyddfeydd.

Camau Gweithredu Thema 3: Y gymuned

Ystyried effaith gwneud polisi/penderfyniadau ar yr iaith Gymraeg a chymunedau.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gofyn am ddatganiadau cymunedol a ieithyddol i gyd fynd â cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau llai o fewn pentrefi a chefn gwlad agored), h.y. datblygiadau o 5 neu fwy o gartrefi; datblygiad masnachol, diwydiannol, twristiaeth/hamdden o 1,000m² neu fwy o lawr; datblygiadau sy'n debygol o arwain at golled cyfleusterau cymunedol neu gyfleon gwaith; prosiectau isadeiledd gydag effaith cymunedol tymor hir). Dylai asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg gael ei gynnal ar unrhyw ddatblygiad mawr.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gofyn am Ddatganiadau Cymunedol a Ieithyddol i gyd fynd â cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mwy ym mhob ardal (h.y. datblygiad o fwy nag 20 o dai; datblygiad masnachol, diwydiannol, twristiaeth/hamdden o 1,000m² neu fwy o lawr; datblygiadau sy'n debygol o arwain at golled cyfleusterau cymunedol neu gyfleon gwaith; prosiectau isadeiledd gydag effaith cymunedol tymor hir).

Fel rhan o'r arolwg o'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd arfarniad cynaliadwyedd a phrosesau asesu cysylltiedig yn asesu effaith strategaeth gofodol y cynllun, polisiâu a dyraniadau ar yr iaith Gymraeg. Lle bod tystiolaeth yn dangos effaith andwyol, bydd newidiadau neu mesurau lliniaru yn cael eu hadnabod.

Marchnata mwy ar y cyrsiau Cymraeg sydd ar gael yn y gymuned.

Lansio cynllun cyfeillio cymunedol.

Pecynnau gwybodaeth i drigolion newydd i'r sir ynglŷn â phwysigrwydd dwyieithrwydd (mewn cydweithrediad â gwerthwyr tai ac asiantaethau gosod tai).
Presenoldeb mewn digwyddiadau sirol allweddol er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
Cyd-hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol partneriaid.
Hwyluso a chefnogi digwyddiadau o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg.
Ymgyrch farchnata ar y cyd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
Gweithredu'r Fframwaith Mwy Na Geiriau.

<i>Dangosyddion perfformiad Thema 3: Y gymuned</i>		
Dangosyddion Perfformiad	Testun/Data	Statws
Cynnydd yn nifer o bobl sy'n symud i Sir Ddinbych sy'n cael mynediad at wybodaeth ynglŷn â dwyieithrwydd	Mae Popeth Cymraeg wedi rhedeg sawl ymgyrch farchnata trwy'r Daily Post ac ar-lein i hyrwyddo'i dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion. Mae'r ymgyrchoedd hyn wedi	↑

	<p>denu oedolion i'n dosbarthiadau o sawl man, nid dim ond Sir Ddinbych. Rydym, fodd bynnag, wedi targedu trigolion lleol yn benodol trwy ddsbarthu dros 30,000 o daflenni yn lleol a hysbysebu yn fersiynau print y Rhyl Journal a'r Denbighshire Free Press. Rydym hefyd yn cysylltu â holl ysgolion yr ardal yn flynyddol i hyrwyddo cyfleon i ddysgu Cymraeg. Mae Menter Iaith Sir Ddinbych, trwy ei chysylltiadau a'i hymgyrchoedd cymunedol, wedi'n cynorthwyo i gyrraedd grwpiau targed ar gyfer ein harlwy Cymraeg i Oedolion.</p>	
<p>Nifer y penderfyniadau polisi'r cyngor lle ystyriwyd yr effaith ar yr iaith Gymraeg</p>	<p>32</p>	<p>•</p>
<p> ↑ DP wedi gwella ↓ DP wedi llithro'n ôl ↔ DP yr un fath neu heb newid lawer • Dim cymhariaeth ar gael </p>		

5.4 Thema 4: Busnes a'r economi

Y weledigaeth:

- *Cydnabod pwysigrwydd economi ffyniannus i ddyfodol yr iaith Gymraeg.*

Canlyniad a ddymunir:

- *Dylai'r Cyngor Sir a phartneriaid datblygu economaidd eraill gydnabod pwysigrwydd dyfodol yr iaith Gymraeg i gymunedau ffyniannus a dylid cynhyrchu strategaethau er mwyn sicrhau fod pobl ifanc yn enwedig yn cael cyfle i fyw a gweithio yn eu cymunedau lleol a cyfrannu at eu ffyniant.*

Llwyddiannau Thema 4: Busnes a'r economi

- Cynnal peilot cynllun Cymraeg mewn Busnes.
- Dosbarthu llyfryn Buddion Dwyieithrwydd.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg trwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Hyrwyddo arfau iaith Gymraeg i fusnesau, megis Helo Blod.
- Adnabod a hyrwyddo astudiaethau achos sy'n medru cynnig gwersi arfer dda.
- Creu a sefydlu polisi ar ddyfarnu grantiau er mwyn cynorthwyo swyddogion i gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 wrth gyhoeddi grantiau ar ran y Cyngor.

Heriau Thema 4: Busnes a'r economi

- Cyfyngiadau cyllideb wedi cael traweffaith ar hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil. Roedd hyn i fod yn rhan o gynllun grant ond ni chafodd ei gyllido.
- Medru bod yn anodd darparu tystiolaeth o fuddion dwyieithrwydd i fusnesau, yn enwedig ymhle bod busnesau am weld adenillion ariannol ar unrhyw fuddsoddiad (boed hynny yn fuddsoddiad amser neu gyllid).

- Methiant i adnabod pencampwyr busnes ym mhob tref yn y sir.

<i>Camau Gweithredu Thema 4: Busnes a'r economi</i>
Darparu rhaglen hyfforddiant beilot i fusnesau lleol yn Sir Ddinbych ar ddwyieithrwydd.
Cyflwyno rhagor o hyfforddiant ar gyfer busnesau os oes galw amdano.
Trefnu sesiynau i fusnesau i weld sut gallant gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol.
Darparu dogfen briffio i fusnesau ar fanteision dwyieithrwydd.
Rhannu arfer da ymysg busnesau ar fanteision dwyieithrwydd.
Darparu bathodynau Siarad Cymraeg i fusnesau.
Codi ymwybyddiaeth o gyrsiau dysgu Cymraeg i oedolion yn y gymuned.
Cylchlythyr i'r gymuned fusnes ar ba fath o gefnogaeth busnes sydd ar gael i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
Clustnodi cefnogwyr busnes ym mhob prif dref i weithredu fel llysgennad ar gyfer yr iaith Gymraeg.

Annog busnesau yn Sir Ddinbych i nodi'r iaith Gymraeg fel sgil ychwanegol wrth recriwtio staff newydd.

Sicrhau fod pob contract a gyhoeddir gan y Cyngor yn glynu at amodau anghenion Safonau'r Iaith Gymraeg.

Dangosyddion perfformiad Thema 4: Busnes a'r economi

Dangosyddion Perfformiad	Testun/Data	Statws
Nifer y busnesau yn Sir Ddinbych yn cael eu hyfforddi ynglŷn â manteision dwyieithrwydd drwy ymgyrch wedi ei thargedu	<p>Roedd 36 o fusnesau yn rhan o'r cynllun peilot. Prin oedd y busnesau wnaeth barhau y tu hwnt i'r gweithdai cychwynnol am nad oeddynt yn medru adnabod y gwerth ariannol i'w busnesau o barhau.</p> <p>Wedi dosbarthu'r daflen Buddion Dwyieithrwydd i 1,000 o fusnesau.</p>	●
Nifer y busnesau yn arddangos arwyddion deunyddiau hyrwyddo Cymraeg o fewn eu busnes drwy ymgyrch wedi ei thargedu	<p>Rydym yn dosbarthu cylchlythyr misol i fusnesau sydd a chynulleidfa o 3,500. Mae cynnwys penodol yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'r gwasanaethau cefnogol sydd ar</p>	●

	gael. Mae esiamplau yn cynnwys ymgyrch Helo Blod a gwersi Cymraeg wedi'u ariannu.	
Nifer y cyfleoedd i bobl ifanc gael mynediad at waith yn lleol	O ganlyniad i gyfyngiadau cyllid ni ariannwyd y cynllun grant byddai wedi monitro yr effaith ar recriwtio.	•
<p> ↑ DP wedi gwella ↓ DP wedi llithro'n ôl ↔ DP yr un fath neu heb newid lawer • Dim cymhariaeth ar gael </p>		

5.5 Thema 5: Gweinyddiaeth fewnol y Cyngor

Y weledigaeth:

- *Mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gweithle, gyda mwy o bwyslais ar gynnwys anghenion penodol iaith Gymraeg ar gyfer swyddi newydd.*

Canlyniad a ddymunir:

- *Mwy o staff yn defnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd.*
- *Darparu mwy o gyfleoedd hyfforddi (hyfforddiant a mentora ffurfiol).*
- *Diwylliant dwyieithog mwy positif o fewn y sefydliad.*

Llwyddiannau Thema 5: Gweinyddiaeth fewnol y Cyngor

- Sefydlu gweithdrefn mewnol ar gyfer monitro sgiliau ieithyddol staff yn flynyddol. Monitro sgiliau ieithyddol yn cynorthwyo wrth benderfynu ar pa gyrsiau iaith sydd angen eu cynnig i staff.
- Cyflwyno e-fodiwl gorfodol Cwrs Lefel 1 i staff i gadarnhau eu swyddi wedi cyfnod prawf.
- Hyrwyddo modiwl Cwrs Lefel 1 dysgu Cymraeg i staff gofal.
- Cynnal rhwydwaith o Bencampwyr y Gymraeg ym mhob Gwasanaeth o fewn y Cyngor sy'n cyfarfod bob tri mis i fonitro cynnydd gyda'r Safonau ynghyd â rhannu arferion gorau fel cyfaill beirniadol. Hyn wedi meithrin dealltwriaeth drylwyr o'r Safonau a'r strategaeth gysylltiedig ac wedi arwain at gynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth a siopwr cudd.
- Cydweithio o fewn y Cyngor dan arweiniad Swyddog yr Iaith Gymraeg i osod y nod fod pawb o fewn y Cyngor yn cwblhau Cwrs Lefel 1 fel bod gan holl staff y Cyngor sgiliau sylfaenol/lefel cwртеisi yn y Gymraeg.
- Gosod gweithdrefn lefelau sgiliau iaith ar ffurflenni cais am swyddi, gan weithio i ffwrdd o hysbysebu swyddi sy'n nodi bod y Gymraeg 'yn hanfodol', 'yn ddymunol', ac ati gan symud i hysbysebu fesul lefel gallu mewn sgiliau ieithyddol penodol.
- Sicrhau bod mewnwyd y Cyngor yn gyfan gwbl ddwyieithog.

- Creu tudalen ‘Cymraeg yn y gweithle’ ar fewnwyd y Cyngor sy’n cynnwys adnoddau defnyddiol i staff.
- Cynnal sesiynau gloywi iaith, gyda 50 aelod o staff yn mynychu’r hyfforddiant. Sesiynau gloywi iaith bellach ar gael trwy’r cynllun Cymraeg Gwaith.
- Gosod meddalwedd Cysgeir ar bob cyfrifiadur y Cyngor. Hyn yn disodli’r hen drefn o staff n gorfod gofyn i osod y feddalwedd. Yn ogystal rydym wedi cynnig hyfforddiant i staff i fedru gwneud y mwyaf o’r feddalwedd.

Heriau Thema 5: Gweinyddiaeth fewnol y Cyngor

- O fewn y Gwasanaeth Ieuenctid mae’n medru bod yn anodd i ddatblygu sgiliau Cymraeg staff gan bod nifer ohonynt ond wedi’i contractio am nifer fach o oriau yn wythnosol i weithio o fewn ein canolfannau ieuenctid.
- Mae heriau adnoddau wedi ei wneud yn anodd i rhoi’r modiwl gorfodol Cwrs Lefel 1 ar waith.
- Mae’r newid ym mhatrymau gwaith oherwydd y pandemig COVID-19 yn golygu bod patrymau defnydd iaith staff y Cyngor wedi newid. Hyn yn cynnig her i ddefnydd y Gymraeg gan staff gan byddent, yn flaenorol, wedi clywed a defnyddio’r Gymraeg o fewn y swyddfa yn naturiol.
- Mae’n medru bod yn heriol annog staff i wneud y mwyaf o’r sgiliau ieithyddol sydd ganddynt eisoes, yn enwedig o fewn y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol/Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Plant.

Camau Gweithredu Thema 5: Gweinyddiaeth fewnol y Cyngor

Cyflwyno gofynion ieithyddol i bob swydd newydd – lle bydd angen i staff gyflawni sgiliau sylfaenol Lefel 1 yn Gymraeg cyn cychwyn cyflogaeth.

Adolygu adnodd staffio iaith Gymraeg y Cyngor, er mwyn cynyddu capasiti o fewn y sefydliad.

Ail lansio cynllun cyfeillio a monitro'r Cyngor.

Hyrwyddo a marchnata cyrsiau iaith Gymraeg.

Asesu sgiliau ieithyddol lefelau o staff yn flynyddol a bwydo'r wybodaeth yma i'r broses gynllunio gwasanaeth blynyddol.

Sicrhau fod gan bob aelod newydd o staff sy'n siarad Cymraeg fynediad at becynnau Microsoft Word Cysgair / Cysill.

Sicrhau fod yr holl staff yn cwblhau modiwl e-ddysgu ar yr iaith Gymraeg.



Trefnu sesiynau Gloywi iaith i staff i gynyddu eu hyder i weithio yn Gymraeg.

Cynhyrchu holl dudalennau'r fewnwyd yn Gymraeg.

Trefnu diwrnodau blynyddol cenedlaethol sy'n dathlu'r iaith Gymraeg - e.e. Diwrnod Su'mai Shwmae.

Dangosyddion perfformiad Thema 5: Gweinyddiaeth fewnol y Cyngor

Dangosyddion Perfformiad	Testun/Data	Statws
<p>% cynnydd yn y nifer o staff sy'n dysgu Cymraeg yn y Gweithle</p>	<p>Nifer fawr o gyfleoedd ar gael ac mae'r rhain yn cael eu hysbysebu i staff. Staff yn cael ei annog i ddysgu Cymraeg trwy'r cyrsiau mewnol sydd ar gael diolch i'r broses 1 i 1.</p> <p>Nifer y staff sy'n cwblhau cyrsiau ar-lein trwy'r cynllun Cymraeg Gwaith a gwersi Cymraeg thrwy Coleg Cambria:</p> <p>2017 to 2018: 39</p> <p>2018 to 2019: 37</p> <p>2019 to 2020: 84</p> <p>2020 to 2021: 16 (wedi'i effeithio gan COVID-19)</p> <p>2021 to 2022: 85</p>	<p>↑</p>

<p>% cynnydd yn y nifer o staff sy'n cael eu mentora / cyfeilla yn y Gweithle</p>	<p>Mae sesiynau Paned a Sgwrs wedi cynnig y cyfle i staff i gael sgwrs sydyn dros baned o goffi. Mae hyn yn helpu pobl wella eu sgiliau cymdeithasol, ffurfio perthynas a gwella eu lles meddyliol a chorfforol. Byddwn yn cyfarfod unwaith yr wythnos yn ystod amser cinio i wneud amryw o weithgareddau i annog staff i ddefnyddio a meithrin sgiliau eu Cymraeg. Roedd yn heriol cynnal y sesiynau hyn yn ystod pandemig COVID-19 (yn enwedig y cyfle i staff i ryngweithio mewn modd oedd yn meithrin perthynas mentora/cyfeilla) ond mae'r sesiynau wedi ail-gydio dros y cyfnod diweddar.</p>	
<p>Mwy o gyfle i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn y gweithle</p>	<p>Hyn yn peri i fod yn heriol am fod staff yn dal i weithio o adref ac felly mae hyn yn lleihau'r cyfleoedd i glywed ac i ddefnyddio'r Gymraeg yn y swyddfa. Yn y gorffennol byddai nifer o sgysiau yn digwydd yn naturiol yn y Gymraeg o fewn y gweithle.</p>	

	<p>Her arall yw bod staff yn medru meddu ar sgiliau ieithyddol gwahanol i'w gilydd.</p> <p>Diwrnodau staff yn annog staff i gymdeithasu a rhwydweithio trwy eu dewis iaith.</p>	
<p> ↑ DP wedi gwella ↓ DP wedi llithro'n ôl ↔ DP yr un fath neu heb newid lawer • Dim cymhariaeth ar gael </p>		

6. Casgliad

Mae'r adroddiad sicrwydd hwn yn bodloni gofynion Safon 145 a Safon 146 (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015). I fodloni Safon 146 yn benodol, mae'r adroddiad yn:

- asesu i ba raddau bod Cyngor Sir Ddinbych wedi dilyn y strategaeth iaith ar gyfer y cyfnod 2017-2022 (gweler adran 5);
- mae'n cynnwys gwybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir, ac oedran y siaradwyr hynny (gweler adran 3);
- rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd gan Gyngor Sir Ddinbych yn ystod cyfnod y strategaeth (gweler adran 4).

Rhaid nodi bod cyfnod y strategaeth iaith wedi'i effeithio gan y pandemig COVID-19. Gwelir effaith y pandemig ar weithredu'r strategaeth, ac yn y gweithgareddau cysylltiedig. Tra'n cynnig nifer o heriau (e.e. o ran y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol) roedd hefyd yn creu yr angen i weithredu'n hyblyg ac yn greadigol ac mae tystiolaeth o hyn yn yr adroddiad hwn.

Dyma'r adroddiad sicrwydd cyntaf (ar y strategaeth iaith gyntaf) sydd wedi'i baratoi ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych i fodloni gofynion Safonau'r Gymraeg. Gan gadw hyn mewn cof, mae'n ddisgwyliedig bydd mireinio ar y broses o lunio'r strategaeth a'i werthuso gydag iteriadau olynol. Trafoda nifer o'r argymhellion y cyd-destun hyn, gan dynnu yn helaeth ar ddogfennau cyngor Comisiynydd y Gymraeg ar lunio ac asesu cyrhaeddiad y strategaeth.

Daw yn amlwg yn yr adroddiad y pwysigrwydd o weithio o fewn y tirlun polisi cenedlaethol a lleol, ac i fanteisio ar y cyfleoedd i gydweithio mewn perthynas a'r CSCA, Strategaeth Cymraeg 2050, Deddf Llesiant 2015, Mwy na Geiriau, ac ati. Mae'n amlwg bod gwaith rhai o adrannau Cyngor Sir Ddinbych wedi'i yrru gan y strategaethau hyn ac felly'n mae'n hanfodol ystyried hyn wrth lunio'r strategaeth newydd. Gwelwyd bod y strategaeth yn eistedd ochr yn ochr o fewn y tirlun polisi yn ystod y cyfnod hwn.

Efallai mae strategaeth Cymraeg 2050 ddylai fod y prif ystyriaeth wrth lunio'r strategaeth newydd, gan osod blaenoriaeth ar gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ogystal. Mae argymhellion 1, 2, a 3 yn cynnig arweiniad ar hyn mewn perthynas â gosod targed i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg ac felly bodloni gofynion Safon 145. Mae argymhelliad 7 yn nodi'r angen i sicrhau bod y camau gweithredu yn cyd-fynd gyda'r weledigaeth ar gyfer y strategaeth, gyda lle i fod yn fwy uchelgeisiol wrth sicrhau bod y camau gweithredu yn cyfrannu'n eglur i gyrraedd y targed o ran cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg (argymhelliad 5). Mae argymhellion 5, 8, 9, 10, ac 11 oll yn

ymwneud gyda gweithrediad a mesur perfformiad y strategaeth. Ceri trafodaeth o argymhelliad 12 ym mhwynt 2 isod.

O'r adroddiad hwn, ac o ystyried canllawiau Comisiynydd y Gymraeg, daw dwy her benodol ar gyfer cyfnod y strategaeth nesaf:

1. Datblygu gwaith sefydliadau partneriaeth wrth iddynt gael perchnogaeth dros wireddu'r strategaeth yn ogystal.

Nodwedd amlwg ym mwyafrif helaeth y strategaethau 5 mlynedd yw cydnabyddiaeth o bwysigrwydd partneriaethau mewnol ac allanol i wireddu'r gwaith²⁹. Mae dogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg yn ei wneud yn glir bod angen gweithio'n agos â phartneriaid er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y strategaeth, gyda chefnogaeth rhanddeiliaid allweddol yn golygu bydd pawb yn rhannu'r baich ac yn gweithio tuag at yr un nod³⁰. Cydran allweddol yn hyn o beth yw'r Fforwm Iaith.

Nid yw'n eglur pa weithgareddau o'r strategaeth sydd wedi'u cyflawni gan sefydliadau heblaw Cyngor Sir Ddinbych. Yn hyn o beth, dylai'r strategaeth newydd ddilyn cyngor Comisiynydd y Gymraeg ac arfer dda drwy sicrhau bod y Fforwm Iaith (ac aelodau'r Fforwm) yn gweithredu i adfywio'r iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych³¹. Dylai'r Fforwm Iaith hwyluso cydweithio gan bartneriaid a sicrhau bod y strategaeth iaith newydd ar waith ar draws partneriaid y Fforwm Iaith. Gall hyn hefyd gynnig y cyfle i greu cysylltiadau rhanbarthol lle'n briodol³².

2. Datblygu'r defnydd o ddulliau i fesur perfformiad a chyrhaeddiad y strategaeth, yn ogystal i'r gweithdrefnau i werthuso gweithrediad y strategaeth (gweler hefyd argymhelliad 12).

Ceir arweiniad gan ddogfennau cyngor Comisiynydd y Gymraeg mae da o beth byddai ystyried yr ymagwedd ehangach ar gyfer gwerthuso effaith y strategaeth yn ei gyfanrwydd

²⁹ [20181031-gc-safonau-yngghylch-hybur-gymraeg-cymraeg-terfynol.pdf \(comisiynyddygydraeg.cymru\)](#), t: 30.

³⁰ [20181031-gc-safonau-yngghylch-hybur-gymraeg-cymraeg-terfynol.pdf \(comisiynyddygydraeg.cymru\)](#), t: 31

³¹ [20181031-gc-safonau-yngghylch-hybur-gymraeg-cymraeg-terfynol.pdf \(comisiynyddygydraeg.cymru\)](#), t:30-39.

³² [20210407-dg-c-cyngor-ar-asesu-cyrhaeddiad-y-strategaethau-hybu.pdf \(comisiynyddygydraeg.cymru\)](#), t: 21.

neu elfennau ohoni³³. Daw hyn yn ogystal i'r gwaith o werthuso gweithrediad y strategaeth, ac mae'n cynnwys yr angen i werthuso effaith y strategaeth. Dylid ystyried hyn wrth lunio'r strategaeth newydd, yn rhannol er mwyn hwyluso'r broses o bennu dangosyddion ac i fwydo i mewn i gynllun gweithredu'r strategaeth ond hefyd i sicrhau bod y gwaith o geisio mesur traweffaith y strategaeth yn cael ei ystyried a'i gynllunio o'r cychwyn cyntaf. Gweler ddogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg am arweiniad ar fethodolegau i fesur perfformiad a chyrhaeddiad y strategaethau iaith³⁴

6.1 Argymhellion

Argymhelliad 1: Sefydlu gwaelodlin pendant i osod targed i gynyddu'r nifer/canran o siaradwyr Cymraeg.....	6
Argymhelliad 2: Gosod targed hirdymor i gynyddu'r nifer /canran sy'n medru siarad Cymraeg.....	7
Argymhelliad 3: Gosod targed i gynyddu'r nifer/canran sy'n medru siarad Cymraeg sy'n gyson ag amcanion strategaeth Cymraeg 2050.....	7
Argymhelliad 4: Cynnwys datganiad sy'n esbonio sut fwriedir cyrraedd y darged o ran cynyddu nifer/canran sy'n medru siarad Cymraeg	7
Argymhelliad 5: Hwyluso yr adroddiadau monitro er mwyn ateb gofynion Safon 146	30
Argymhelliad 6: Ystyried pa weithgareddau sy'n berthnasol i Safon 146 er mwyn symleiddio'r broses monitro	30
Argymhelliad 7: Sicrhau bod y pwyntiau gweithredu yn cyd-fynd gyda'r weledigaeth a'r canlyniadau a ddymunir	33
Argymhelliad 8: Sicrhau bod modd monitro cynnydd y pwyntiau gweithredu.....	33
Argymhelliad 9: Sicrhau bod y dangosyddion perfformiad a'r broses o fonitro ac adrodd ar y dangosyddion perfformiad yn galluogi mesur perfformiad yn erbyn amcanion y strategaeth.....	33
Argymhelliad 10: Sicrhau bod llwyddiannau neu heriau penodol yn cael eu cofnodi yn rheolaidd trwy gyfnod y strategaeth.....	34

³³ [20210407-dg-c-cyngor-ar-asesu-cyrhaeddiad-y-strategaethau-hybu.pdf \(comisiynyddygybraeg.cymru\)](#), t: 29.

³⁴ [20210407-dg-c-cyngor-ar-asesu-cyrhaeddiad-y-strategaethau-hybu.pdf \(comisiynyddygybraeg.cymru\)](#), t: 12.

Argymhelliad 11: Ystyried penodi swyddog penodol sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth iaith o fewn bob gwasanaeth	34
Argymhelliad 12: Bod yn fwy uchelgeisiol wrth fesur traweffaith y strategaeth	34

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PWYLLGOR LLYWIO'R IAITH GYMRAEG

Cyfarfod	Eitem (Disgrifiad / Teitl)	Pwrpas yr Adroddiad	Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt
15 Tachwedd 2023			

Nodyn i Swyddogion – Dyddiadau Cau Adroddiad

<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiad cau</i>	<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiad cau</i>	<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiad cau</i>
<i>Tachwedd</i>	<i>26 Hydref</i>				

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag